Hawliau Plant Cymru

Children's Rights Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

# Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Arsylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2023









Gorffennaf 2024

OGL © Crown copyright 2024, Welsh Government, WG50114, Digital ISBN 978-1-83625-403-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



**Sarah Murphy AS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar

# Rhagair

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirdymor at hawliau plant. Drwy gyhoeddi ein hymateb i Adroddiad Arsylwadau Terfynol 2023 Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, rydym yn cadarnhau'r ymrwymiad hwnnw.

Fel llywodraeth, rydym yn ymwybodol iawn bod adroddiad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedi'i lunio yn erbyn cefndir o gyfnod anodd iawn i'n plant a'n pobl ifanc yng Nghymru. Maent wedi wynebu amgylchiadau hollol newydd dros y pum mlynedd ddiwethaf – pandemig COVID-19, Brexit, a'r argyfwng costau byw sy'n effeithio ar gynifer o agweddau ar eu bywydau.

Cawsom ganmoliaeth gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig am ein llwyddiannau yn diogelu hawliau plant drwy wahardd pob math o gosb gorfforol drwy Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ac ymestyn hawliau pleidleisio i bobl 16 a 17 oed yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol, gyda'r ddau ddatblygiad yn cael eu dyfynnu fel enghreifftiau o arfer da.

Rydym yn ddiolchgar i'n sefydliadau Cymdeithas Sifil i Blant yng Nghymru, i blant a phobl ifanc ym mhob cwr o Gymru, ac i'n hymchwilwyr Cymru Ifanc gwych am eu cyfraniad i'r broses adolygu. Roedd pob un wedi cyfrannu adroddiadau tystiolaeth gwerthfawr a ddarparwyd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig cyn y Ddeialog Adeiladol. Hefyd, teithiodd y grŵp ymchwil Cymru Ifanc i Geneva gyda phlant a phobl ifanc eraill o'r DU i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

Mae eu tystiolaeth wedi dylanwadu ar yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor a dylent fod yn falch iawn o'u cyfraniad.

Mae lleisiau plant a phobl ifanc, a'u profiadau bywyd, yn thema gadarn yn adroddiad y Pwyllgor a adleisiwyd yn adborth y bobl ifanc eu hunain ac yn y gweithdai i randdeiliaid yr ydym wedi'u cynnal. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i holi plant a phobl ifanc beth sy'n bwysig iddyn nhw ar draws yr holl bolisïau sy'n effeithio arnynt. Mae'r ymateb hwn yn cynnwys esiamplau o'r gwaith da hwnnw, ond mae mwy y gellid ei wneud o hyd.

Rydym yn gwerthfawrogi arbenigedd ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ym mhob cwr o Gymru, ac yn edrych ymlaen at gydweithio â nhw wrth ymwreiddio ein hymateb i'r argymhellion yn ein gwaith craidd.

Rydym yn ddiolchgar i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig am ei Adroddiad Arsylwadau Terfynol. Mae'r Pwyllgor, drwy ei adroddiad, wedi ein herio i wneud rhagor i hybu a sicrhau hawliau plant a phobl ifanc. Rydym wedi ymrwymo'n llawn i wneud hynny.



# Cyflwyniad

Cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei adroddiad Arsylwadau Terfynol ym mis Mehefin 2023. Y cyhoeddiad oedd diweddglo ei chweched a'i seithfed adolygiad cyfnodol o'r Deyrnas Unedig fel gwladwriaeth sy'n barti, ac roedd yn dilyn cyfnod Deialog Adeiladol yr adolygiad, a gynhaliwyd yn Geneva ym mis Mai 2023.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan lawn yn yr adolygiad cyfnodol. Yn ôl ym mis Medi 2022, roeddem wedi cyhoeddi ymateb Cymru i Restr o Faterion cyn Cyflwyno'r Cenhedloedd Unedig. Roeddem hefyd wedi cymryd rhan yn y Ddeialog Adeiladol yn Geneva fel rhan o Gynrychiolaeth ehangach y DU.

Mae Adroddiad Arsylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig yn gyngor pwysig i helpu llywodraethau i nodi ffyrdd o roi'r Confensiwn ar waith. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad.

Mae'r Arsylwadau Terfynol wedi'u cyfeirio at y Deyrnas Unedig fel Gwladwriaeth sy'n Barti sydd wedi llofnodi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r adroddiad yn eang ac yn gwneud tua 200 o argymhellion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u hanelu at y DU yn gyffredinol, ac mae llawer yn berthnasol i Gymru. Yn yr adroddiad mae argymhellion sy'n ymwneud yn bennaf â chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r argymhellion ac i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd yn y meysydd y mae'r Llywodraeth yn gyfrifol amdanynt, neu i ymateb pan fo gennym safbwynt ynghylch yr argymhellion hynny.

Mae ein trafodaethau â'n partneriaid wedi llywio ein dull gweithredu sydd wedi'i amlinellu yn yr ymateb hwn. Hoffem ddiolch i'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant sydd wedi rhoi cymorth, cyngor ac arweiniad hynod werthfawr i ni yn ystod y broses hon.

Roedd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedi amlinellu chwe maes blaenoriaeth lle roedd yn credu y dylai'r DU fel Gwladwriaeth sy'n Barti gymryd camau brys. Dyma'r meysydd hyn:

- peidio â gwahaniaethu;
- cam-drin, esgeuluso, a chamfanteisio a cham-drin yn rhywiol;
- plant sydd wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol;
- iechyd meddwl;
- plant mudol, plant sy'n ffoaduriaid, a phlant sy'n ceisio lloches;
- gweinyddu cyfiawnder i blant.

Fel rhan o'n hymrwymiad i drafod â sefydliadau cymdeithas sifil i blant, rhanddeiliaid a phlant a phobl ifanc, rydym wedi cynnal gweithdai ar y meysydd blaenoriaeth ac wedi gwahodd adborth penodol ar yr argymhellion drwy'r ymgyngoriadau ar y strategaethau drafft ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant, ac Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed. Mae'r adborth a gawsom drwy'r gwaith maes hwn wedi bod yn hollbwysig wrth lywio ein hymateb a sut byddwn yn ystyried gweithredu ar yr argymhellion yn yr adroddiad dros y cyfnod adrodd nesaf o wyth mlynedd.

Rydym hefyd wedi gofyn am safbwyntiau plant a phobl ifanc drwy'r rhaglen Cymru Ifanc, sef ein model cyfranogi sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan Plant yng Nghymru. Cafodd dwy sesiwn ar sail oedran eu cynnal ar y meysydd blaenoriaeth yng nghwrs preswyl Cymru Ifanc ym mis Chwefror. Y pethau pwysicaf iddyn nhw oedd iechyd meddwl, effaith yr argyfwng costau byw, a thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan ac sydd wedi rhoi adborth hynod bwysig i ni ar yr argymhellion yn y meysydd hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried eu holl safbwyntiau a'u sylwadau, ac mae'r rhain wedi ein helpu i lunio ein hymateb i'r Adroddiad Arsylwadau Terfynol.

Mae strwythur yr ymateb hwn yn dilyn cynllun yr Adroddiad Arsylwadau Terfynol. Dyma'r adrannau:

- Mesurau Gweithredu Cyffredinol
- Diffiniad o'r plentyn
- Egwyddorion Cyffredinol
- Hawliau Sifil a Rhyddid
- Trais yn erbyn Plant
- ·Amgylchedd Teuluol a Gofal Amgen
- Plant ag anableddau
- Iechyd a Llesiant Sylfaenol
- Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwylliannol
- Amddiffyniadau Arbennig
- Protocolau Dewisol

Yr egwyddor gyffredinol i Lywodraeth Cymru o hyn ymlaen yw bod argymhellion yr Adroddiad Arsylwadau Terfynol yn llywio gwaith craidd parhaus Llywodraeth Cymru, ac yn cael eu gwreiddio yn y gwaith hwnnw.



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Prif feysydd pryder a'r argymhellion | 7 |
| Mesurau Gweithredu Cyffredinol | 9 |
| Diffiniad o'r plentyn | 17 |
| Egwyddorion Cyffredinol | 21 |
| Hawliau Sifil a Rhyddid | 33 |
| Trais yn erbyn Plant | 37 |
| Amgylchedd Teuluol a Gofal Amgen | 45 |
| Plant ag anableddau | 53 |
| Iechyd a Llesiant Sylfaenol | 57 |
| Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwylliannol | 75 |
| Amddiffyniadau Arbennig | 83 |
| Protocolau Dewisol | 89 |



# Prif feysydd pryder a'r argymhellion

**Mewn ymateb i argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig i gymryd camau brys ym meysydd peidio â gwahaniaethu, cam-drin, esgeuluso, a chamfanteisio a cham-drin yn rhywiol, plant sydd wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol, iechyd meddwl, plant mudol, plant sy'n ffoaduriaid, a phlant sy'n ceisio lloches, a gweinyddu cyfiawnder i blant; mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu'r meysydd hyn ac wedi hwyluso trafodaethau traws-sector a thrafodaethau â'n rhanddeiliaid ynghylch ein dull gweithredu yng Nghymru. Mae hyn wedi llywio ein hymateb.**

## Hawliau Plant a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu dull gweithredu cynhwysfawr ar gyfer datblygu cynaliadwy sy'n adlewyrchu fframwaith Agenda Nodau Datblygu Cynaliadwy 2030 ac yn cefnogi ymrwymiad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae'r fframwaith mesur ar gyfer llesiant Cymru yn cynnwys 50 o ddangosyddion llesiant ac rydym yn cyhoeddi Adroddiad blynyddol ar Lesiant Cymru sy'n cynnwys data ar gyfer plant ac agweddau cysylltiedig. Yn 2018 ac yn 2022 cafodd adroddiadau ar wahân ar lesiant plant eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r prif adroddiad ar lesiant. Byddwn yn parhau i adrodd yn flynyddol ar nodau llesiant Llywodraeth Cymru.

Bydd plant a phobl ifanc yn dal yn hollbwysig wrth inni lunio ein deddfau, ein polisïau a'n rhaglenni. Mae ein cyllid i Cymru Ifanc, grŵp cynrychioladol o blant a phobl ifanc, yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Yn 2022, roedd aelodau o Cymru Ifanc wedi cyfarfod â Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel rhan o'u proses adrodd i drafod eu hadroddiad i'r Cenhedloedd Unedig.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pobl ifanc wedi dylanwadu ar bolisïau allweddol, fel ein Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'r gwaith ar Ddiwygio'r Flwyddyn Ysgol. Maent hefyd wedi helpu i ddatblygu adnoddau dysgu proffesiynol i gefnogi Deddf Plant (Cymru) 2020. Yn ogystal â hynny, maent wedi cydgynhyrchu animeiddiad ar gyfer Cynllun Gwella'r Gyllideb.

Yn 2024-25, bydd Cymru Ifanc yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion fel addysg, yr hinsawdd, cyfiawnder cymdeithasol ac iechyd meddwl.



# Mesurau Gweithredu Cyffredinol (erthyglau 4, 42 a 44 (6))

## Deddfwriaeth

**Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wreiddio hawliau plant yn y gyfraith. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi 'sylw dyledus' i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt ystyried yr effaith ar blant a phobl ifanc.

Yn 2021 roeddem wedi cyhoeddi'r adroddiad ymchwil cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn dangos y ffordd o ran diogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol unigolion a chymunedau yng Nghymru a bydd yn sail i'n gwaith yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Hawliau Dynol i sicrhau trafodaethau cryf â rhanddeiliaid wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Rydym hefyd wedi sefydlu gweithgor penodol, y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol, i roi cyngor ar y camau nesaf i fwrw ymlaen â'r gwaith o ymgorffori Hawliau yng Nghymru.

Mae'r gweithgor yn edrych ar ddau gytundeb, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod, sy'n ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i ehangu gwaith y grwpiau i edrych ar ymgorffori cytundebau eraill yn y Rhaglen Lywodraethu bresennol, gan gynnwys CCUHP.

**Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant**

Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith a ddefnyddir i ddangos ein bod wedi cyflawni'r ddyletswydd statudol i roi sylw dyledus i CCUHP. Maen nhw'n llywio'r cyngor i Weinidogion a rhaid eu cynnal cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Maent yn rhan o'r Asesiad Effaith Integredig sy'n ein helpu i gynnal asesiad cyflawn o effeithiau polisïau arfaethedig. Mae pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae angen cynnal Asesiad wrth ddatblygu unrhyw gynnig polisi newydd, neu wrth newid polisi presennol, os bydd y polisi hwnnw'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Mae'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant yn ystyried Asesiadau drafft sy'n cael eu cyflwyno iddynt ac yn cynnig cyngor arbenigol i dimau polisi. Mae'r Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant yn cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF UK, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol, a Plant yng Nghymru.

## Strategaeth a pholisi cynhwysfawr

### Rhoi'r Confensiwn ar waith

Mae ein dull gweithredu presennol, fel y nodir yn ein Cynllun Hawliau Plant, yn darparu fframwaith cryf sy'n seiliedig ar y pum egwyddor a nodir yn y Ffordd Gywir i sicrhau bod CCUHP yn cael ei ystyried ar draws yr holl bolisïau, deddfwriaeth a gwaith datblygu rhaglenni. Rydym yn credu bod y dull hwn yn gwreiddio CCUHP ar draws ein holl waith a byddai cynllun gweithredu ar ei ben ei hun yn tanseilio'r dull hwnnw.

Rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad cydymffurfio bob dwy flynedd a hanner, sy'n dangos sut rydym wedi cyflawni ein dyletswydd fel y nodir yn y cynllun. Mae'r adroddiad yn cynnwys camau gweithredu rydym wedi'u cymryd i wreiddio cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu yn ein gwaith.

Mae ein Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn dwyn ynghyd brif bolisïau a rhaglenni Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Mae'r cynllun yn nodi pa gamau rydym wedi'u cymryd a pha gamau y byddwn yn eu cymryd yn ystod y Senedd hon.

### Cydlynu

Yng Nghymru, mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar yn gyfrifol am hawliau plant yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd 'sylw dyledus' yn berthnasol ac yn gyfrifoldeb i holl Weinidogion Cymru.

Byddwn yn cadw mewn cysylltiad ar draws y DU fel Gwladwriaeth sy'n Barti drwy gydol y cyfnod adrodd nesaf.

Mae gan Lywodraeth Cymru Gangen benodol ar gyfer Hawliau Plant a Phobl Ifanc sy'n darparu cyngor ac arweiniad parhaus ar Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, ac yn helpu timau polisi i drafod â phlant a phobl ifanc wrth lunio polisïau a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Rydym wedi datblygu llawlyfr hawliau plant ar gyfer swyddogion i gefnogi'r gwaith o lunio polisïau o ansawdd uchel ac i helpu swyddogion i ddarparu cyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc arfer eu hawl i gael eu clywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

## Dyrannu adnoddau

### Tracio a monitro adnoddau ar gyfer plant

Mae Llywodraeth Cymru'n dal wedi ymrwymo i hawliau plant yn ein prosesau cyllidebu ac i edrych ar ffyrdd o wella'r prosesau hynny.

Rydym yn credu mai ein dull o gynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol, a sefydlwyd gennym yn 2015-16 ac a gyhoeddwyd gennym fel rhan o broses ein Cyllideb Ddrafft, yw'r ffordd orau o gyflawni ein dyletswydd gyfreithiol i roi sylw dyledus i CCUHP. Byddwn yn adolygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn 2024, ac yn ystyried ein dull o asesu Hawliau Plant.

Mae'r dull integredig hwn yn ein galluogi i gael gwell dealltwriaeth o effeithiau croestoriadol ac anfwriadol penderfyniadau gwario, ac i gynyddu effaith unrhyw gyllid sydd ar gael, gan leihau effeithiau anghymesur ar unrhyw grŵp neu ardal benodol. Roeddem wedi datblygu'r dull hwn ar sail ein profiadau blaenorol o Gyllidebu ar gyfer Plant i adlewyrchu nad yw dull meintiol bob amser yn adlewyrchu'r ffordd y mae cyllid yn cael ei wario. Mae diffinio canlyniadau gwariant o safbwynt monitro yn gymhleth, yn enwedig lle mae nifer o fuddiolwyr gwariant yn gysylltiedig ag un buddsoddiad.

Rôl y gyllideb yw amlinellu cynlluniau ariannol; mae monitro a chyflawni canlyniadau yn perthyn i fecanweithiau adrodd y Rhaglen Lywodraethu.

### Dyraniadau a mesurau atchweliadol

Rydym yn parhau i weithredu mewn ffordd sy'n cynyddu effaith y cyllid sydd ar gael i ni i'r eithaf. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, er bod camau wedi'u cymryd i liniaru effeithiau

cyn belled ag y bo modd, y realiti yw na ellir osgoi penderfyniadau anodd bob amser.

Er enghraifft, yn ein Cyllideb Ddrafft 2024-25, rydym wedi:

- Gwarchod y setliad llywodraeth leol craidd, sydd – ynghyd â'r Dreth Gyngor – yn ariannu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, gofal cymdeithasol, casgliadau sbwriel ac ailgylchu, a gwasanaethau hamdden lleol sydd o fudd i blant.
- Sicrhau bod cyllid sy'n mynd yn uniongyrchol i ysgolion wedi cael ei flaenoriaethu – gan gynnwys diogelu ein rhaglen Adfer Covid, 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau', a'r Grant Datblygu Disgyblion sy'n ariannu ysgolion i roi cymorth i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel.

### Cyfrannu at Broses y Gyllideb

Mae'r trafodaethau ar Gyllideb Llywodraeth Cymru yn dechrau'n gynnar ac yn cael eu cynnal drwy gydol y broses. Mae hyn yn cynnwys sesiynau gyda phartneriaid sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc. Mae'r sesiynau hyn yn ein galluogi i ddeall pa flaenoriaethau sydd bwysicaf i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae ein Cynllun Gwella'r Gyllideb, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25, yn cael ei ddatblygu gyda'n Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ddiwygio prosesau treth a chyllidebu i wella canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut rydym yn trafod ac yn cydweithio â phlant a phobl ifanc, gan godi ymwybyddiaeth o wariant cyhoeddus a threthu.

Gyda Plant yng Nghymru, rydym wedi cydgynhyrchu a lansio fersiwn i Bobl Ifanc o'r Cynllun Gwella'r Gyllideb. Mae'r un grŵp wedi datblygu fersiwn wedi'i hanimeiddio i helpu pobl ifanc i ddeall sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio a beth mae Trysorlys Cymru yn ei wneud.

## Casglu Data

### Cryfhau'r broses o gasglu data

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gryfhau ein systemau casglu data ynghylch plant er mwyn deall eu nodweddion a phrofiadau eu bywydau, a'r gwasanaethau a'r ymyriadau rydym ni ac eraill yn eu rhoi ar waith. Rydym yn gwneud hyn drwy weithgarwch ymchwil ac ystadegau mewn meysydd fel plant, teuluoedd, addysg, gofal plant, cyfiawnder cymdeithasol, gwasanaethau cymdeithasol, tai ac iechyd.

Rydym yn dadansoddi ac yn cyhoeddi data ar dlodi plant gyda gwybodaeth am dlodi incwm cymharol a dadgyfuno yn ôl oedran, anabledd ac ethnigrwydd. Rydym yn parhau i ddarparu cyllid tuag at sampl uwch ar gyfer yr Arolwg o Adnoddau Teulu i gael gwell dealltwriaeth o blant mewn tlodi.

Rydym yn parhau i gasglu data ar lefel unigol, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig, ar gyfer:

- plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol
- plant sy'n derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- plant mewn ysgolion a gynhelir

Mae'r data sy'n cael ei gasglu yn cael ei ddadansoddi, ei gyhoeddi a'i ddarparu'n ddiogel i'w gysylltu drwy Fanc Data SAIL.

Yn ddiweddar, adolygwyd y gofynion ar gyfer y gwaith casglu unigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae'r gwaith casglu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chymorth wedi symud o giplun o'r plant hynny sydd â chynllun gofal a chymorth am dri mis neu fwy ar 31 Mawrth i gasgliad blwyddyn lawn yn 2023-24. Bydd hyn yn cynnig dealltwriaeth ychwanegol ac yn casglu data ar lefel unigol ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ystod y flwyddyn.

Gan weithio gyda Phrifysgol Caerdydd (DECIPHer) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym wedi parhau i ddatblygu'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion mewn ysgolion uwchradd, ac yn dilyn astudiaeth ddichonoldeb yn 2022/23, mae ysgolion cynradd bellach wedi'u hintegreiddio'n llawn. Dyma'r rhwydwaith

cenedlaethol mwyaf o'i fath yn y byd ac mae llawer o'r cynnwys yn berthnasol i nodau'r Confensiwn. Cafodd dangosfwrdd data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ei lansio yn 2023, gan ddarparu data ar newidynnau iechyd a llesiant allweddol.

Mae data ar gyfer y cynnig gofal plant yn cael ei gasglu pan fydd rhieni'n gwneud cais ar borth ar-lein. Mae'n cynnwys enillion, oedran a lleoliad.

Yn dilyn argymhellion adroddiad 2019 y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru i ddadgyfuno rhagor o ddata cyfiawnder ar gyfer Cymru, fe wnaethom gyhoeddi'r Dangosfwrdd Rhyngweithiol Cyfiawnder Ieuenctid ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r data'n cynnwys nifer y plant sy'n rhyngweithio â'r system gyfiawnder wedi'u rhannu yn ôl grŵp oedran, rhyw a grŵp ethnig lefel uchel, yn ogystal â chanlyniadau a dangosyddion perfformiad.

Byddwn yn parhau i gasglu a chyhoeddi data gwasanaethau cymdeithasol blynyddol ar blant sy'n derbyn gofal a chymorth i gefnogi dealltwriaeth o'r gofal a'r cymorth a ddarperir mewn perthynas â gofynion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rydym yn parhau i gasglu a chyhoeddi data ar wasanaethau cwnsela a ddarperir i blant a phobl ifanc, amseroedd aros ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol i Blant a'r Glasoed a Gofal Iechyd Meddwl Sylfaenol.

Fe wnaethom adfer Setiau Data Craidd Cymru Gyfan yn 2023 ar ôl eu hatal ar ddechrau pandemig COVID-19. Mae gan bob ysgol a gynhelir ei phecyn data ei hun gyda dadansoddiad statig o'i chanlyniadau ei hun yng nghyd-destun aelodau o'u teulu o ysgolion, cyfartaledd yr Awdurdod Lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae teulu ysgol yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio amrywiaeth o nodweddion disgyblion fel hawl i brydau ysgol am ddim, cefndir ethnig ac anghenion dysgu ychwanegol, a'r nod yw grwpio ysgolion sydd â disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tebyg gyda'i gilydd.

**Gwella'r broses o gasglu a dadansoddi data**

Mae ein gweithgarwch ymchwil a gwerthuso yn cynnwys casglu data am blant mewn gofal; eu profiadau a'u barn am ddarpariaeth addysg; a rhaglenni iechyd meddwl. Mae enghreifftiau o gyhoeddiadau ymchwil diweddar ac arfaethedig sy'n ymwneud â chasglu a dadansoddi data plant yn edrych ar y canlynol:

- goruchwylio addysg plant sydd â phrofiad o ofal
- arferion i atal allgáu
- y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a darpariaeth dysgu ychwanegol yn y Gymraeg
- effeithiolrwydd cwnsela
- y pandemig, ei effeithiau a'r cymorth i ysgolion, gan gynnwys arolygon o brofiadau dysgwyr ôl-16 – cyhoeddwyd adroddiad ar y rhaglen Gaeaf Llawn Lles i ddysgwyr ym mis Ionawr 2023. Cafodd adroddiad ar effaith cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i ysgolion i gefnogi dysgwyr yn ystod y pandemig ei gyhoeddi ym mis Mai 2023. Cyhoeddwyd canfyddiadau arolwg ar effeithiau Covid-19 ar ddysgwyr ôl-16 ym mis Mawrth 2021 ac mae arolwg pellach o ddysgwyr mewn addysg ôl-16, sy'n edrych ar effeithiau parhaus y pandemig ar eu dysgu, yn mynd rhagddo.
- Gwerthusiad o'r cyllid adferiad COVID-19 ôl-16: Ebrill 2022 i Fawrth 2023.
- Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws.

Rydym wedi cyhoeddi cynllun gwerthuso ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru a'n canfyddiadau ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn gynnar ar gyfer ysgolion a dysgwyr ac wedi cyhoeddi ystadegau addysg ôl-16 sy'n rhoi sylw i gyflawniad dysgwyr a chyrchfannau dysgwyr ar gyfer sefydliadau addysg bellach a chweched dosbarth ysgolion gyda data sy'n cynnwys statws anabledd/anhawster dysgu, cefndir ethnig manwl a chymhwysedd Prydau Ysgol am Ddim. Mae gwybodaeth debyg ar gael am ganlyniadau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau hefyd.

Ar gyfer ysgolion, rydym wedi ehangu ein hystod o ddadansoddiadau cyhoeddedig ac erbyn hyn rydym yn cyhoeddi data rheolaidd ar gyrhaeddiad, canlyniadau a gwaharddiadau wedi'u dadgyfuno yn ôl hawl i brydau ysgol am ddim. Anghenion dysgu ychwanegol a chefndir ethnig. Mae hyn yn cynnwys cyrhaeddiad mewn darllen a rhifedd disgyblion dan 16 oed a chanlyniadau arholiadau cyhoeddus. Ers mis Medi 2020, rydym wedi bod yn casglu ac yn cyhoeddi data presenoldeb wythnosol gan ysgolion, sydd hefyd yn cynnwys dadansoddiad o batrymau presenoldeb yn ôl hawl i brydau ysgol am ddim. Mae hyn wedi hwyluso darlun amser real o batrymau presenoldeb ledled Cymru ac roedd yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a arweiniodd at greu Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol newydd i Gymru.

Rydym yn diwygio'r ecosystem wybodaeth ar gyfer ein system ysgolion er mwyn cefnogi'r gwaith o wella ysgolion yn gynaliadwy, gan sbarduno'r ymddygiadau a'r arferion sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm i Gymru drwy ddefnyddio data a gwybodaeth sy'n bodoli eisoes mewn modd soffistigedig.

Bydd yr ecosystem wybodaeth yn nodi ein disgwyliadau a'n gofynion ar gyfer defnyddio data'n briodol mewn ffordd gymesur ar draws y system ysgolion, lle gall fod yn effeithiol o ran sbarduno gwelliannau i'n dysgwyr, gan gefnogi ein dyheadau polisi. Bydd ffocws ar bob agwedd ar wella dysgu, ond yn benodol ar lesiant, tegwch ac iechyd meddwl.

Yn ystod 2022-23, fe wnaethom gynnal 'Gwarant i Bobl Ifanc – Sgwrs Genedlaethol' (cyfres o grwpiau ffocws ac arolygon gyda phobl ifanc 16-24 oed). Mae'r adroddiad cam cyntaf wedi cael ei gyhoeddi a bydd adroddiad ar gamau dau a thri yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2024.

Gan ddefnyddio cyfweliadau, arolygon ac adolygiadau desg, fe wnaethom gyhoeddi ein gwerthusiad o'r cyllid adferiad Covid-19 ar gyfer addysg bellach.

Yn 2024 byddwn yn cynnal amrywiaeth o werthusiadau newydd, gan gynnwys ar gyfer diwygio'r cynnig prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd.

Byddwn hefyd yn cychwyn ymchwil ansoddol, gan gynnwys ar gyfer ymddygiad heriol neu aflonyddgar mewn ysgolion; oedi mewn datblygiad o ran lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu ac emosiynol-gymdeithasol ymysg dysgwyr rhwng 3 ac 8 oed, ac ymchwil dilynol ar weithredu fframwaith y dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.

Mae gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru wedi dechrau. Bydd sawl rhan o'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar degwch a chynhwysiant, deall gweithrediad mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, ac ymchwil ansoddol gyda dysgwyr sy'n agored i niwed a/neu o gefndiroedd difreintiedig.

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad ar Ganllawiau Plant sy'n Colli Addysg a Rheoliadau Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg (Cymru) 2025 yn cael eu cyhoeddi yn nes ymlaen yn 2024. Ein nod yw darparu data i awdurdodau lleol yn fuan i'w helpu i ganfod a chefnogi plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd. .

Fel y nodwyd uchod, cymeradwywyd cais am gyllid ar gyfer Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion cwbl integredig (sector cynradd ac uwchradd) yn ddiweddar ar gyfer y cyfnod 2024 i 2026, gydag opsiwn i ymestyn i 2028. Bydd trafodaethau'n parhau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, a phartneriaid, ynghylch y meysydd blaenoriaeth i'w cynnwys yn yr arolygon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae'r Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru yn rhedeg tan 2027. Nod y gwerthusiad yw ymchwilio i effaith y cynllun peilot incwm sylfaenol ar fywyd pobl sy'n gadael gofal. Bydd fframwaith gwerthuso tymor hirach sy'n defnyddio data gweinyddol cysylltiedig yn cael ei sefydlu fel rhan o'r gwerthusiad. Mae rhywfaint o wybodaeth reoli am y cyfranogwyr yn y cynllun peilot yn ôl nodwedd warchodedig wedi cael ei chyhoeddi.

**Rhannu data**

Rydym yn rhannu data drwy adroddiadau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a data a dadansoddiadau'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, gan gynnwys cyhoeddiadau

mewn cyfnodolion gwyddonol. Mae data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn cael ei rannu mwy a mwy drwy ddangosfwrdd sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer sefydliadau, gan gynnwys ysgolion, i'w ddefnyddio at ddibenion gwerthuso fel y gwelant yn briodol. Mae dangosfyrddau ar lefel ysgol hefyd yn cael eu treialu. Bydd y dangosfyrddau hyn yn disodli'r system bresennol o adroddiadau data pwrpasol sy'n cael eu darparu i bob ysgol sy'n cymryd rhan. Mae'r data ar lefel ysgol yn adnodd allweddol ar gyfer hunanwerthuso gan ysgolion fel rhan o weithredu'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant, a Chynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru. Mae hefyd wedi'i wreiddio yn y gwaith o fonitro iechyd y cyhoedd yn lleol.

Mae adroddiadau ymchwil plant, teuluoedd a gofal plant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn cael eu defnyddio i werthuso effaith y polisi, a'u rhannu â phartïon sydd â diddordeb.

**Data wedi'i ddadgyfuno**

Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar opsiynau ar sut i wella'r broses o ddadgyfuno data er mwyn ychwanegu gwerth ac effaith at ein polisïau yn y meysydd a nodir yn argymhellion Adroddiad y Cenhedloedd Unedig.

## Monitro Annibynnol

**Comisiynydd Plant Cymru**

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn sefydliad annibynnol ar hawliau dynol plant. Mae cylch gwaith y Comisiynydd wedi'i nodi yn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a oedd yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000.

Prif nod swyddfa'r Comisiynydd yw diogelu a hybu hawliau a lles plant.

Penodir Comisiynwyr drwy gystadleuaeth deg ac agored. Roedd pobl ifanc yn rhan o'r broses recriwtio gyfan ar gyfer y Comisiynydd presennol.

Er mai'r Prif Weinidog sy'n ei benodi a Llywodraeth Cymru sy'n ei ariannu, mae gan y Comisiynydd statws corfforaeth unigol. Mae cynllun gwaith y Comisiynydd yn cael ei osod gan y Comisiynydd ac nid oes angen cymeradwyaeth Gweinidogion ar unrhyw faes yn y cynllun gwaith. Mae cylch gwaith y Comisiynydd yn cwmpasu pob maes o bwerau datganoledig Senedd Cymru i'r graddau y maent yn effeithio ar hawliau a lles plant.

Er mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw ariannu, ar Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru y mae'r cyfrifoldeb dros graffu ac atebolrwydd. Mae'r Comisiynydd, fel eraill ym mywyd cyhoeddus, yn atebol i'r cyhoedd drwy Bwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd a'i Phwyllgorau ar wahanol bynciau

## Lledaenu gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant

**Codi ymwybyddiaeth o hawliau plant**

Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yw'r prif ddull o fesur ymwybyddiaeth o CCUHP ymysg plant. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod gan dros hanner y plant a holwyd lefelau canolig i uchel o wybodaeth am eu hawliau. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt, 'Faint ydych chi'n ei wybod am CCUHP?', dim ond 36% o bobl ifanc ddywedodd eu bod wedi clywed am CCUHP.

Mae trosolwg o'r camau a gymerwyd ar draws Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth ar gael yn ein Hadroddiad Cydymffurfio diweddaraf ar gyfer Hawliau Plant.

Rydym yn ariannu Plant yng Nghymru i hybu a chodi ymwybyddiaeth o hawliau plant a CCUHP yng Nghymru. Mae ei waith yn cynnwys rhedeg y prosiect Cymru Ifanc, sy'n darparu model cyfranogi cynrychioliadol i blant a phobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y broses o lunio polisïau/deddfwriaeth a gwneud penderfyniadau; a gweithredu rhwydweithiau proffesiynol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Codi Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant ym mis Tachwedd 2021. Ei nod yw grymuso plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau fel dinasyddion Cymru a'r byd. Mae'r Cynllun wedi'i anelu at

blant, pobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Ers cyhoeddi'r cynllun, rydym wedi datblygu'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a oedd yn cynnwys datblygu gwybodaeth ategol am hawliau plant.

Rydym wedi ehangu'r model Cymru Ifanc, gan gynyddu aelodaeth a chyfranogiad plant a phobl ifanc yn y materion sydd bwysicaf iddynt.

Rydym wedi ehangu'r cymorth rydym yn ei gynnig drwy Magu Plant. Rhowch amser iddo i roi cyngor i rieni plant rhwng 0 a 18 oed. Gyda Plant yng Nghymru, rydym wedi sefydlu Rhwydwaith Rhianta, sy'n sicrhau bod barn rhieni'n cael ei chlywed a'u bod yn ymwybodol o'u hawliau, a'u bod yn gallu helpu eu plant i gael mynediad at eu hawliau.

Mae gwaith trafod a chyfathrebu helaeth hefyd wedi cael ei wneud drwy'r ymgyrch Stopio Cosbi Corfforol, sy'n ei gwneud yn glir bod plant yn cael yr un warchodaeth rhag ymosodiadau yn y gyfraith ag oedolion. Eleni byddwn yn cyflwyno arweiniad a hyfforddiant proffesiynol ar ein cyfraith sy'n rhoi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol.

Byddwn yn parhau i gyflwyno'r Cynllun Codi Ymwybyddiaeth, yn benodol i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant yn y sector cyhoeddus ehangach.

**Dysgu proffesiynol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda chonsortia addysg a phartneriaethau rhanbarthol, a gweithwyr cyfranogi awdurdodau lleol, gyda chymorth Comisiynydd Plant Cymru ac Anabledd Cymru, i greu pecyn dysgu proffesiynol ar-lein ar CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA).

Mae'r adnodd dysgu proffesiynol cenedlaethol hwn yn helpu ymarferwyr, penaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o CCUHP a CCUHPA. Roedd angen cynnig dysgu proffesiynol cyson i helpu ysgolion i fodloni gofynion Adran 64 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Darparwyd y ddau fodiwl cyntaf yn ystod tymor yr haf 2023 drwy Hwb, llwyfan dysgu ar-lein Llywodraeth Cymru.

Mae Modiwl 1 yn rhoi cyflwyniad cyffredinol i hawliau dynol plant, gan ddarparu adnodd defnyddiol i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus i ehangu eu dealltwriaeth o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, CCUHP a CCUHPA, a sut maent yn cysylltu gyda'i gilydd a gydag ymarfer.

Mae Modiwl 2 yn cynnig archwiliad manylach o sut y gall penaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ymgorffori CCUHP a CCUHPA yn eu cwricwla newydd.

Mae trydydd modiwl yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn helpu ymarferwyr i ddeall ffyrdd o gynllunio, dylunio ac adolygu cwricwlwm eu hysgol mewn perthynas â CCUHP a CCUPHA, drwy ddarparu enghreifftiau ymarferol o astudiaethau achos. Bydd y modiwl newydd yn cael ei gyhoeddi yn nes ymlaen eleni.

Mae ein cyllid i Plant yng Nghymru yn cynnwys datblygu a darparu hyfforddiant ar gyfranogiad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r sesiynau'n canolbwyntio ar gyfranogiad yn y blynyddoedd cynnar gyda phlant, a gweithio gyda phobl ifanc.

Rydym yn cydnabod bod angen i swyddogion Llywodraeth Cymru gael mynediad at gorff cadarn o wybodaeth am hawliau plant i'w galluogi i roi cyngor cynhwysfawr i Weinidogion Cymru ac i gyflawni ein dyletswydd sylw dyledus. Rydym yn darparu canllawiau a hyfforddiant ar hawliau plant ac Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant; cymorth un-i-un i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, a mynediad at arbenigwyr hawliau plant drwy ein Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant.

Cafodd y fframwaith NYTH ei gydgynhyrchu gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc, i greu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant. Mae gan y fframwaith ddull seiliedig ar hawliau plant fel un o'i werthoedd sylfaenol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydgynhyrchu hyfforddiant hawliau plant a NYTH gyda swyddfa'r Comisiynydd Plant, ymarferwyr a phobl ifanc. Mae'r hyfforddiant ar-lein hwn ar ffurf dau fodiwl 30 munud. Mae'r hyfforddiant yn rhoi cyflwyniad i CCUHP, cyflawni dyletswyddau, ac egwyddorion NYTH. Bydd yn cael ei hyrwyddo drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Bydd y cynnydd a wneir o ran gweithredu dull seiliedig ar hawliau mewn gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant yn cael ei olrhain mewn adroddiadau blynyddol NYTH.

## Cydweithredu rhyngwladol

**Rhaglen Cymru ac Affrica**

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw Datblygu Rhyngwladol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru, drwy raglen Cymru ac Affrica a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac addysg gynradd am ddim i bawb.

Mae rhaglen Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru wedi darparu nifer o grantiau i gefnogi'r rheini sydd mewn addysg yn Affrica Is-Sahara ac Uganda. Yn benodol mae wedi darparu cyfleusterau dŵr, glanweithdra a hylendid mewn ysgolion a helpu merched ysgol i fynd yn ôl i fyd addysg lle mae cyfraddau uchel o absenoldeb ymysg merched. Cyflawnwyd hyn drwy gefnogi addysg ar dabŵs a hylendid mislif, ac ar hawliau iechyd rhywiol ac atgenhedlol.

## Mynediad at gyfiawnder ac atebion

Mae Cymorth Cyfreithiol wedi'i gadw'n ôl gan Lywodraeth y DU, sy'n gyfrifol am y rheolau ynghylch cymhwysedd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol ac am gyllid achos eithriadol.

**Addysg**

O dan Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002, rhaid i Gyrff Llywodraethu ysgolion sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â phob cwyn sy'n ymwneud â'r ysgol neu â darparu cyfleusterau neu wasanaethau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau i gyrff llywodraethu ar sut i ddelio â chwynion. Rydym hefyd wedi creu Polisi Enghreifftiol i ysgolion ei ddefnyddio os ydynt yn dymuno wrth lunio eu gweithdrefnau eu hunain, yn ogystal ag adnoddau i'w cynorthwyo gan gynnwys taflenni enghreifftiol i ysgolion, canllaw i weithio gyda'r gyfraith a ffurflen gwyno enghreifftiol.

Mae angen i bob dysgwr fod yn ymwybodol o'i hawl i gwyno os yw'n anfodlon neu'n anhapus. Yn y taflenni enghreifftiol i ysgolion rydym yn darparu testun a awgrymir i'w ddefnyddio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r broses gwyno.

Mae 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' yn amlinellu canllawiau ar gyfer lleoliadau addysg ac awdurdodau lleol i atal ac ymateb i fwlio ac aflonyddu. Mae hyn yn cynnwys mecanweithiau adrodd. Mae'r gyfres hefyd yn cynnwys canllawiau cynghori i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr er mwyn helpu'r rhai y mae bwlio'n effeithio arnynt.

Byddwn yn diweddaru 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' a'r canllawiau cysylltiedig i gryfhau dulliau o atal ac ymateb i fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn.

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar hiliaeth mewn ysgolion uwchradd.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gosod dyletswydd ar ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol i helpu plant a phobl ifanc i gyfrannu at y gwaith o gynllunio anghenion dysgu ychwanegol. Rhaid helpu plant a phobl ifanc i ddeall a chymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, rhoi sicrwydd a gwybodaeth briodol iddynt, a chynnig cyfleoedd iddynt fynegi pryderon, cael atebion i'w cwestiynau ac, os oes angen, apelio. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut i'w cefnogi yn ystod y broses hon.

**Gwasanaethau cymdeithasol plant – maethu**

O dan Reoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018, rhaid i bob gwasanaeth maethu awdurdod lleol yng

Nghymru roi trefniadau ar waith i sicrhau bod plant yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat priodol, i wneud a chymryd rhan mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd am eu gofal a'u cymorth.

Mae awdurdodau lleol yn cynhyrchu Canllawiau Maethu i Blant, sy'n cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u rhannu â phlant pan fyddant yn dechrau derbyn gofal. Mae'r canllaw yn cynnwys polisi cwynion yr awdurdod lleol a fydd yn darparu gwybodaeth am sut i gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru pe bai angen rhagor o annibyniaeth.

Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol hefyd yn cwrdd â'r plentyn cyn ei Adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal i drafod ei farn am y lleoliad a'i Gynllun Gofal. Mae hyn yn rhoi cyfle arall i'r plentyn drafod os oes ganddo bryderon neu gwynion gyda gweithiwr proffesiynol annibynnol sydd â'r rôl o sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu. Yn ogystal, drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd eiriolwr annibynnol yn cael ei ddyrannu i bob plentyn. Bydd y plentyn yn gallu rhannu ei safbwyntiau âr eiriolwr hwn, a fydd yn ei helpu i fynegi ei farn yn ystod gweithdrefn gwyno.

**Iechyd**

Yn ddiweddar, rydym wedi ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r Broses Gweithio i Wella. Mae'r ymatebion yn cael eu hystyried. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol i ystyried CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu polisi, felly rydym yn ceisio safbwyntiau ar sut i adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc yn well yn y broses Gweithio i Wella.

Llais yw'r corff cenedlaethol, annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Hawliau Plant a Meic

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno proses gwyno i blant a phobl ifanc ym mis Tachwedd 2021. Cynhyrchwyd taflen gwyno i blant i'w helpu drwy'r broses hon. Gallant gwyno drwy ddefnyddio ffurflen ar-lein, dros e-bost neu dros y ffôn.

Rydym yn darparu cyllid blynyddol i Meic Cymru, sef llinell gymorth Eiriolaeth a Chyngor i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae Meic hefyd ar gael i roi cyngor a gwybodaeth i blant a phobl ifanc.



# Diffiniad o'r plentyn (erthygl 1)

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru'n rhoi sylw dyledus i Erthyglau CCUHP a'i brotocolau dewisol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau. Mae'r mesur yn gwreiddio ystyriaeth o hawliau plant yng nghyfraith Cymru ac yn diffinio plentyn fel rhywun nad yw wedi cyrraedd 18 oed.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, deddfwriaeth Llywodraeth y DU, yn nodi ei bod yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd oedran, sef un o'r naw nodwedd warchodedig.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 i 2028. Bwriad y Cynllun hwn yw ei gwneud hi'n bosibl cael dull clir a chydlynol o ddatblygu a darparu polisi ac ymyriadau, a gwella'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar draws y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n cynnwys Oedran.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu bresennol i adolygu'r holl ddeddfwriaeth sy'n seiliedig ar oedran.



# Egwyddorion cyffredinol (erthyglau 2-3, 6 a 12)

**Peidio â gwahaniaethu**

**Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi dynodi ei argymhellion ar gyfer peidio â gwahaniaethu fel maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu gan y Wladwriaeth sy'n Barti. Ar gyfer pob maes blaenoriaeth dynodedig, rydym wedi hwyluso trafodaethau traws-sector ar ein dull gweithredu yng Nghymru, sydd wedi cyfrannu at ein hymateb.**

**Cydraddoldeb**

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yn nodi wyth nod hirdymor, pob un yn cynnwys amcan cydraddoldeb, ac mae nifer ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r argymhellion yn yr arsylwadau terfynol, gan gynnwys y nod o *ddileu gwahaniaethu, erlid, cam-drin, aflonyddu, troseddau casineb a bwlio yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig*, gydag ymrwymiad i wneud popeth y gallwn ei wneud i helpu i atal gwahaniaethu, erlid, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb a/neu fwlio yn erbyn pobl oherwydd bod ganddynt un neu fwy o nodweddion gwarchodedig. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol ar gyfer y pedair blynedd nesaf i 2028, gyda'r ymrwymiad parhaus i ddileu gwahaniaethu.

Cafodd y Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru ei lansio ym mis Mawrth 2020 a dyma oedd y cyntaf o gynlluniau cydraddoldeb nodweddion gwarchodedig unigol Llywodraeth Cymru. Roedd yn nodi cam cyntaf y gwaith i gyflawni'r argymhellion yn yr adroddiad a'r Map Llwybr Gwneud nid Dweud, ac mae'n gynllun tymor hir ar gyfer newid. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu tymor canolig i Lywodraeth Cymru eu cymryd ar draws meysydd polisi gan gynnwys iechyd, addysg a sgiliau, tlodi a diwygio lles, cyflogaeth, gofal plant, trafnidiaeth a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae gwaith yn yr holl feysydd hyn yn parhau.

Cafodd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ei lansio ar 7 Mehefin 2022. Mae'n seiliedig ar werthoedd gwrth-hiliaeth ac yn galw am ddim goddefgarwch o ran pob anghydraddoldeb hiliol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu ac ariannu'r holl ymrwymiadau a nodir yn y cynllun yn ein Rhaglen Lywodraethu. Fe wnaethom gyhoeddi adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gymru Wrth-hiliol ym mis Rhagfyr 2023, sy'n edrych ar flwyddyn gyntaf y Cynllun ac yn nodi'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud hyd yma. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ein hymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch y cynnydd o ran mynd i'r afael â hiliaeth systemig, sefydliadol a strwythurol.

Nid yw gwahaniaethu ac anfanteision yn seiliedig ar un hunaniaeth yn unig. Maent yn deillio o effaith gronnol anfantais fel oedran, rhyw, statws economaidd-gymdeithasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a chenedligrwydd. Felly, mae pwysigrwydd croestoriadedd wedi bod yn hanfodol wrth lunio'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac wrth weithredu ei nodau a'i gamau gweithredu ar draws yr holl feysydd polisi sy'n cael sylw yn y cynllun.

Bydd Fforymau Rhanbarthol y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn hwyluso'r ddealltwriaeth o brofiad bywyd ac yn sefydlu ymgysylltiad uniongyrchol â phobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, gan gynnwys pobl ifanc, ledled Cymru.

Bydd fersiwn nesaf y Cynllun ar ffurf 'adnewyddu ac ymestyn'. Bydd y fersiwn nesaf yn cwmpasu 2024 i 2026. Mae'r ffocws ar fireinio nodau a chamau gweithredu presennol ar draws meysydd polisi i gryfhau'r gwaith gweithredu a mesur. Bydd y Grŵp Atebolrwydd Allanol yn cymeradwyo'r cynllun diwygiedig.

Mae amrywiaeth yn thema drawsbynciol yn y Cwricwlwm newydd i Gymru, a gafodd ei gyflwyno gennym ym mis Medi 2022. Mae'n orfodol addysgu hanes, cyfraniadau a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, gan gynnwys rhai cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, fel rhan o hanes Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â lleihau bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn, gwahaniaethu a hiliaeth a brofir gan ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn yr ysgol.

Mae'r Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Leiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ariannu gwasanaethau cymorth addysgol lleol, gyda chyllid yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i hyrwyddo a sicrhau cynhwysiant, ac integreiddio dysgwyr mewn addysg, tegwch addysg a chyfleoedd drwy gael gwared ar rwystrau rhag cael mynediad at y cwricwlwm a gwella presenoldeb mewn ysgolion, yn ogystal ag ymgysylltu â dysgwyr, eu teuluoedd a'u cymunedau

### Bwlio

Mae herio bwlio mewn ysgolion yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu llawn botensial. Mae gan bob person ifanc hawl i addysg ac i gael ei drin yn gyfartal. Yn 2019, fe wnaethom gyhoeddi ein canllawiau gwrth-fwlio statudol, Hawliau, Parch, Cydraddoldeb. Mae hyn yn nodi ein disgwyliad bod bwlio a hiliaeth sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cael sylw gan bob ysgol a lleoliad addysg mewn strategaeth atal sy'n ystyried anghenion pob dysgwr â nodweddion gwarchodedig yn benodol. Rydym yn diweddaru'r canllawiau hyn i gyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol i gryfhau dulliau o atal ac ymateb i fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn.

### Cenedl Noddfa

Mae Cenedl Noddfa – ein Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yn nodi dulliau trawslywodraethol o gefnogi cynhwysiant cadarnhaol i blant a phobl ifanc er mwyn iddynt gael cyfleoedd i ddysgu, ffynnu a chyfrannu at fywyd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Un o ymrwymiadau allweddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yw parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, gyda chyllid yn cael ei ddarparu i TGP Cymru i gefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches fel rhan o Wasanaeth Noddfa Cymru. Mae Cenedl Noddfa yn un o nodau'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

### Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a brofir gan blant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Un o'n nodau yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yw, "Er mwyn cydnabod bod angen llety diogel a diwylliannol briodol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o'u bywydau, byddwn yn ymdrin â'r prinder safleoedd a'r llety o ansawdd gwael sydd ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru." Mae camau gweithredu penodol o dan y nod hwnnw sy'n canolbwyntio ar hyfforddi, codi ymwybyddiaeth a gwella amodau byw sy'n cefnogi ffyrdd o fyw nomadaidd mewn ffordd ddiwylliannol briodol.

Byddwn yn comisiynu cynllun hyfforddi cenedlaethol ar gyfer timau opsiynau tai awdurdodau lleol Cymru, a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, i wella'r dull a ddefnyddir a'r cymorth a gynigir i'r aelodau o'r gymuned sy'n ceisio cymorth ar gyfer digartrefedd a materion llety drwy greu "hyrwyddwyr" neu "arweinwyr" Sipsiwn a Theithwyr ym mhob awdurdod lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r prosiect Teithio Ymlaen yn TGP Cymru i ddarparu cyngor a chymorth eiriolaeth i deuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r prosiect Teithio Ymlaen yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar fywyd pobl drwy helpu aelodau o'r gymuned i sicrhau diogelwch llety, i gael mynediad at wasanaethau a budd-daliadau, ac i ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a gwasanaethau cyhoeddus.

Yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae gennym nod i "Leihau'r profiad negyddol o hiliaeth ymhlith dysgwyr o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr o ganlyniad i brofiad negyddol yn yr ysgol." Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Dathlu a chyfranogi: canllawiau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Y nod yw helpu athrawon, ymarferwyr ac uwch arweinwyr i sicrhau bod dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael mynediad at addysg, yn datblygu eu talentau a'u sgiliau'n llawn, ac yn gwireddu eu llawn botensial.

Byddwn yn darparu cymorth dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig Awdurdodau Lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Byddwn yn sicrhau y bydd y cymorth yn mynd y tu hwnt i godi ymwybyddiaeth ac y bydd yn cynnwys elfennau gwrth-hiliaeth.

**Plant anabl**

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i gefnogi holl bobl anabl Cymru. Bydd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, a oedd yn cynnwys gweithgor Plant a Phobl Ifanc, yn cyfrannu at ddealltwriaeth gyffredinol o sut i gael gwared ar rwystrau ac yn nodi camau y gellir eu cymryd i wella canlyniadau i blant ac oedolion anabl y bydd Llywodraeth Cymru, gwasanaethau cyhoeddus ehangach a phobl anabl yn gweithio gyda'i gilydd i'w cyflawni. Byddwn yn sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc ac yn cynnwys eu lleisiau yn yr argymhellion allweddol.

**Plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal**

Mae Llywodraeth Cymru yn deall y stigma y gall plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal (plant mewn gofal amgen) ei deimlo yn eu bywyd o ddydd i ddydd. Ym mis Rhagfyr 2022, cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd Profiad o Ofal gyntaf yng Nghymru rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru a phlant a phobl ifanc mewn gofal amgen. Un o ganlyniadau allweddol yr uwchgynhadledd oedd datganiad, a lofnodwyd gan Brif Weinidog Cymru ar y pryd a chynrychiolwyr y plant a'r bobl ifanc, sy'n cynnwys gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ail uwchgynhadledd ar 2 Mawrth 2024 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i blant a phobl ifanc am y cynnydd.

Yng Nghymru, mae gan blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yr un hawliau â phlant sy'n derbyn gofal ac sydd wedi'u geni yng Nghymru a'r DU, waeth beth fo'u statws mewnfudo. Maent wedi'u cynnwys mewn unrhyw bolisi i roi cymorth i blant sy'n derbyn gofal

**Plant rhieni sydd yn y carchar**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod plant sy'n cael eu heffeithio gan garchariad rhiant yn aml yn gofyn am gymorth penodol i'w helpu i ddelio â'r broses. Gall plant deimlo'n ynysig ac â chywilydd, sy'n gallu cael effaith ddinistriol ar eu hiechyd cyffredinol, eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i leihau aildroseddu ac i helpu teuluoedd i adeiladu cymunedau cryf a chadarn yng Nghymru. Mae'r gwaith yn y maes hwn yn cael ei arwain gan Grŵp Cyswllt Teulu Cymru, sy'n dwyn ynghyd arweinwyr o bob rhan o'r system gyfiawnder yng Nghymru, fel 'siop un stop' i rannu'r arferion gorau a gwybodaeth ar draws asiantaethau i roi cymorth i deuluoedd a phobl eraill sy'n bwysig i unigolion sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r Gwasanaeth Ymweld â Mam, sy'n cael ei redeg gan yr Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) ac a sefydlwyd yng Ngharchar EF Eastwood Park a Charchar EF Styal, yn hanfodol i helpu i baratoi'r ffordd i famau o Gymru gynnal perthynas gadarnhaol â'u plant drwy gydol eu dedfryd yn y carchar.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddiffinio rhagor o weithgarwch a fydd yn adeiladu ar y cyflawniadau a wnaed drwy'r Glasbrint Cyfiawnder Menywod, gan roi dargyfeirio ac ymyrraeth gynnar wrth galon y dull gweithredu ar gyfer cyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys cymorth parhaus ar gyfer gwasanaeth Ymweld â Mam a Dull Braenaru System Gyfan Cymru sy'n darparu pecyn cymorth pwrpasol i fenywod sydd mewn perygl o ymuno â'r system cyfiawnder troseddol neu sy'n gysylltiedig â'r system

**LHDTC+**

Mae Llywodraeth Cymru'n dal wedi ymrwymo i sicrhau mai Cymru yw'r wlad fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+. Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu LHDTC+ cadarn a thrawsbynciol i gryfhau'r mesurau diogelu ar gyfer pobl LHDTC+, i hybu cydraddoldeb i bawb, ac i helpu i gydlynu camau gweithredu ar draws y llywodraeth a thu hwnt. Mae'r Cynllun yn gweithredu fel y fframwaith ar gyfer datblygu polisi LHDTC+ ar draws y llywodraeth a gyda phartneriaid Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi'r camau pendant y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau cydraddoldeb ar gyfer pobl LHDTC+, gan gynnwys pobl ifanc. Ers ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2023, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ei hymdrechion ar roi'r cynllun ar waith. Rydym wedi creu Adnodd Olrhain ar gyfer y Cynllun Gweithredu LHDTC+ sy'n caniatáu i randdeiliaid sydd â diddordeb fonitro'r diweddariadau a'r cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu a gweithgaredd yn y Cynllun.

**Urddas Mislif**

Mae'r Grant Urddas Mislif yn ariannu cynnyrch mislif am ddim mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol. Nod y cyllid hwn oedd sicrhau,

yn ogystal â sicrhau bod cynnyrch ym mhob ysgol a choleg yng Nghymru, bod cynnyrch ar gael yn eang ar draws amrywiaeth o leoliadau cymunedol. Mae'r grant urddas mislif wedi cael ei werthuso yn ddiweddar ac mae swyddogion wrthi'n ystyried yr argymhellion.

Fe wnaethom gyhoeddi'r cynllun gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif ym mis Chwefror 2023. Mae'r Cynllun yn nodi ein dull o sicrhau urddas mislif yng Nghymru. Mae'n amlinellu cyfres o gamau gweithredu eang, cyfannol, croestoriadol a'i nod yw mynd i'r afael â thlodi mislif, a sicrhau urddas mislif yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi arian i awdurdodau lleol ddarparu cynhyrchion mislif am ddim mewn ysgolion a chymunedau. Darperir cyllid hefyd i golegau Addysg Bellach at yr un diben. Mae gwaith trawslywodraethol sylweddol hefyd yn cael ei wneud ar addysg ac iechyd, yn ogystal â chydweithrediad ar adnodd gwe'r GIG, Mislif Fi.

**Troseddau Casineb**

Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i asesu lefel y cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n profi troseddau casineb. Roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, yn nodi nifer o fylchau yn y ddarpariaeth ledled Cymru. Roedd ail adroddiad, "Mae'n torri calon" – Sgyrsiau â phlant a phobl ifanc y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt yng Nghymru yn cynnwys sgyrsiau â phlant a phobl ifanc y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt yng Nghymru, sydd hefyd yn tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth.

Ar sail y canfyddiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Canolfan Cymorth Casineb Cymru ers mis Ebrill 2022 i ddarparu gwasanaeth cymorth wedi'i deilwra ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae rhan o'r contract hwn yn cynnwys darparu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu i annog plant a phobl ifanc i roi gwybod am droseddau casineb. Byddwn yn parhau i werthuso a mireinio'r gwasanaeth plant

a phobl ifanc tan ddiwedd y contract yn 2025, wedi'i lywio gan adborth gan Fforwm Eiriolaeth Profiad Bywyd Canolfan Cymorth Casineb Cymru, sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a phobl â phrofiad bywyd o droseddau casineb.

Nod ymgyrch Llywodraeth Cymru yn erbyn troseddau casineb, Mae Casineb yn Brifo Cymru, yw annog dioddefwyr a gwylwyr i roi gwybod am droseddau casineb, a magu hyder drwy dynnu sylw at y canlyniadau cadarnhaol sy'n gallu deillio o roi gwybod am drosedd casineb a'r cymorth sydd ar gael.

## Lles pennaf y plentyn

Mae'r egwyddor o weithredu er lles pennaf y plentyn wedi'i gwreiddio ar draws amrywiaeth o bolisïau Llywodraeth Cymru, ee diogelu, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau plant.

Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio proses Asesiad Effaith Integredig i gynnal asesiad cyflawn o effaith penderfyniadau arfaethedig, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn rhan allweddol o'r Asesiad Effaith Integredig. Mae disgwyl i swyddogion Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd sylw dyledus.

Fe wnaethom ddiwygio ein Cynllun Hawliau Plant yn 2021 a chynnwys templed diwygiedig o Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a llawlyfr ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru i gefnogi'r egwyddor o wreiddio hawliau plant mewn polisi.

### Cyfiawnder Ieuenctid

Mae Glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, gan ddefnyddio dull hawliau 'rhoi plant yn gyntaf'. Mae hyn yn golygu gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach na'r gwasanaeth, gan ddiwallu anghenion unigol plant yn y system gyfiawnder neu blant sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system. Mae'r dull system gyfan yn ystyried erthyglau perthnasol CCUHP wrth gynllunio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Mae'n nodi'r uchelgais ar gyfer system sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n ystyriol o drawma a fydd yn helpu gwasanaethau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant yng Nghymru.

Ers mis Hydref 2023, rydym wedi canolbwyntio'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ar dri maes blaenoriaeth: atal, dargyfeirio cyn mynd i'r llys, a'r ddalfa. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi Fframwaith Atal, a fydd am y tro cyntaf yn creu un darlun o'r hyn sy'n gweithio i atal troseddu a sut gall gwaith Llywodraeth Cymru helpu plant sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder i fyw bywyd boddhaus, di-drosedd.

### Lleoliad mewn gofal amgen

Mae ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru yn glir – rydym am weld mwy o blant yn cael cymorth i aros gyda'u teuluoedd gyda llai o blant a phobl ifanc yn mynd i ofal. Rydym am i bobl ifanc dreulio cyn lleied o amser â phosibl mewn gofal, a bod hynny'n cyd-fynd â'r gwaith o ddiwallu anghenion y person ifanc. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â Rhaglen Drawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yng Nghymru sy'n seiliedig ar wyth ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, lle mae llais a lles pennaf plant a phobl ifanc wrth galon popeth a wnawn.

### Trais Domestig

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd statudol ar bob gweithiwr proffesiynol yn y sectorau cyhoeddus ac arbenigol ledled Cymru i gael eu hyfforddi mewn materion VAWDASV. Mae canllawiau ar y ddyletswydd hon yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol.

Cafodd y strategaeth genedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ei chyhoeddi ym mis Mai 2022. Amcan 2 y strategaeth genedlaethol yw codi ymwybyddiaeth ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach, a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol, ac mae ffrwd waith Plant a

Phobl Ifanc wedi cael ei sefydlu fel rhan o ddull y Glasbrint ar gyfer cyflawni yn erbyn amcanion y Strategaeth. Cafodd diweddariad cynnydd ei gyhoeddi ym mis Hydref 2023.

Rydym hefyd wedi creu canllaw ymarfer ar Ddiogelu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt ar ap a gwefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gweithredu ar Aflonyddu Rhywiol rhwng Cyfoedion

### Masnachu

Mae masnachu mewn plant yn rhan o faes polisi wedi'i gadw'n ôl ac mae'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid aml-asiantaeth i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn plant. Mae hyn yn cynnwys llunio Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu plant a all fod wedi'u masnachu. Mae'r canllawiau ymarfer yn nodi'n glir y dylai'r trefniadau diogelu ym mhob ardal awdurdod lleol fod yn seiliedig ar ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn, lle dylai lles pennaf y plentyn fod yn hollbwysig bob amser.

Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda phartneriaid aml-asiantaeth i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn plant.

Bydd hyn yn cynnwys cydweithio parhaus drwy Fforwm Gwrthgaethwasiaeth Cymru a'i weithgorau thematig.

### Cenedl Noddfa

Mae ein gwaith i roi cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn dilyn egwyddorion sydd wedi ennill eu plwyf, gan gynnwys mabwysiadu dull hawliau dynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yng nghyd-destun plant, mae lles pennaf plant yn hollbwysig pan fyddwn yn datblygu polisi.

Pan fydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno polisïau newydd, rydym yn ystyried lles pennaf plant ac yn eirioli dros newidiadau yn unol â hynny. Yn ystod y gwaith o ddatblygu deddfwriaeth ddiweddar y DU (Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 a Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023), fe wnaethom gynghori Senedd Cymru i wrthod rhoi cydsyniad i Senedd y DU basio deddfwriaeth oherwydd roeddem yn credu bod y cynigion yn mynd yn groes i les pennaf plant.

Mae Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol Llywodraeth y DU yn swyddogaeth heb ei datganoli sy'n rhoi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches mewn gofal awdurdod lleol ledled y DU ar sail rota. Gan weithio ochr yn ochr â Phartneriaeth Mudo Strategol Cymru, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi adborth i'r Swyddfa Gartref ar weithredu'r Cynllun, er lles pennaf pobl ifanc, fel y nodir ym Mhrotocol y Cynllun.

Mae Llywodraeth y DU wedi lansio adolygiad o'r Cynllun a byddwn yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'n partneriaid yn y sector statudol a'r trydydd sector, yn cyfrannu at hyn er mwyn i ni allu parhau i gynrychioli lles pennaf plant sy'n cael eu rhoi yng ngofal awdurdodau lleol Cymru.

## Yr hawl i fywyd, i oroesi ac i ddatblygu

### Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn canolbwyntio'n benodol ar fabwysiadu dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma drwy gydol gwahanol gamau'r system cyfiawnder ieuenctid, o atal ac ymyrryd yn gynnar i adsefydlu o'r ddalfa, gan gydnabod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ymateb iddynt.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i archwilio a mynd i'r afael â'r broblem hirsefydlog o blant yn cael eu cadw yn nalfa'r heddlu dros nos. Ym mis Ionawr 2024, cynhaliwyd digwyddiad bwrdd crwn Plant yn Nalfa'r Heddlu lle cafodd gwybodaeth am yr heriau a'r rhwystrau yn y maes hwn ei rhannu. Mae Llywodraeth Cymru, yr Heddlu ac Awdurdodau Lleol yn parhau i weithio gyda'i gilydd i atal plant rhag cael eu cadw yn y ddalfa yn amhriodol.

Roedd y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ar ei newydd wedd yn ymrwymo Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r newydd i archwilio opsiynau i bob plentyn sy'n byw yng Nghymru gael ei roi mewn llety diogel yng Nghymru, ac yn agos i'w cymunedau. Ar ben hynny, yn 2021 cytunodd Gweinidogion Cymru ar wyth egwyddor i ddarparu gwasanaethau cyson i holl blant Cymru yn yr ystad ddiogel, ac rydym wedi ymrwymo i gydweithio â phartneriaid i sicrhau hyn.

**Atal Hunanladdiad**

Byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed newydd i Gymru. Mae'r strategaeth ddrafft yn canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc o ran atal hunan-niweidio yn benodol, ac roedd y strategaeth ddrafft wedi'i llywio gan drafodaethau â phlant a phobl ifanc. Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi ein hymrwymiad i leihau nifer a chyfraddau'r marwolaethau oherwydd hunanladdiad sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hefyd yn ceisio sefydlu llwybr i roi cymorth i bobl sy'n hunan-niweidio ac i wella'r cymorth i bobl sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad.

## Parchu barn y plentyn

### Cefnogi cyfranogiad

Mae sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn gyfrifoldeb a rennir yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru, y trydydd sector plant, ein Hawdurdodau Lleol, y Senedd Ieuenctid a'r Comisiynydd Plant i gyd yn gwneud cyfraniad hanfodol. Gyda'n gilydd, rydym yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed a bod eu barn a'u profiadau yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o lunio polisïau a gwasanaethau.

Mae tystiolaeth o gyfranogiad yn ein Hasesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant a gall amrywio o drafodaethau un-tro i gydgynhyrchu yn y tymor hirach. Mae ein Hadroddiad Cydymffurfio â Hawliau Plant yn rhoi enghreifftiau o gyfranogiad ar gyfer ein cylch adrodd diwethaf.

Rydym yn cynhyrchu deunyddiau sy'n briodol i oedran ar draws ystod eang o feysydd polisi i gynorthwyo cyfranogiad. Pan fydd fersiynau plant o ymgynghoriad neu ddogfennau polisi terfynol yn cael eu cynhyrchu, bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, ochr yn ochr â fersiynau eraill.

Drwy ein cyllid grant i Plant yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Cymru Ifanc, model cyfranogi cadarn i ystyried barn plant a phobl ifanc yn ystyrlon yn ein proses o wneud penderfyniadau a llunio polisïau.

Mae Cymru Ifanc wedi recriwtio dros 175 o blant a phobl ifanc i'w Fforwm Cenedlaethol, ac wedi cynnwys dros 2,000 o blant a phobl ifanc mewn ymgyngoriadau sy'n ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru. Mae gan Cymru Ifanc wyth bwrdd cynghori i gynrychioli buddiannau amrywiol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r byrddau'n gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i lywio meysydd polisi ac ymrwymiadau allweddol y llywodraeth.

Mae gan y byrddau cynghori gynrychiolaeth amrywiol, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n ofalwyr ifanc, y rheini ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, pobl LHDTC+, pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth na hyfforddiant, y rheini sydd mewn perygl o gael eu niweidio ar-lein, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a'r rheini â phrofiad bywyd mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant. Rydym yn casglu ac yn monitro data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gwirfoddolwyr i sicrhau bod model Cymru Ifanc yn gynrychioliadol, ac yn llywio gwaith recriwtio pellach wedi'i dargedu.

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen cymorth ac adnoddau ychwanegol ar rai plant a phobl ifanc er mwyn gallu cymryd rhan. Rydym yn darparu cyllid i Plant yng Nghymru i ymgymryd â gwaith ymgynghori penodol lle mae angen darpariaeth wedi'i thargedu, er enghraifft mewn lleoliad penodol (mewn ysgolion), gyda grŵp oedran penodol (plant iau) neu gyda demograffeg benodol o bobl ifanc (pobl draws ac anneuaidd).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Plant yng Nghymru i weithredu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol, y Cynllun Nod Barcud cysylltiedig a Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru. Y nod yw cefnogi a galluogi Cymru lle mae hawliau plant yn hawl sylfaenol, gan wreiddio hawliau a llesiant plant mewn polisi ac ymarfer ar draws y sector plant cyhoeddus yng Nghymru i rymuso pob plentyn a pherson ifanc i arfer ei hawliau.

Mae'r Safonau Cyfranogiad a'r Nod Barcud yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

**Dyletswyddau ar awdurdodau lleol**

O dan adran 12 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hybu a hwyluso cyfranogiad plant mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt, a sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael yn gyhoeddus.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA).

Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau am eu hanghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn rhan hanfodol o'r dull seiliedig ar hawliau a nodir yn adran 6 y Ddeddf.

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn nodi dull sy'n seiliedig ar hawliau fel un o brif egwyddorion sylfaenol y system ADY. Mae'n nodi sut mae'r Cod yn cael ei lywio gan CCUHP a CCUHPA, ac yn cyfeirio at egwyddorion y Ffordd Gywir, dull gweithredu'r Comisiynydd Plant.

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn nodi dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a CCUHPA, a dyletswydd i ystyried iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cyd-fynd ag Erthygl 24 CCUHP, a'r nodau addysg a nodir yn Sylwadau Cyffredinol Rhif 1.

Mae addysg hawliau dynol yn thema drawsbynciol yn y cwricwlwm yng Nghymru, ac mae egwyddorion addysg hawliau dynol, sy'n seiliedig ar CCUHP a CCUHPA, yn rhan o'r gofynion ehangach y mae'n rhaid i leoliadau eu hystyried wrth gynllunio eu cwricwlwm.

Mae canllawiau'r cwricwlwm yn nodi bod yn rhaid i ddysgwyr gymryd rhan yn y gwaith o ddylunio'r cwricwlwm yn eu lleoliad.

**Senedd Ieuenctid**

Ym mis Hydref 2016, pleidleisiodd Aelodau'r Senedd dros sefydlu Senedd Ieuenctid ar gyfer Cymru. Roedd y Senedd wedi ymgynghori â dros 5,000 o bobl ifanc ledled Cymru i helpu i benderfynu ar nodau, aelodaeth a gwaith Senedd Ieuenctid Cymru.

Cafodd Senedd Ieuenctid Gyntaf Cymru ei hethol ym mis Rhagfyr 2018. Mae'n tynnu sylw at faterion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc ledled Cymru ac yn eu trafod, gan weithio gydag Aelodau o'r Senedd i newid pethau.

**Comisiynydd Plant Cymru**

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru ymarfer gwrando helaeth, gan drafod â dros 10,000 o blant, rhieni a gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol i ddeall beth sydd bwysicaf i blant Cymru a pha feysydd gwaith y dylid eu blaenoriaethu. Roedd hyn yn sail i ddatblygu ei strategaeth tair blynedd 'Gwella Bywyd i Blant yng Nghymru' a fydd yn rhedeg tan 2026. Un o'r pedwar diben a nodwyd yw bod 'Yma i bob plentyn', gan addo 'gwrando a gwneud yn siŵr ein bod ni'n hygyrch i bob plentyn yng Nghymru, er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu codi llais yn effeithiol ar eu rhan a'u cynrychioli yn y ffordd sy'n cael yr effaith fwyaf'.

Mae tîm cyfranogi'r Comisiynydd yn gwneud gwaith ledled Cymru, gan wrando ar blant, gweithio gyda'r rhai sy'n gweithio gyda phlant, a helpu plant ac oedolion i gael gwybod mwy a deall hawliau plant. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae'r Comisiynydd yn cefnogi ysgolion a grwpiau cymunedol drwy ei chynlluniau Llysgenhadon, sef rhwydwaith o dros 700 o ysgolion a grwpiau ledled Cymru. Mae'r ysgolion cynradd, yr ysgolion uwchradd, yr ysgolion arbennig a'r grwpiau ieuenctid sy'n cymryd rhan yn y cynllun am ddim yn cael adnoddau hawliau plant, yn mynychu digwyddiadau, ac yn cael cymorth i gyflawni eu rhwymedigaethau hawliau plant o dan y cwricwlwm newydd.

Yn 2024, lansiodd y Comisiynydd ei menter 'Mater y Mis', gan fynd ar drywydd barn plant Cymru ar bynciau fel cinio ysgol, chwarae a diogelwch ar-lein. Mae'r fenter yn galluogi'r Comisiynydd i gael barn plant ar bynciau llosg a hyd yma, mae wedi cael dros 8,000 o safbwyntiau sydd wedi ymddangos mewn ymatebion i ymgyngoriadau ac wedi cael sylw amlwg yn y cyfryngau. Mae canlyniadau Mater y Mis yn cael eu rhannu ar wefan y Comisiynydd fel cipolwg gwerthfawr ar farn plant yng Nghymru.

**Hyfforddiant ar hawliau**

Rydym wedi datblygu hyfforddiant mynediad agored ar-lein ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau plant, ac o CCUHP a CCUHPA. Mae'r hyfforddiant hwn yn cyd-fynd â'r cwricwlwm a bydd yn cefnogi'r rheini sy'n darparu addysgu a dysgu i gyflawni eu dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiynau o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Rydym yn ariannu Plant yng Nghymru i ddarparu hyfforddiant cyfranogi ac i redeg Rhwydwaith Cyfranogiad Cymru Gyfan ar gyfer Awdurdodau Lleol. Mae Plant yng Nghymru wedi datblygu cyfres o adnoddau ar ein rhan, gan godi ymwybyddiaeth o beth yn benodol yw ymarfer sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer babis, babanod a phlant ifanc iawn.

**Cyfiawnder Ieuenctid**

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull hawliau 'rhoi plant yn gyntaf'. Mae hyn yn golygu gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach na'r gwasanaeth, gan ddiwallu anghenion unigol plant yn y system gyfiawnder neu blant sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system.

Mae'r dull hwn yn golygu bod yr unigolyn yn ganolog i wasanaeth ac yn cael ei drin fel person yn gyntaf. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu dull traws-sector cydweithredol, cydgynhyrchiol i nodi, deall a chefnogi anghenion y person. Mae hefyd yn hybu diogelwch seicolegol a chorfforol drwy hyrwyddo dewis, cydweithio a thryloywder.

Fe wnaethon ni wrando ar leisiau plant a phobl ifanc wrth ddatblygu'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Wrth symud ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill yn parhau i ystyried lleisiau plant a phobl ifanc yn nhair blaenoriaeth y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, sef atal, dargyfeirio cyn mynd i'r llys, a'r ddalfa.

**Fframwaith NYTH**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cydgynhyrchu'r fframwaith NYTH gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc, i greu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant. Mae gan y fframwaith ddull seiliedig ar hawliau plant fel un o'i werthoedd sylfaenol. Un o'r egwyddorion craidd yw cydgynhyrchu ac mae'r hyfforddiant a'r hunanasesiad cysylltiedig yn canolbwyntio ar bwysigrwydd Erthygl 12, a chydgynhyrchu gwasanaethau ac atebion gyda babanod, plant a phobl ifanc.

Roedd Pobl Ifanc wedi cydgynhyrchu'r fframwaith NYTH, a byddwn yn parhau i'w cynnwys wrth ei weithredu. Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol, grŵp o bobl ifanc sydd â phrofiad bywyd o faterion iechyd meddwl, yn parhau i gyfrannu at weithredu'r fframwaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydgynhyrchu offeryn hunanasesu NYTH sy'n gofyn i wasanaethau asesu sut maent yn gweithredu egwyddorion NYTH, gan gynnwys sut maent yn cydgynhyrchu eu gwasanaeth gyda phobl ifanc ac yn gwrando ar lais y babanod, y plant a'r bobl ifanc maen nhw'n gweithio gyda nhw.

Mae'r fframwaith NYTH wedi'i wreiddio fel elfen graidd o gyflawni'r Strategaeth ddrafft ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant a gafodd ei chydgynhyrchu â phlant a phobl ifanc, ac sy'n cynnwys ymrwymiad i ganolbwyntio'n barhaus ar erthyglau unigol CCUHP a'r argymhellion Adroddiad Arsylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2023.

**Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'n glir bod rhoi pobl wrth galon eu gofal a'u cymorth yn allweddol er mwyn helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Rhaid i awdurdodau lleol ac eraill sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf roi sylw i hybu a pharchu urddas unigolion – plant, oedolion a gofalwyr.

Fel rhan o'n Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol, mae hawl glir i 'gynnig gweithredol' o gymorth eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal neu sy'n destun ymholiadau amddiffyn plant. Mae'r Dull Cenedlaethol yn nodi'r disgwyliadau o ran mynediad ac argaeledd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol ac yn helpu i sicrhau cynnig a phrofiad cyson i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid blynyddol i helpu i gyflawni hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cadeirio cyfarfodydd rheolaidd y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol sy'n dod â'r rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i fonitro'r Dull Cenedlaethol, gan sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu rhoi ar waith, ac i fynd i'r afael â'r rhwystrau i arferion da wrth iddynt godi.

**Diogelu**

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cynnwys adran o'r enw Awgrymiadau Ymarfer: Cymryd Agwedd sy'n Canoli ar y Plentyn. Mae hyn wedi'i gynllunio i helpu ymarferwyr i weld a siarad â'r plentyn; dod i wybod am eu profiadau bywyd o ddydd i ddydd; a sefydlu beth fyddai'r plentyn yn hoffi ei weld yn newid yn ei fywyd o ddydd i ddydd, ond mae hefyd yn atgoffa ymarferwyr nad yw dymuniadau a theimladau'r plentyn yn drech na'r lles pennaf o ran diogelu. Mae'r holl Ganllawiau Ymarfer o dan y gweithdrefnau yn atgoffa ac yn cefnogi ymarferwyr i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

**Siarter Rhianta Corfforaethol**

Un o egwyddorion y Siarter Rhianta Corfforaethol yw 'Gyda'n gilydd', sy'n nodi "Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i sicrhau bod eu barn, eu teimladau a'u syniadau'n rhan annatod o'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r ffordd maen nhw'n derbyn y gwasanaethau hynny." Mae'r egwyddor hon yn cyd-fynd ag Erthygl 12 CCUHP.

Yng Nghymru, mae gan blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yr un hawliau â phlant sy'n derbyn gofal ac sydd wedi'u geni yng Nghymru a'r DU, waeth beth fo'u statws mewnfudo. Maent wedi'u cynnwys mewn unrhyw bolisi i roi cymorth i blant sy'n derbyn gofal.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i drafod â sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ledled Cymru i'w hannog i lofnodi'r Siarter Rhianta Corfforaethol. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio i gryfhau'r canllawiau statudol ar Rianta Corfforaethol. Cam cyntaf y gwaith hwn fydd cynnwys adran benodol ar rianta corfforaethol yng Nghod Ymarfer Rhan 6 o dan Ddeddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Yn 2021, dechreuodd Llywodraeth Cymru y broses pedair blynedd o roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru ar waith yn raddol.

Mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau yn sail i'r Ddeddf a'r Cod lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i'r gwaith o gynllunio a darparu cymorth; a bod y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y prosesau gwneud penderfyniadau ac mae ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am anghenion dysgu ychwanegol (ADY), darpariaeth ddysgu ychwanegol a materion cysylltiedig.

Mae'r Ddeddf a'r Cod yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae hyfforddiant ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael ei ddarparu i ymarferwyr, ynghyd â chanllawiau. Mae canllawiau wedi cael eu cyhoeddi ar hawliau o dan y system ADY ac mae rhaglen dysgu proffesiynol ADY wedi cael ei datblygu, sy'n cynnwys gwybodaeth am gyfathrebu â phlant, rhieni a phobl ifanc.

I gefnogi'r broses o roi'r Ddeddf a'r Cod ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r gwaith o ddarparu sesiynau rhieni a gofalwyr ar y system ADY newydd, a sefydlu rhaglen gyfranogi, Llysgenhadon ADY, i helpu i sicrhau bod llais a hawliau plant wrth wraidd gwaith cynllunio a pholisi. Dechreuodd y rhaglen hon ym mis Rhagfyr 2023 a bydd yn rhedeg tan 2026.

Dechreuodd gwerthusiad ffurfiannol pedair blynedd o'r system ADY ym mis Ionawr 2023. Bydd arolygon a gwaith maes yn cynnwys plant a phobl ifanc. Bydd yr ymchwil yn asesu gweithrediad y system ADY ac a yw'r amcanion polisi wedi cael eu cyflawni.

**Cwricwlwm i Gymru**

Roedd canllawiau statudol Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn nodi y dylai ysgolion fod yn datblygu eu cwricwlwm drwy gyd-awduro, gan gynnwys cyfranogiad dysgwyr. Mae adran 64 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar ysgolion, lleoliadau a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o CCUHP, ac o CCUHPA, ymysg y rhai sy'n darparu addysgu a dysgu.

Mae modiwlau dysgu proffesiynol ar-lein ar gael am ddim i ymarferwyr i'w helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon. Mae adnoddau Hawliau yma, hawliau nawr Anabledd Cymru wedi cael eu datblygu a'u treialu mewn ysgolion yng Nghymru, ac maent ar gael am ddim ar Hwb, y llwyfan dysgu Cymru Gyfan.

Yn ogystal â'r modiwl Hwb i godi ymwybyddiaeth o CCUHP a'r CCUHPA, i gefnogi'r cwricwlwm newydd mae modiwl ychwanegol yn cael ei ddatblygu sy'n tynnu sylw at yr arferion gorau ac adnoddau ymarferol ar gyfer gwreiddio agwedd egwyddorol at hawliau dynol plant mewn addysg.

Fel rhan o'n gwaith i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant, bydd gwaith yn cael ei wneud i sefydlu dull cyfathrebu systematig ar gyfer hybu a chodi ymwybyddiaeth o adnoddau hawliau plant, gan gynnwys dysgu proffesiynol, sy'n diwallu anghenion y sector cyhoeddus.



# Hawliau sifil a rhyddid (erthyglau 7-8 a 13-17)

## Hawl i hunaniaeth

### LHDTC+

Mae Llywodraeth Cymru'n dal wedi ymrwymo i sicrhau mai Cymru yw'r wlad fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+. Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yw'r fframwaith ar gyfer datblygu polisi LHDTC+ ar draws y llywodraeth a gyda phartneriaid Llywodraeth Cymru.

Bydd y Grŵp Cynghori ar y Cynllun Gweithredu LHDTC+, sy'n adlewyrchu'r grwpiau amrywiol o fewn cymunedau LHDTC+, yn gwneud argymhellion i Weinidogion a swyddogion polisi i lywio dull Llywodraeth Cymru o roi'r Cynllun Gweithredu ar waith

**Cefnogi Dysgwyr Traws – canllawiau i ysgolion**

Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yn cynnwys amrywiaeth o ymrwymiadau i sicrhau addysg gynhwysol LHDTC+, gan gynnwys ymrwymiad i gyhoeddi canllawiau cenedlaethol i gefnogi plant a phobl ifanc traws mewn addysg. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag arweinwyr ysgolion, ymarferwyr, dysgwyr ac amrywiaeth o randdeiliaid ehangach ar ddatblygu canllawiau.

Drwy'r cynllun Cymru Ifanc, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal sesiynau cyfranogi gyda dros 200 o blant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o ysgolion a sesiynau addysg ledled Cymru. Bydd gwybodaeth am y gwaith maes hwn a'r negeseuon allweddol sy'n cael eu rhannu gan bobl ifanc yn cael eu cyhoeddi pan fydd y canllawiau drafft yn cael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad. Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, bydd adnoddau penodol ar-lein i helpu pobl ifanc i gymryd rhan, a chyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn sesiynau gwaith maes yn benodol ar gyfer dysgwyr.

Roedd ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i chynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu cymryd rhagor o amser i ddatblygu'r canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, gan gynnwys canfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o wasanaethau hunaniaeth rhywedd ar gyfer plant a phobl ifanc (Adolygiad Cass) a barn rhanddeiliaid, gan gynnwys y dysgwyr eu hunain a rhieni.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i wahardd pob agwedd ar therapi trosi LHDTC+, ac i geisio datganoli unrhyw bwerau ychwanegol angenrheidiol. Mae gweithgor Llywodraeth Cymru ar wahardd therapi trosi wedi datblygu ddiffiniad nad yw'n gyfreithiol at ddibenion polisi ac ymgyrchoedd.

## Rhyddid mynegiant a chrefydd

### Atal

Mae gwrthderfysgaeth yn fater wedi'i gadw'n ôl ac felly Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdano. Rydym yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth CONTEST y DU (sy'n cynnwys Prevent) mewn meysydd datganoledig i gadw dinasyddion Cymru yn ddiogel yng nghyd-destun saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'r dyletswyddau a roddir ar y sector addysg yng Nghymru yn cael sylw yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. Mae'n rhaid i athrawon gyflawni hyfforddiant PREVENT ar ryw lefel. Mae Hyfforddiant Dyletswydd Prevent y Swyddfa Gartref ar gael drwy Hwb, y Llwyfan Dysgu Digidol Cenedlaethol, sy'n gartref i gasgliad cenedlaethol o adnoddau digidol i gefnogi dysgu ac addysgu yng Nghymru.

Gan fod Prevent yn un o bolisïau Llywodraeth y DU, bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio byrddau rhynglywodraethol i dynnu sylw at farn Llywodraeth Cymru ar Prevent a'r argymhelliad yn Adroddiad Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig. Fel yr amlinellir yn Diogelu Cymru, mae diogelu ac amddiffyn yn gyfrifoldeb i bawb, ac mae dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hollbwysig. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i asiantaethau weithio gyda'i gilydd i ddarparu ymateb cydgysylltiedig i faterion diogelu a dylai hawliau'r plentyn fod yn ganolog i'r dull gweithredu, a dylai eu lles pennaf fod yn hollbwysig bob amser.

### Addoli ar y Cyd

Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd yn cydbwyso hawliau rhieni a phlant yn briodol. Gall rhieni dynnu eu plant yn ôl yn gyfan gwbl neu'n rhannol o addoli ar y cyd ac nid oes rhaid rhoi rheswm dros wneud hynny.

Mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r hawl i dynnu'n ôl fel rhan o gyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn parhau i drafod ag Estyn, sydd heb godi unrhyw broblemau fel rhan o'u harolygiadau ysgol.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r ddeddfwriaeth Addoli ar y Cyd ar hyn o bryd. Byddwn yn ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad yn ofalus fel rhan o'n hadolygiadau polisi mewnol.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio'n agos gydag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, Dyneiddwyr, a Chyngor Ymgynghorol Sefydlog Cymru ar Addysg Grefyddol, ar amrywiaeth o agweddau sy'n ymwneud â darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac Addoli ar y Cyd.

### Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu

Argymhellodd y Pwyllgor nad yw plant yn cael eu bygwth am arfer eu hawl i ryddid i ymgynnull a chymdeithasu, gan gynnwys am eu cyfranogiad mewn ymgyrchu dros yr hinsawdd.

### Plismona

Mae plismona yn fater wedi'i gadw'n ôl gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, rydym wedi egluro ein hagwedd at y Ddeddf Trefn Gyhoeddus a'n hymrwymiad i hawliau democrataidd sylfaenol yn y maes hwn.

## Yr hawl i breifatrwydd

### Plismona

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda'r Heddlu drwy Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, ac Uned Gyswllt yr Heddlu sy'n gyswllt hanfodol rhwng Plismona yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r Heddlu hefyd yn bartner yn y gwaith o gyflwyno'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

Mae'r fforymau hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru godi unrhyw bryderon o ran sut mae heddluoedd yng Nghymru yn plismona'n ymarferol. Mae heddluoedd Cymru wedi cadarnhau wrthym eu bod wedi ymrwymo i ddull plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Bydd plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn

yng Nghymru – dull sy'n cael ei ddatblygu gyda phlant a phobl ifanc – yn meithrin perthynas well rhwng yr Heddlu a phlant a phobl ifanc. Wrth wneud hynny, ein nod yw atal plant a phobl ifanc rhag cael eu denu i droseddu a'r system cyfiawnder troseddol; gwella canlyniadau cyfiawnder troseddol i blant a phobl ifanc, a gwella gwasanaethau i blant sy'n dioddef troseddau a'r rhai sy'n cael eu cam-drin yn y cartref.

Mae Stopio a Chwilio yn cael sylw yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Gan weithio gyda'r heddlu a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill, rydym wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth ar gyfer Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n aelod o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, sy'n ein galluogi i graffu a hwyluso cynnydd yn erbyn y cynllun.

Gyda Phanel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, byddwn yn adolygu ystadegau sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid yn rheolaidd ac yn monitro data ar stopio a chwilio er mwyn deall a oes modd cymryd camau i wella ymarfer, a chefnogi hawliau plant yn well.

**Mynediad at wybodaeth briodol**

Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn faterion wedi'u cadw'n ôl i Lywodraeth y DU.

**Dysgu digidol**

Drwy ein Rhaglen Hwb Genedlaethol, rydym wedi helpu ysgolion a gynhelir yng Nghymru i drawsnewid a gwella eu darpariaeth ddigidol i ddysgwyr. Rydym wedi buddsoddi mewn dyfeisiau defnyddwyr i wella'r ddarpariaeth ddigidol i ddysgwyr dan anfantais a dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Bydd y rhaglen yn parhau i gefnogi trawsnewid ar draws y system i roi mynediad teg a chynhwysol i ysgolion a dysgwyr at dechnolegau ac offer digidol.

Rydym wedi datblygu ein llwyfan dysgu ac addysgu cenedlaethol, Hwb, sy'n darparu amrywiaeth o adnoddau ac offer digidol dwyieithog a hygyrch i bob ysgol a gynhelir a'u dysgwyr.

Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, Gwella cadernid digidol mewn addysg, yn adlewyrchu pwysigrwydd cadernid seiber a diogelwch data, ac mae'n cynnwys mesurau a dangosyddion i wella darpariaeth, polisi ac ymarfer diogelwch ar-lein ledled Cymru. Byddwn yn parhau i ymwneud â'r gwaith o roi'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar waith i gefnogi a llywio ein cyfeiriad polisi.

Mae Cadw'n ddiogel ar-lein yn rhoi'r adnoddau, y wybodaeth, yr hyfforddiant a'r canllawiau diweddaraf i blant a phobl ifanc, teuluoedd, ymarferwyr addysg, gweithwyr proffesiynol a llywodraethwyr er mwyn gwella eu cadernid digidol.

Mae Cadw'n ddiogel ar-lein yn cynnwys adran cyngor ac arweiniad. Wedi'i gyd-awduro gyda phlant a phobl ifanc, mae'n rhoi cymorth penodol iddynt ar gyfer unrhyw broblemau neu bryderon sy'n codi iddynt ar-lein.

**Cynhwysiant Digidol**

Mae'r Strategaeth Ddigidol i Gymru wedi'i hanelu at unrhyw un sy'n creu, yn darparu neu'n defnyddio offer a gwasanaethau digidol ledled Cymru. Mae'n egluro bod ffyrdd eraill o gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i'r rhai sy'n methu neu'n dewis peidio â chymryd rhan yn ddigidol. Mae Ail Genhadaeth y Strategaeth, Cynhwysiant Digidol, yn nodi'n glir mai ein nod yw helpu pawb i gael y cymhelliant, yr hyder a'r sgiliau digidol sylfaenol sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, a dewis sut maent yn cymryd rhan yn ein byd sy'n fwy a mwy digidol.

Yn dilyn adroddiad Tuag at y Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i gysoni polisi, mesuriadau ac ymyriadau â'r Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol, a fydd yn disodli'r mesur cynhwysiant digidol presennol o 'ddefnydd personol o'r rhyngrwyd'.

### Cymunedau Digidol Cymru

Mae Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant yn gweithio gyda chyrff o bob sector sy'n gallu helpu i gyrraedd pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae amcangyfrif o 162,000 o ddinasyddion wedi cael cymorth i gael y cymhelliant a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae Arwyr Digidol yn ddarn pontio'r cenedlaethau sy'n canolbwyntio ar uwchsgilio myfyrwyr cynradd, uwchradd a choleg er mwyn iddynt allu helpu ffrindiau, teuluoedd a phobl hŷn yn y gymuned i ddefnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel.



# Trais yn erbyn plant (erthyglau 19, 24 (3), 28 (2), 34, 37 (a) a 39)

## Artaith a thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall

**Lleihau arferion cyfyngol**

Mae ein fframwaith ar gyfer lleihau arferion cyfyngol yn amlinellu 'fframwaith cyffredin o egwyddorion a disgwyliadau' ar gyfer lleihau arferion cyfyngol mewn lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar ddull hawliau dynol. Dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio arferion cyfyngol i atal niwed i unigolyn neu i eraill. Mae'n cynnwys adrannau ar 'drafnidiaeth ddiogel', 'caffael' a 'chofnodi'r defnydd o arferion cyfyngol a defnyddio data i wella ymarfer'.

Bydd set o adnoddau i godi ymwybyddiaeth o'r fframwaith lleihau arferion cyfyngol yn cael eu cyhoeddi a'u hysbysebu ym mis Gorffennaf 2024 drwy weminar mynediad agored. Mae'r adnoddau'n cynnwys animeiddiad (wedi'i ysgrifennu a'i gynhyrchu gan bobl â phrofiad bywyd o arferion cyfyngol), dogfen esboniadol a phoster.

Byddwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu mewn lleoliadau addysg gynradd ac uwchradd yn ogystal ag Unedau Cyfeirio Disgyblion; byddwn hefyd yn sicrhau bod dogfennau canllawiau cysylltiedig eraill yn cyd-fynd â chynnwys y fframwaith ac yn cynnwys cyfeiriadau priodol pan fyddant yn cael eu hadolygu a'u diweddaru. Bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â'n cylch adolygu ar gyfer canllawiau i leoliadau addysg.

Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i wneud y canllawiau atal yn rhai statudol ond byddwn yn parhau i adolygu ein harferion a thrafod â'n rhanddeiliaid.

Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ganllawiau sy'n cael eu diweddaru neu eu datblygu ar gyfer lleoliadau addysg yn adlewyrchu llais dysgwyr.

## Cosb gorfforol

**Diddymu amddiffyniad cosb resymol**

Daeth adran 1 o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (Deddf Plant Cymru) i rym ar 21 Mawrth 2022. Nod cyffredinol y Ddeddf yw helpu i ddiogelu hawliau plant. Mae gwahardd cosbi plant yn gorfforol yn cyd-fynd ag erthygl 19 CCUHP – yr hawl i amddiffyniad rhag pob math o drais. Mae'r newid deddfwriaethol hefyd yn cefnogi ein nod o helpu rhieni i ddefnyddio dulliau mwy cadarnhaol o ddarparu arweiniad a disgyblaeth i'w plant.

Roedd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig wedi cydnabod Cymru am y cynnydd a wnaed yn gweithredu'r confensiwn o ran dileu'r amddiffyniad cosb resymol.

### Monitro gweithrediad Deddf Plant Cymru

Rydym yn monitro agweddau'r cyhoedd at gosbi corfforol, gan gynnwys lefelau ymwybyddiaeth a newidiadau mewn agweddau.

Mae ein Cynllun Grant Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys yn darparu cymorth rhianta wedi'i deilwra fel un o amodau Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys ac fel dewis ailsefydlu arall yn lle erlyn. Rydym wedi bod yn monitro atgyfeiriadau i'r cynllun i ddeall lefelau'r galw ac i ystyried a oes angen gwneud unrhyw addasiadau. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i fonitro atgyfeiriadau a llwyth achosion.

### Codi ymwybyddiaeth o Ddeddf Plant Cymru

Mae adran 2 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn y gyfraith cyn iddo ddod i rym. Fe wnaethom gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus aml-gyfrwng, a oedd yn cynnwys hysbysebu a gwaith cysylltiadau cyhoeddus. Mae gwefan ein hymgyrch yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth i aelodau'r cyhoedd, rhieni a gweithwyr proffesiynol.

Rhan allweddol o'n polisi yw rhoi gwybodaeth a chymorth i rieni er mwyn iddynt ystyried dewisiadau eraill yn lle cosb gorfforol yn eu dull o fagu plant. Mae Magu Plant. Rhowch amser iddo yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth cadarnhaol ynghylch magu plant i rieni sydd â phlant hyd at 18 oed drwy wefan ddwyieithog, hysbysebion ar y teledu, y radio a hysbysebion digidol, ac ar sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Yn nes ymlaen yn 2024, byddwn yn cyhoeddi canllawiau a hyfforddiant i helpu ymarferwyr i wreiddio ymwybyddiaeth a rhaeadru gwybodaeth berthnasol, gadarnhaol a grymusol i blant a phobl ifanc.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi adolygiadau ôl-weithredu statudol ar ôl tair blynedd a phum mlynedd.

## Cam-drin, esgeuluso, a chamfanteisio a cham-drin yn rhywiol

**Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi dynodi ei argymhellion ar gyfer cam-drin, esgeuluso, a chamfanteisio a cham-drin yn rhywiol fel maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu gan y Wladwriaeth sy'n Barti. Ar gyfer pob maes blaenoriaeth dynodedig, rydym wedi hwyluso trafodaethau traws-sector ar ein dull gweithredu yng Nghymru, sydd wedi cyfrannu at ein hymateb.**

### Diogelu

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau statudol cysylltiedig, Gweithio gyda'n Gilydd yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau plant i roi'r unigolyn a'i anghenion wrth galon ei ofal. Mae Cyfrol 1 yn ymwneud â'r ddyletswydd i roi gwybod pan fydd plant yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'n wynebu mathau eraill o niwed, neu mewn perygl o hynny. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i 'bartneriaid perthnasol' awdurdod lleol, gan gynnwys byrddau iechyd, yr heddlu, timau troseddau ieuenctid ac awdurdodau lleol eraill, i roi gwybod pan fydd ganddynt amheuaeth resymol bod plentyn mewn perygl. Mae Cyfrol 5 yn rhoi manylion am ddelio ag achosion unigol i amddiffyn plant sydd mewn perygl ac mae Cyfrol 7 yn canolbwyntio ar ddiogelu plant rhag camfanteisio rhywiol.

Fel rhan o Weithdrefnau Diogelu Cymru, sy'n cyd-fynd â'r fframwaith statudol ac yn ei ategu, rydym wedi cydgynhyrchu amrywiaeth o Ganllawiau Ymarfer amlasiantaeth, ar gyfer pynciau fel Diogelu plant rhag esgeulustod a Diogelu plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

Mae'r adnoddau 'Gwiriwch eich ffordd o feddwl' wedi cael eu datblygu mewn partneriaeth â phobl ifanc, gofalwyr maeth a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol i roi cymorth i bobl sy'n gweithio gyda phobl ifanc, neu sy'n gofalu amdanynt, er mwyn eu galluogi i feithrin perthynas well â'r rhai sydd wedi cael eu hecsbloetio neu eu niweidio.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad Cyflawni ar gyfer y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol cyntaf ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol ym mis Tachwedd 2022.

Ynghyd ag amrywiaeth eang o bartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, rydym bellach yn arwain y gwaith o ddatblygu cynllun ail gam, gan fapio'r nodau tymor byr a thymor hirach sy'n angenrheidiol i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn gallu tyfu i fyny'n rhydd rhag cam-drin plant yn rhywiol. Bydd cyfnod ymgynghori yn ddiweddarach eleni, gyda'r bwriad o gyhoeddi a chyflawni'r cynllun o ddechrau 2025 ymlaen.

Byddwn yn ystyried sut mae ein polisïau a'n strategaethau cenedlaethol, sydd wedi'u dylunio i helpu i atal a diogelu pobl rhag dioddef niwed, yn cael eu cysylltu a'u cyflawni'n effeithiol.

**Mandad i roi gwybod am gam-drin**

Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r adroddiad terfynol a'r argymhellion terfynol a wnaed gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, a oedd yn cynnwys argymhelliad i Lywodraethau Cymru a'r DU gyflwyno dyletswydd ar y 'rhai dan fandad i roi adroddiad' i roi gwybod i'r heddlu neu'r awdurdod lleol perthnasol pan fyddant wedi cael datgeliad; wedi gweld; neu wedi sylwi ar arwyddion eraill bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol.

Yng ngoleuni y ddyletswydd bresennol ar 'bartneriaid perthnasol' awdurdodau lleol i roi gwybod am blant ac oedolion sydd mewn perygl o unrhyw gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed; ehangder y safbwyntiau a gafwyd gan randdeiliaid mewn ymateb i'n hymgynghoriad archwiliadol yn hydref 2022; a chanfyddiadau ehangach yr Ymchwiliad ynghylch blaenoriaethu amddiffyn plant a chreu amgylchedd mwy amddiffynnol, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Wrth wneud hynny, rydym wedi ymrwymo i ystyried y gofynion, y safonau a'r canllawiau presennol ar draws lleoliadau gofal plant, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio, er mwyn sicrhau bod y rhain yn mynnu bod trefniadau diogelu cymesur ar waith; eu bod yn cael eu gweithredu, eu hadolygu a'u harolygu'n effeithiol. Yn ystod y Senedd hon, rydym hefyd yn bwriadu gwneud gwaith maes eang ac archwilio goblygiadau gosod dyletswyddau – neu fesurau amgen – ar eraill sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion a allai fod mewn perygl.

Er enghraifft, yn ddiweddar rydym wedi cryfhau'r gofynion diogelu ar gyfer Ysgolion Annibynnol ac wedi deddfu i reoleiddio gwasanaethau preswyl ysgolion arbennig mewn ffordd debyg i gartrefi gofal ar gyfer plant, sef dau o argymhellion Adroddiad Ymchwiliad Ysgolion Preswyl yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Rydym hefyd wedi cyhoeddi safonau gofynnol cenedlaethol diwygiedig ar gyfer gofal plant sy'n cael ei reoleiddio, er mwyn cryfhau'r safon mewn perthynas â diogelu; ac wedi cyhoeddi fframwaith ansawdd drafft ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, sy'n cynnwys safon ansawdd mewn perthynas â diogelu babanod a phlant ifanc rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Yn fwy cyffredinol, mae gwaith wedi dechrau i gwmpasu a datblygu opsiynau ar gyfer gwaith maes pellach a dadansoddiad o drefniadau diogelu mewn lleoliadau a gweithgareddau ehangach.

**Adolygiad Diogelu Unedig Sengl**

Mae Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 2, a gyhoeddwyd o dan adran 139 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac a nodir yn Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 yn nodi pwrpas a swyddogaeth Adolygiadau Ymarfer Plant (Adolygiadau Achosion Difrifol gynt).

Pwrpas cyffredinol y system adolygu yw hybu diwylliant cadarnhaol o ddysgu ac adolygu amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn plant mewn meysydd sy'n gyfrifoldeb i Fyrddau Diogelu Lleol ac asiantaethau partner. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n gosod sylfaen ar gyfer dysgu ar y cyd gan weithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau ac, yn yr amgylchiadau hynny lle mae angen adolygiad mwy ffurfiol pan fydd digwyddiadau difrifol yn deillio o gam-drin neu esgeuluso, mae system o adolygiadau ymarfer plant aml-asiantaeth, cryno ac estynedig. Disgwylir i

ganlyniadau'r newidiadau hyn gynhyrchu dysgu newydd a all gefnogi gwelliant parhaus mewn arferion amddiffyn plant rhyngasiantaethol.

Yn 2024, bydd Llywodraeth Cymru yn dod â'r holl adolygiadau sy'n ymwneud â diogelu (hy Adolygiadau Ymarfer Oedolion/Plant, Adolygu Lladdiadau Trais Domestig, Adolygiad o Laddiadau gydag Arfau Ymosodol ac Adolygiadau o Laddiadau Iechyd Meddwl) ynghyd mewn Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Roedd y datblygiad yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, ymarferwyr diogelu, partneriaid yn y trydydd sector a'r byd academaidd i sicrhau ein bod yn creu proses i ddysgu o drychinebau – lladdiadau plant, oedolion, trais domestig, arfau ymosodol ac iechyd meddwl – a fydd yn helpu i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol.

Pan fydd yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl ar waith, am y tro cyntaf byddwn yn gallu gwybod sawl adolygiad – gan gynnwys Adolygiadau Ymarfer Plant, hy adolygiadau achos difrifol – sydd wedi cael eu cynnal, sy'n cael eu cynnal a pha argymhellion a dysgu sydd wedi dod i'r amlwg ledled Cymru. Roedd yr holl wybodaeth hon yn cael ei chadw'n lleol o'r blaen, ac nid oedd y dysgu o reidrwydd yn cael ei rannu mor eang â phosibl. O fis Medi 2024 ymlaen, bydd Storfa Ddiogelu Cymru'n cael Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl terfynol a bydd yn defnyddio dysgu peirianyddol, gwyddorau cymdeithasol a chyfrifiadureg i nodi a helpu ymarferwyr i nodi ffyrdd newydd o ddysgu o adolygiadau.

**Dioddefwyr trais a cham-drin rhywiol**

Mae Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn brosiect gwella dan arweiniad Gweithrediaeth y GIG sy'n gweithio gyda'r Heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, ac mewn partneriaeth â'r trydydd sector arbenigol. Mae'r rhaglen yn sbarduno'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar blant/unigolion i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddioddefwyr trais a cham-drin rhywiol, gyda llais y dioddefwr yn ganolog i'r gwaith.

Cytunwyd ar fodel gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn ne Cymru, Dyfed Powys a Gwent. Mae gogledd Cymru wedi ymuno â'r rhaglen hefyd, a bydd yn edrych ar ddyluniad eu gwasanaethau. Bydd y model yn darparu gwasanaeth mwy integredig sy'n seiliedig ar anghenion dioddefwyr a chleifion. Bydd yn cefnogi gwasanaethau sy'n bodloni safonau ac arweiniad clinigol, fforensig, ansawdd a diogelwch, ac yn sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn. Mae'r rhaglen wedi cynnwys datblygu adnoddau penodol, gan gynnwys ffilmiau byr ac animeiddiad sy'n egluro rôl Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru.

**Eiriolaeth**

SRhoddir cymorth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant fel rhan o'n Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol.

**Trawma**

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Straen Trawmatig Cymru. Nod y fenter hon yw gwella iechyd a llesiant pobl o bob oed sy'n byw yng Nghymru ac sydd mewn perygl o ddatblygu neu'n delio gydag anhwylder straen wedi trawma neu anhwylder straen wedi trawma cymhleth. Mae'n cynnwys ffrwd waith benodol sy'n canolbwyntio ar ymosodiad rhywiol.

Mae Hyb ACE Cymru yn gweithio ar y cyd â Straen Trawmatig Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma tuag at ei nod cyffredinol o wneud Cymru'n genedl sy'n ystyriol o drawma. Cafodd y Fframwaith ei gydgynhyrchu i gefnogi arferion cyson a'r arferion gorau mewn perthynas â datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru'n ei ddefnyddio.

**Cam-drin domestig a thrais rhywiol**

Mae trosedd, cyfiawnder, llysoedd a thribiwnlysoedd yn faterion wedi'u cadw'n ôl ac yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae ein Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn arloesol ac yn rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i gydweithio ar strategaethau lleol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).

Mae Partneriaeth Genedlaethol VAWDASV yng Nghymru yn dangos partneriaeth gadarn rhwng awdurdodau wedi'u cadw'n ôl ac awdurdodau datganoledig yng Nghymru. Mae'n darparu arweinyddiaeth ar gyfer y dull amlasiantaeth o weithredu'r Strategaeth a'r Glasbrint VAWDASV

Cafodd ffrwd waith Anghenion Plant a Phobl Ifanc y Glasbrint ei sefydlu'n benodol i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a chyflawni polisïau.

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ariannu rhanbarthau a gwasanaethau arbenigol VAWDASV i ddarparu cymorth hanfodol i holl ddioddefwyr VAWDASV, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys ymyrraeth gynnar, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol, a chymorth therapiwtig i'r rhai y mae cam-drin a thrais yn effeithio arnynt.

Mae adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y dull iechyd cyhoeddus o ymdrin â thrais ar sail rhywedd yn cynnwys argymhelliad i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau therapiwtig ar gael i blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu arweiniad ar Gynghorwyr Annibynnol, fel Cynghorwyr Annibynnol ar Gam-drin Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol. Er nad yw'r ymrwymiad hwn yn berthnasol i Gymru, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau dull gweithredu cydlynol a chydgysylltiedig.

**Cyfiawnder Ieuenctid**

Mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, gan ddefnyddio dull hawliau 'rhoi plant yn gyntaf'. Mae'n canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth: atal, dargyfeirio cyn mynd i'r llys, a'r ddalfa. Bydd y Glasbrint yn parhau i ganolbwyntio'n benodol ar fabwysiadu dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma drwy gydol gwahanol gamau'r system cyfiawnder ieuenctid, o atal ac ymyrryd yn gynnar i adsefydlu o'r ddalfa, gan gydnabod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ymateb iddynt. Mae cynlluniau gweithredu'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn tynnu sylw at y cynnydd hyd yma ac ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gyflawni'r rhaglen waith yn y dyfodol.

**Gofal Plant a chwarae**

Mae ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru yn dwyn ynghyd, am y tro cyntaf, ein holl bolisïau a rhaglenni sy'n ymwneud â chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar, gan amlinellu ein gweledigaeth i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob baban a phlentyn ifanc.

Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gyfer plant dan 12 oed yn rhoi eglurder ynghylch y gofynion ar gyfer diogelu ac yn nodi'r hyfforddiant priodol ar gyfer gwahanol rolau yn y sector. Byddant yn dod i rym ym mis Tachwedd 2024.

Yn ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae, rydym yn nodi'r camau y byddem yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhelliad i sicrhau bod trefniadau diogelu digonol mewn lleoliadau gwaith chwarae. Mae'r rhain yn cynnwys trafod â'r rhai sy'n darparu gwasanaethau neu'n cynnig gweithgareddau i blant i sicrhau bod ganddynt drefniadau diogelu cymesur ac effeithiol ar waith. Byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddogfen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl:Cod Ymarfer Diogelu a'u hannog i'w fabwysiadu yn eu lleoliadau.

Mae'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a'r adnoddau cysylltiedig yn dwyn ynghyd y gofynion allweddol ar gyfer cyrraedd y safon ddarparu rydym am ei chael yng Nghymru. Mae'n cynnwys cysylltiadau â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r adnoddau'n cynnwys dwy daflen i ymarferwyr sy'n cyflwyno CCUHP ac yn rhoi cyngor ar sut i gefnogi hawliau babanod a phlant ifanc ar wahanol oedrannau.

Mae'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol, sy'n cyd-fynd â'r fframwaith, yn cynnwys safon ansawdd sy'n ymwneud â diogelu babanod a phlant ifanc rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r Fframwaith a'r adnoddau wedi cael eu cyhoeddi ar ffurf drafft, a bydd y fersiynau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn ystod haf 2024.

### Iechyd Meddwl

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd, yn ogystal â Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed newydd. Mae'r ddwy strategaeth yn canolbwyntio'n benodol ar fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau – a hefyd yn cydnabod anghenion penodol dioddefwyr ymosodiadau rhywiol, trais domestig a cham-drin.

Bydd y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd yn cefnogi hawliau dynol a hawliau plant (er enghraifft drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn canlyniadau) yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011). Yn benodol, mae'r strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd yn datgan: "Mae'n hollbwysig canolbwyntio'n barhaus ar erthyglau unigol CCUHP, argymhellion Adroddiad Arsylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2023, a sut gall polisïau wella iechyd meddwl a llesiant."

## Rhyddid y plentyn rhag pob math o drais

### Cyfiawnder Ieuenctid

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â chydweithwyr plismona, yn ymdrechu i gael dull ataliol o ymdrin â throseddau treisgar sy'n cadw cymunedau yng Nghymru yn ddiogel, gan fynd i'r afael â ffactorau sy'n sbarduno trais difrifol er mwyn atal troseddu a galluogi pobl i fyw bywyd di-drosedd sy'n rhoi boddhad iddynt.

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ac Uned Atal Trais Cymru i gefnogi cydymffurfedd â'r Ddyletswydd Trais Difrifol yng Nghymru. Mae'r Ddyletswydd yn mynnu bod partneriaid, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd, yn gweithio gyda'i gilydd i atal trais difrifol yn eu cymunedau.

Mae Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn cynnal seminarau, gan gynnwys 'Deall ac Atal Trais gyda Phlant a Phobl Ifanc'. Mae Uned Atal Trais Cymru'n gweithio i atal pob math o drais, gan gynnwys troseddau cyllyll.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o Fframwaith Cymru heb Drais Uned Atal Trais Cymru. Mae'r Fframwaith yn dwyn ynghyd amrywiaeth o dystiolaeth a phrofiad ynghylch yr hyn sy'n gweithio i atal trais, gan helpu partneriaid yng Nghymru i fuddsoddi mewn strategaethau a gweithgareddau sy'n atal trais ymysg plant a phobl ifanc.

## Arferion Niweidiol

### Diogelu ac Eiriolaeth

Fel rhan o Weithdrefnau Diogelu Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu amrywiaeth o Ganllawiau Ymarfer gan gynnwys Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoelau a Diogelu plant a allai gael eu masnachu.

Rydym wedi cyhoeddi pecyn codi ymwybyddiaeth ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod rhagor o bobl yn ymwybodol o natur droseddol yr arferion ymwthiol a diraddiol hyn. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cefnogi Clinig Llesiant Menywod arbenigol cyntaf Cymru, a agorodd ym mis Mai 2019. Mae gan blant sy'n derbyn gofal neu sy'n destun ymholiadau amddiffyn plant hawl i gael cymorth eiriolaeth o dan y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol.

### Cam-drin ar sail anrhydedd

Mae Grŵp Arwain Cymru Gyfan ar Gam-drin ar sail Anrhydedd yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Bawso a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae'r grŵp yn darparu fframwaith i bartneriaid allweddol gyfrannu at fynd i'r afael â'r mater hwn yng Nghymru, gan ddarparu'r cymorth gorau posibl i oroeswyr. Mae'r ffocws ar bob math o gam-drin ar sail anrhydedd fel y'i gelwir, gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod, profion gwyryfdod a hymenoplasti.

Bydd y Grŵp Arwain yn parhau i nodi tueddiadau a chamau gweithredu sy'n dod i'r amlwg y gellir eu rhoi ar waith i atal niwed rhag digwydd, ac i roi cymorth i bobl sydd wedi cael eu heffeithio. Bydd gofyn am ddull system gyfan o fynd i'r afael â'r mathau hyn o niwed. Lle bo'n briodol, bydd gwaith yn cael ei gysoni â darpariaeth ehangach y Glasbrint VAWDASV drwy weithredu cynllun cyflawni uchelgeisiol ar gyfer y Grŵp Arwain sy'n annog perchnogaeth ar gamau gweithredu penodol drwy gydol yr aelodaeth, gan gynnwys:

- Nodi a chytuno ar safon sylfaenol ar gyfer delio â cham-drin ar sail anrhydedd ar draws pob sector.
- Gweithio tuag at gasglu data cam-drin ar sail anrhydedd yn effeithlon ac yn amserol yng Nghymru.
- Cysoni trefniadau llywodraethu, rhannu gwybodaeth a'r arferion gorau gan gynnwys llwybrau atgyfeirio, templedi a gwybodaeth ddefnyddiol.
- Cydweithio â byrddau rhanbarthol, a chynrychiolaeth ar grwpiau o dan y model Glasbrint newydd ar gyfer VAWDASV yng Nghymru.

**Gwahardd Therapi Trosi**

Mae Llywodraeth Cymru'n gwrthwynebu pob math o arferion trosi. Rydym am i bob person LHDTC+ yng Nghymru gael ei drin yn gyfartal, bod yn ddiogel, a byw'n onest ac yn agored fel nhw eu hunain.

Fel rhan o Gynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, mae gweithgor wedi cael ei sefydlu ar Wahardd Arferion Trosi yng Nghymru.





# Amgylchedd teuluol a gofal amgen (erthyglau 5, 9-11, 18 (1)-(2), 20-21, 25 a 27 (4))

## Amgylchedd teuluol

### Gofalwyr Di-dâl

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r gwaith o ddatblygu cerdyn adnabod cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr Ifanc, sydd wedi bod ar gael ers mis Ebrill 2022. Mae wedi'i anelu at ofalwyr ifanc hyd at 18 oed a'i fwriad yw bod yn adnodd allweddol i helpu gofalwyr ifanc i ddangos pwy ydyn nhw i athrawon a staff mewn ysgolion a cholegau, yn ogystal â'u gwasanaethau iechyd lleol fel meddyg teulu neu fferyllydd.

Rydym yn ariannu cynllun seibiant byr i oedolion ac, yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol, i ofalwyr ifanc, sy'n helpu gofalwyr di-dâl i gymryd seibiant o'u rôl gofalu er mwyn ymlacio neu ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r Gronfa Cymorth Gofalwyr yn caniatáu i ofalwyr ar incwm isel wneud cais am grant bach i brynu eitemau sylfaenol hanfodol.

Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddeall sut gellir adnabod a chefnogi gofalwyr ifanc yn well mewn ysgolion a cholegau. Mae hyn yn cynnwys y bwriad i adnewyddu'r Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc i gynnwys enghreifftiau o ganllawiau arferion da o ran cydweithio a deunyddiau ar-lein wedi'u diweddaru. Rydym hefyd yn darparu cymorth ariannol ar gyfer gŵyl dri diwrnod i ofalwyr ifanc yn ystod haf 2024, fel yr ydym wedi'i wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Byddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd monitro a gwerthuso gyda'n partneriaid cyflawni i sicrhau bod y cynlluniau rydym yn eu hariannu yn dal yn berthnasol ac o fudd i ofalwyr di-dâl.

### Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn helpu teuluoedd sydd â phlant dan 4 oed mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu Dechrau'n Deg ar gyfer pob plentyn 2 oed yng Nghymru. Mae Cam 1, sy'n cynnig pob un o bedair elfen Dechrau'n Deg bellach wedi'i gwblhau. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd y rhaglen wedi cyrraedd 3,178 o blant ledled Cymru, gan ragori ar ein targed. Roedd hyn yn cynnwys 772 o blant sydd wedi cael cynnig lle gofal plant. Mae Cam 2 wedi dechrau ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar ehangu gofal plant Dechrau'n Deg i ragor o blant dwyflwydd oed.

Yn ystod 2023-25, ein nod yw ehangu'r ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg o ansawdd uchel i dros 9,500 o blant ychwanegol. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni hynny.

### Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae'r Cynnig Gofal Plant, sydd wedi bod ar gael ledled Cymru ers mis Ebrill 2019, yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth i rieni cymwys sydd â phlant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Yn ein Rhaglen Lywodraethu roeddem wedi ymrwymo i ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion gwaith. Cafodd y newid hwn mewn meini prawf cymhwysedd ei gyflwyno ym mis Medi 2022 ac, erbyn mis Tachwedd 2023, roedd bron i 1,140 o rieni ychwanegol wedi cael cymorth drwy'r Cynnig o ganlyniad.

Ers ei lansio, mae'r Cynnig Gofal Plant wedi cael ei werthuso'n flynyddol, gan ymgysylltu ag awdurdodau lleol a rhieni i ddeall yr effaith, y ddemograffeg a'r rhwystrau. Mae hyn yn cynnwys yr effaith o ran galluogi rhieni i ailymuno neu aros yn y gweithlu. Nid oedd y gwerthusiad blynyddol diwethaf yn gallu ystyried effaith ehangu ar rieni mewn addysg a hyfforddiant gan ei fod eisoes ar waith pan gyflwynwyd y newidiadau. Fodd bynnag, bydd y gwerthusiad nesaf yn dechrau pennu effaith y gwaith hwn.

Yn rhaglen y Cynnig Gofal Plant, rydym yn buddsoddi yn ein cynllun cyfathrebu strategol gyda'r nod o gynyddu nifer y rhieni cymwys sy'n manteisio ar y Cynnig.

### Plant sydd wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol

**Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi dynodi ei argymhellion ar gyfer plant sydd wedi'u hamddifadu o amgylchedd teuluol fel maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu gan y Wladwriaeth sy'n Barti. Ar gyfer pob maes blaenoriaeth dynodedig, rydym wedi hwyluso trafodaethau traws-sector ar ein dull gweithredu yng Nghymru, sydd wedi cyfrannu at ein hymateb.**

### Gwasanaethau Cymdeithasol Plant – atal/ymyrryd yn gynnar

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â Rhaglen Drawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yng Nghymru sy'n seiliedig ar wyth ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, ac sy'n cyd-fynd â Chynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru.

Mae'r Rhaglen yn ystyried y cymorth mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ei gael gan wasanaethau ataliol ac ymyriadau statudol, gan gynnwys profiad plentyn neu berson ifanc o ofal.

Un o brif elfennau'r Rhaglen yw datblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a fydd yn amlinellu set o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru, ac yn cefnogi agwedd amlddisgyblaethol, gydgysylltiedig at ymarfer.

Mae rhaglenni cymorth cynnar Cymru yn cynnig cymorth amserol i deuluoedd, gyda'r nod o atal problemau rhag gwaethygu. Drwy'r ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo, rydym yn hybu pwysigrwydd rhianta cadarnhaol i rieni sydd â phlant hyd at 18 oed. Gwyddom fod dull gweithredu o'r fath yn debygol o sicrhau canlyniadau gwell i blant, a dyma pam mae'n sail i'n cynnig cyffredinol o gymorth i rieni. Mae Ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn rhoi pwyslais ar gymorth cynnar drwy gefnogi dull amlasiantaeth o weithio gyda'r teulu cyfan i atal problemau rhag gwaethygu a throi'n argyfwng.

Drwy gefnogi Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, rydym yn sicrhau bod teuluoedd a rhieni yn gallu cael gafael ar gymorth, cefnogaeth, arweiniad a chyngor diduedd am ddim ar amrywiaeth o faterion teuluol gan gynnwys gofal plant, costau gofal plant, rhaglenni teulu, materion iechyd a rhai ariannol, a all i gyd helpu i gefnogi amgylcheddau cartref cadarnhaol lle bydd plant yn gallu datblygu a ffynnu. Mae'r rhaglenni cymorth cynnar hyn yn helpu i osgoi neu liniaru effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod drwy weithio gyda theuluoedd i adeiladu ar eu cryfderau a'u cydnerthedd.

Yng Nghymru, mae gan blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yr un hawliau â phlant sy'n derbyn gofal ac sydd wedi'u geni yng Nghymru a'r DU, waeth beth fo'u statws mewnfudo. Maent wedi'u cynnwys mewn unrhyw bolisi i roi cymorth i blant sy'n derbyn gofal.

Mae'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid Gwasanaethau Plant, sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid, yn sefydlu ffrwd waith benodol ar atal/ymyrraeth gynnar.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn modelau gwaith sydd wedi cael eu rhoi ar waith dros y blynyddoedd diwethaf i atal plant rhag mynd i mewn i'r system ofal.

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant – Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol**

Mae Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i Rhaglen Drawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Plant, yn datblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Y Fframwaith fydd y set gyntaf o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru, gan eistedd ochr yn ochr â gweithdrefnau eraill Cymru gyfan fel gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan. Ei nod yw cryfhau a chefnogi ymhellach y gwaith o droi bwriad polisi yn arfer dyddiol.

Datblygwyd y Fframwaith drwy weithio gyda'n partneriaid i adolygu a chryfhau ansawdd ac arferion i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau. Bydd y safonau'n adlewyrchu dull gweithredu aml-asiantaeth, gan ein bod yn cydnabod bod angen cefnogaeth nifer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd fel tîm ar blant sydd angen cymorth ac angen eu hamddiffyn. Bydd y safonau'n disgrifio'n well sut mae gwasanaethau i blant yn gweithio gan sicrhau mwy o dryloywder.

Yn dilyn ymarfer ymgysylltu yn gynnar eleni, mae gwaith yn mynd rhagddo nawr i ddatblygu drafft diwygiedig o'r Fframwaith llawn, i'w rannu ar gyfer ymgysylltu ac adborth ehangach. Caiff y Fframwaith terfynol ei gyhoeddi cyn diwedd 2024.

**Gwasanaethau Cymdeithasol Plant – dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal**

Mae dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn rhan o'n gweledigaeth ehangach ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid y system gyfan ac, wrth ei gwraidd, rydym am weld mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau gyda llawer llai angen mynd i ofal. Rydym hefyd am sicrhau bod y cyfnod y mae pobl ifanc mewn gofal mor fyr â phosibl. Mae ein hymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yn rhan allweddol o'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru). Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr newydd gofrestru fel busnes nid-er-elw o 1 Ebrill 2026 ymlaen. Bydd y gofyniad hwn wedyn yn ymestyn i bob darparwr sy'n gweithredu yng Nghymru o fis Ebrill 2027 ymlaen.

Y nod yw sicrhau nad yw'r arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal plant yn gwneud elw i unigolion nac i endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl i gefnogi'r gwasanaethau hyn: i ddarparu profiadau a chanlyniadau gwell i bobl ifanc; i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau ac i ddatblygu gwasanaethau gofal plant cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer y dyfodol.

Nid yw hyn yn ymwneud â disodli un darparwr gan ddarparwr arall. Mae angen i siâp a graddfa'r ddarpariaeth fod yn wahanol, a byddwn yn edrych ar y cydbwysedd rhwng gorchmynion preswyl, gofal maeth, gofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig – bydd hyn yn cynnwys modelau gofal, cymorth cofleidiol, a modelau perchnogaeth.

Ein gweledigaeth yw ailgynllunio'r ffordd rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc er mwyn gallu gwneud y gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sy'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol.

**Gwasanaethau Cymdeithasol Plant – darpariaeth breswyl a gwasanaethau i blant ag anghenion cymhleth**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau, lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol, bod plant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu aros gyda'u teuluoedd yn cael gofal mor agos â phosibl at eu cartref. Pan fydd plant yn cael eu lleoli y tu allan i'r ardal, gall hyn fod oherwydd diffyg lleoliadau lleol addas oherwydd cymhlethdod anghenion y plentyn.

Rhwng 2021 a 2023, fe wnaethom ysgogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a ariennir i dreialu dulliau rhanbarthol o ddatblygu llety ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Profwyd hyn drwy gwblhau 15 prosiect ar draws pob rhanbarth yng Nghymru, a arweiniodd at y pethau canlynol:

- Creu 26 gwely newydd o ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.
- Rhoi cefnogaeth i 62 o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (the RIF) yn gronfa 5 mlynedd i ddarparu rhaglen newid tan fis Mawrth 2027, yn seiliedig ar dderbyn a chymeradwyo cynigion buddsoddi sy'n cwmpasu amrywiaeth o fodelau gofal integredig. Mae hyn yn cynnwys cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal sydd ag anghenion cymhleth.

Drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn datblygu prosiectau lle mae 'Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal' yn brif fodel gofal sy'n elwa ar ganlyniadau disgwyliedig darparu llwyddiannus.

Cytunir ar elfennau allweddol y Model Gofal drwy brosiectau sy'n cael eu hariannu drwy'r RIF, ar y cyd â rhannu arferion da a dysgu drwy Gymuned Ymarfer. Y nod yw cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth sydd ar gyrion gofal er mwyn gallu diwallu eu hanghenion yn llawn a galluogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel.

Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer plant a phobl ifanc ac wedi rhoi fframwaith monitro mwy cadarn ar waith i gofnodi datblygiadau. Nod y gwaith hwn yw nodi a chysylltu darpariaeth yn strategol o gam cyfalaf i gam gweithredol drwy sawl ffrwd gyllido a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i oruchwylio'n well ei buddsoddiad a gallu awdurdodau lleol i gynllunio a gweithio yn gydweithredol ac yn strategol.

Rydym hefyd yn sefydlu Fforwm arfer da ar gyfer datblygu darpariaeth breswyl i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Bydd yn allweddol i rannu arferion da a hysbysu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac awdurdodau lleol am yr heriau sydd wedi'u hwynebu er mwyn llywio gwaith cynllunio a strategaethau comisiynu lleoliadau yn y dyfodol.

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant – Siarter Rhianta Corfforaethol**

Lansiodd Llywodraeth Cymru y Siarter Rhianta Corfforaethol ym mis Medi 2023.Mae'r Siarter hon yn set o addewidion y gall unrhyw gorff sector cyhoeddus eu mabwysiadu wrth ymwneud â phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal (plant mewn gofal amgen).

Mae hefyd yn gosod egwyddorion cyffredin y dylai pob corff a'u harweinwyr eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r egwyddorion yn cyd-fynd â'r CCUHP.

Nod Llywodraeth Cymru yw bod pob corff yn y sector cyhoeddus ac uwch arweinwyr yn ymrwymo i'r Siarter hon fel Rhiant Corfforaethol da. Mae'r Siarter hwn hefyd yn agored i sefydliadau gwirfoddol a'r sector preifat gofrestru a bod yn Rhiant Corfforaethol. Mae 33 o Rieni Corfforaethol wedi cofrestru hyd yma.

Mae dwy egwyddor benodol sy'n ymwneud â'r argymhelliad hwn ac sy'n cyd-fynd â CCUHP, sef:

- **Gyda'n gilydd** – byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i sicrhau bod eu barn, eu teimladau a'u syniadau'n rhan annatod o'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn a'r ffordd maen nhw'n derbyn y gwasanaethau hynny. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i gael ei glywed a'i gymryd o ddifrif (CCUHP, Erthygl 12).

- **Ffynnu** – byddwn yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal yn barod ar gyfer y dyfodol ac yn gallu gwneud dewisiadau cadarnhaol ar gyfer byw'n annibynnol a bod yn oedolyn. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn yr hawl i gyrraedd ei botensial (CCUHP, Erthyglau 3 a 29).

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i drafod â sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ledled Cymru i'w hannog i lofnodi'r Siarter Rhianta Corfforaethol a bod yn ymwybodol o'r holl egwyddorion yn y Siarter. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio i gryfhau'r canllawiau statudol ar Rianta Corfforaethol. Cam cyntaf y gwaith hwn fydd cynnwys adran benodol ar rianta corfforaethol yng Nghod Ymarfer Rhan 6 o dan Ddeddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014.

**Gwasanaethau ymweld annibynnol**

Mae Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 6 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya yn egluro bod gan awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn ddyletswydd i ddarparu mynediad i berson annibynnol i fod yn ymwelydd i'r plentyn os yw'n ymddangos iddo fod er lles gorau'r plentyn i wneud hynny, er enghraifft pan nad yw'r plentyn wedi byw gyda rhiant (neu unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn) yn ystod y 12 mis blaenorol neu pan nad yw'r cyswllt rhwng y plentyn a'r rhiant (neu unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant) wedi digwydd neu heb ddigwydd yn aml. Rôl ymwelydd annibynnol yw ymweld, bod yn gyfaill a chynghori'r plentyn.

Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru i edrych ar wella gwasanaethau ymweld annibynnol.

**Data wedi'i ddadgyfuno ar blant mewn gofal**

Byddwn yn ystyried sut i ddadgyfuno data'n well fel rhan o waith y Grŵp Cyflawni Trawsnewid Gwasanaethau Plant.

**Gwrando ar blant mewn gofal – Cod Ymarfer Rhan 6**

Fel rhan o'n gwaith i adolygu Cod Ymarfer Rhan 6 yn ystod tymor presennol y Senedd, byddwn yn ystyried y materion sy'n ymwneud â sicrhau bod gan blant mewn gofal hawliau clir i gael eu cynnwys a'u clywed mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gofal.

**Cynllun Pan Fydda i'n Barod**

O fis Ebrill 2016, mae hawl gan bobl ifanc yng Nghymru i aros gyda'u teuluoedd maeth y tu hwnt i 18 oed a hyd at 21 oed, neu hyd at 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arnynt. Y bwriad yw i'r rhai sy'n gadael gofal fod wedi'u paratoi'n well ar gyfer bywyd fel oedolion cyn iddynt symud ymlaen i fod yn annibynnol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod heriau gyda'r cynllun ac mae wedi ymrwymo i gefnogi'r cynllun wrth i ni symud ymlaen, ac i weithio gyda rhanddeiliaid i oresgyn unrhyw rwystrau. Yn ystod tymor y Senedd hon byddwn yn cynnal adolygiad o'r cynllun Pan Fydda i'n Barod, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi cael ei chasglu am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ystyried a oes angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i ddarparu sylfaen gadarnach ar gyfer Pan Fydda i'n Barod, ochr yn ochr â diweddaru'r canllawiau presennol.

Byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r angen am gysondeb a chynllunio gofal ar gyfer trosglwyddo i wasanaethau ôl-18 ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal.

**Eiriolaeth gofalwyr maeth**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod eiriolaeth yn chwarae rhan hollbwysig i ofalwyr maeth o ran sicrhau llesiant a buddiannau gorau plant yn eu gofal.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r rhaglen Maethu Llesiant sy'n cael ei chyflwyno gan y Rhwydwaith Maethu. Mae'n dwyn ynghyd yr holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chefnogi plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys gofalwyr maeth ac yn hyrwyddo statws cyfartal i bawb sy'n ymwneud â'r 'tîm o amgylch y plentyn.'

Rydym wedi gwrando ar farn ein gofalwyr maeth yng Nghymru a oedd yn teimlo bod angen i hyfforddiant ar ôl cymeradwyaeth fod yn gyson ledled Cymru. Roeddem yn cydnabod bod anghenion rhieni maeth yn amrywiol ac na fyddai dull 'un ateb i bawb' yn gweithio. Gan weithio mewn partneriaeth â'n partneriaid yn y trydydd sector, rydym wedi datblygu'r Fframwaith Dysgu a Datblygu ar ôl cymeradwyaeth ar gyfer gofalwyr maeth ledled Cymru.

Fel rhan o'r fframwaith hwn, mae ein partner yn y trydydd sector, sef AFKA Cymru wedi cynhyrchu rhaglen e-ddysgu ar gyfer pob un o'r teitlau craidd a nodir yn y Fframwaith AAD ar ôl Cymeradwyaeth ar gyfer Gofalwyr Maeth.

**Profiad o ofal fel nodwedd amddiffynnol ac eiriolaeth annibynnol**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gadw llygad ar fater profiad gofal yn dod yn nodwedd amddiffynnol ac ar argymhelliad penodol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai'r cynnig eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant fod yn seiliedig ar yr egwyddor o optio allan.

**Cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru**

Lansiwyd y cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru ym mis Mehefin 2022 a darparodd dros 600 o bobl sy'n gadael gofal yng Nghymru rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 gyda £1,600 y mis (cyn treth) am ddwy flynedd. Maen nhw hefyd yn cael cynnig cyngor a chymorth unigol i'w helpu i reoli eu harian a datblygu sgiliau ariannol a chyllidebu. Nod y cynlluniau peilot yw rhoi annibyniaeth a sicrwydd i bobl sydd wedi wynebu heriau aruthrol yn ystod eu plentyndod, gan roi mwy o reolaeth iddynt a'u grymuso i wneud penderfyniadau am eu dyfodol. Y gobaith yw y bydd y cynllun peilot yn rhoi pobl ifanc sy'n gadael gofal ar lwybr i fyw bywydau iach, hapus a boddhaus. Disgwylir i effaith derbyn incwm sylfaenol adleisio drwy fywyd unigolyn, ymhell ar ôl i'r taliadau ddod i ben.

Mae'r cynllun peilot yn gyfyngedig o ran amser a bydd angen ei werthuso'n briodol i bennu manteision incwm sylfaenol i'r grŵp penodol hwn o bobl ifanc wrth iddynt symud o ofal i fod yn oedolion. Rydym wedi comisiynu tîm arbenigol, dan arweiniad Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant ym Mhrifysgol Caerdydd, i arwain y gwerthusiad eang o'r cynllun peilot. Rydym yn disgwyl y bydd y gwerthusiad yn cyfrannu at dystiolaeth ryngwladol ar incwm sylfaenol ac ymyriadau i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal.

Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ymestyn y cynllun a byddai unrhyw gynlluniau yn y dyfodol yn cael eu pennu gan y gwerthusiad sy'n rhedeg tan 2027.

**Iechyd Meddwl – Diogeliadau Amddifadu o Ryddid**

Y Diogeliadau Amddifadu o Ryddid (DoLS) yw'r weithdrefn a ragnodir yn y gyfraith sy'n sicrhau bod pobl nad ydynt yn gallu cydsynio i'w trefniadau gofal a thriniaeth mewn cartref gofal neu ysbyty yn cael eu hamddiffyn os yw'r trefniadau hynny'n eu hamddifadu o'u rhyddid. Cyflwynodd Llywodraeth y DU Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, gyda'r bwriad o ddiddymu'r Diogeliadau Amddifadu o Ryddid a'u disodli â'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS). Byddai'r LPS wedi bod yn berthnasol ym mhob lleoliad a hefyd i unrhyw un 16 oed a hŷn.

Ar 5 Ebrill 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu rhoi'r gorau i gyflwyno'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a gweithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019. Roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwbl gefnogol i'r diwygiadau y byddai'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid wedi'u cyflwyno.

Ers hynny, mae cyllid ar gyfer byrddau iechyd ac awdurdodau lleol wedi cael ei ddarparu'n rheolaidd i gefnogi'r Diogeliadau Amddifadu o Ryddid yng Nghymru ac i ddiogelu hawliau pobl lle mae gofal, cymorth a thriniaeth yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid.

Byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i'r Sylwadau Terfynol mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol o ran Diogeliadau Amddifadu o Ryddid a gweithredu'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid.

Yn unol â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant ddrafft ar gyfer Cymru, byddwn yn parhau i wella mynediad at wasanaethau, profiad a chanlyniadau i bobl ifanc – ac yn rhannu gwybodaeth am ble i chwilio am gymorth iechyd meddwl a'r cymorth iechyd meddwl sydd ar gael iddynt.

Hefyd, yn unol â'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant ddrafft, byddwn yn sicrhau bod llwybrau mynediad at gymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant yn amserol, yn hygyrch i bawb, ac yn gydgysylltiedig rhwng sectorau, gan gynnwys gwella'r broses o bontio o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i Wasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.

## Plant rhieni sydd yn y carchar

### Cefnogi plant rhieni sydd yn y carchar

Mae plant sy'n cael eu heffeithio gan garchariad rhiant yn aml yn gofyn am gefnogaeth benodol i'w helpu i ddelio â'r broses. Gall plant deimlo'n ynysig ac â chywilydd, sy'n gallu cael effaith ddinistriol ar eu hiechyd cyffredinol, eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i leihau aildroseddu a chefnogi teuluoedd i adeiladu cymunedau cryf a chadarn yng Nghymru. Mae gwaith yn y maes hwn yn cael ei ddatblygu gan Grŵp Cyswllt Teulu Cymru, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yng Nghymru.

Mae'r Grŵp yn dwyn ynghyd arweinwyr teulu o bob rhan o'r system gyfiawnder yng Nghymru, fel 'siop un stop' i rannu arferion gorau a gwybodaeth ar draws asiantaethau i gefnogi teuluoedd a phobl eraill sy'n bwysig i unigolion sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r Gwasanaeth Ymweld â Mam, sy'n cael ei redeg gan yr Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai (PACT) ac a sefydlwyd yng Ngharchar EF Eastwood Park a Charchar EF Styal, yn hanfodol i helpu i baratoi'r ffordd i famau o Gymru gynnal perthynas gadarnhaol â'u plant drwy gydol eu dedfryd yn y carchar.

Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol o'r Gwasanaeth Ymweld â Mam PACT gan Brifysgol Caerdydd a Cascade yn 2017. Tynnodd y Gwerthusiad sylw at nifer o ganfyddiadau cadarnhaol ar gyfer y menywod a'u plant a'u gofalwyr.

Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid i ddiffinio rhagor o weithgarwch a fydd yn adeiladu ar y cyflawniadau a wnaed drwy'r Glasbrint Cyfiawnder Menywod, gan roi dargyfeirio ac ymyrraeth gynnar wrth galon y dull gweithredu ar gyfer cyfiawnder menywod.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Glasbrint, bydd cymorth parhaus yn cael ei ddarparu ar gyfer gwasanaeth Ymweld â Mam a Dull Braenaru System Gyfan Cymru sy'n darparu pecyn cymorth pwrpasol i fenywod sydd mewn perygl o ymuno â'r system cyfiawnder troseddol neu sy'n gysylltiedig â'r system.



# Plant ag anableddau (erthygl 23)

## Plant anabl

### Gwasanaethau niwrowahaniaeth

Mae gwerthusiad dau gam o gydymffurfiad â'r Cod Ymarfer Statudol ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth wedi cael ei gyhoeddi ac mae'r ail gam sy'n canolbwyntio ar farn rhanddeiliaid wedi dechrau. Darparwyd cymorth ychwanegol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am gydymffurfio, i ddeall a gweithredu gofynion y Cod. Byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a chydymffurfio â'r Cod ac yn gweithredu ar argymhellion a wneir drwy'r broses werthuso. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i ehangu'r Cod presennol i gynnwys cyflyrau niwroddatblygiadol eraill, a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 2026.

Mae cynnydd cynyddol yn y galw am wasanaethau niwrowahaniaeth wedi arwain at wasanaethau presennol yn cael eu llethu. I fynd i'r afael â hyn dechreuodd rhaglen gwella niwrowahaniaeth yn 2022. Prif nodau'r rhaglen yw datblygu cymorth cyn ac ar ôl diagnosis i deuluoedd; gwella amseroedd aros diagnostig; datblygu gweithlu medrus a gwella'r gwaith o gadw cofnodion digidol a chasglu data. Rydym hefyd yn gweithio i gynyddu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, drwy lwybrau hyfforddi cychwynnol a hyfforddiant ôl-gymhwyso.

Rydym wedi comisiynu Gweithrediaeth y GIG yng Nghymru i gynnal adolygiad o wasanaethau asesu plant, ac mae gan bob bwrdd iechyd ei adroddiad ei hun. Mae gwaith i ddatblygu ail-ddylunio gwasanaethau yn mynd rhagddo a bydd gwaith cwmpasu pellach yn mynd i'r afael â mecanweithiau i leihau amseroedd aros a rhoi cymorth ychwanegol i deuluoedd wrth iddynt aros.

Mae'r rhaglen yn cefnogi dull gweithredu integredig sy'n cynnwys addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'n dilyn model datblygu gwasanaeth NYTH.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol sy'n darparu arbenigedd, cyngor ac adnoddau ar gyflyrau niwroddatblygiadol ac yn darparu hyfforddiant gweithlu ar draws sectorau. Darperir cyngor arbenigol hefyd gan Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Niwrowahaniaeth sy'n cyfarfod bob chwarter.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) a'r Cod ADY yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau lle mae barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, y person ifanc a'r rhiant yn ganolog i'r gwaith o gynllunio a darparu cymorth. Mae'r plentyn, y person ifanc a'r rhiant yn cael eu galluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac mae ganddynt hawliau i herio penderfyniadau am ADY, Darpariaeth Dysgu Ychwanegol a materion cysylltiedig. Mae'r system ADY yn cael ei rhoi ar waith fesul cam am bedair blynedd.

Ers 2020 mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei chyllid ar gyfer ADY yn sylweddol, i gefnogi gweithredu, cynyddu adnoddau mewn ysgolion i weithredu'r system ac arwain strategaethau ysgol gyfan i ymgorffori addysg gynhwysol. Mae buddsoddiad cyfalaf wedi'i wneud hefyd.

O dan y Ddeddf ALNET rhaid i bob ysgol a sefydliad addysg bellach yng Nghymru ddynodi Cydlynydd ADY (CADY) sydd ar lefel strategol yn sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu diwallu.

Yn ogystal â chyllido adnoddau ar gyfer y sector addysg drwy'r Tîm Niwrowahanol Cenedlaethol, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu llwybr dysgu proffesiynol ADY ar-lein ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ac athrawon. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gefnogi pob plentyn a pherson ifanc ag ADY. Byddwn yn parhau i adolygu ein cynnig dysgu proffesiynol ADY wrth i'r diwygiadau ADY fynd rhagddynt.

Byddwn yn parhau â'r gwerthusiad ffurfiannol pedair blynedd o weithrediad y system ADY. Dechreuodd yr ymchwil hwn ym mis Ionawr 2023.

**Y Tasglu Hawliau Pobl Anabl**

Nod y Tasglu Hawliau Pobl Anabl yw dileu'r anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl anabl mewn cymdeithas. Mae ffrydiau gwaith o dan y meysydd blaenoriaeth canlynol wedi cael eu hadrodd erbyn hyn:

- Ymgorffori a Deall y Model Cymdeithasol o Anabledd (ledled Cymru)
- Mynediad at Wasanaethau (gan gynnwys Cyfathrebu a Thechnoleg)
- Byw'n Annibynnol: Iechyd
- Byw'n Annibynnol: Gofal Cymdeithasol
- Teithio
- Cyflogaeth ac Incwm
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Plant a Phobl Ifanc
- Mynediad at Gyfiawnder
- Llesiant

Mae gan y Gweithgorau amrywiaeth o randdeiliaid, sy'n cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl, pobl sydd â phrofiad uniongyrchol, rhieni a gofalwyr ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru.

Mae'r gweithgor Plant a Phobl Ifanc wedi canolbwyntio ar feysydd fel gwasanaethau iechyd meddwl plant, addysg, a chymryd rhan mewn cymdeithas. Mae'r Tasglu wedi gweithio gydag ysgolion a Phlant yng Nghymru i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed.

Mae gwaith y tasglu wedi cyrraedd cam cyffrous, ac rydym yn parhau i gael adborth calonogol gan randdeiliaid. Byddwn yn gweithio gyda phobl anabl, sefydliadau pobl anabl ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru i drawsnewid Cymru yn genedl gynhwysol o ran anabledd.

**Cwricwlwm i Gymru – Iaith Arwyddion Prydain**

Mae Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn cael ei chynnwys ochr yn ochr â Chymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill yng nghanllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar gynnydd mewn BSL ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain Byddar yn ogystal â chanllawiau ar gyfer ysgolion sy'n dewis cyflwyno Iaith Arwyddion Prydain fel ail iaith, trydedd iaith neu iaith newydd ar gyfer dysgwyr eraill. Mae Adnoddau ymwybyddiaeth yn ogystal ag adnoddau dysgu iaith a straeon Cymraeg mewn Iaith Arwyddion Prydain ar gael am ddim ar Hwb, platfform dysgu Cymru gyfan.

**Cynnig Gofal Plant Cymru – Grant Cymorth Ychwanegol**

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru wedi cael ei ddylunio i ystyried y rhwystrau y gallai rhieni cymwys eu hwynebu wrth gael mynediad at yr elfen gofal plant. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anableddau neu anghenion iechyd eraill y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae cymorth ar gael drwy Grant Cymorth Ychwanegol y Cynnig Gofal Plant i Gymru (ASG). Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid hwn i helpu i sicrhau bod plant cymwys sydd ag anghenion ychwanegol yn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn yr un ffordd â phlant cymwys eraill.

Mae'r Grant Cymorth Ychwanegol Gofal Plant yn cael ei arwain gan y galw, ond nid oes cap uchaf. Ledled Cymru, mae'r galw am Grant Cymorth Ychwanegol yn amrywio. Er mwyn deall y gwahanol ddulliau a galw, comisiynwyd prosiect ymchwil annibynnol. Dechreuodd y gwaith yn 2023 a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mai 2024. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei hargymhellion i sicrhau bod gwell cymorth ar gael i blant anabl sy'n manteisio ar y Cynnig Gofal Plant a'r gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gofal plant.

**Grant Gofal Plant a Chwarae**

Drwy elfen gofal plant a chwarae'r Grant Plant a Chymunedau, rydym yn ariannu awdurdodau lleol yn flynyddol i gefnogi darpariaeth gofal plant a chwarae a mynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd yn eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Rhan o bwrpas y grant hwn yw sicrhau a rhoi ystyriaeth a chefnogaeth arbennig i anghenion gofal plant a chwarae teuluoedd incwm isel; teuluoedd â phlant ag anghenion ychwanegol; a theuluoedd sy'n dymuno manteisio ar ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Polisi Chwarae**

Cymru oedd y wlad gyntaf i ddeddfu, gan warantu hawl plant i chwarae drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn sicrhau digon o gyfleoedd, drwy'r Ddyletswydd Cyfleoedd Chwarae.

Rhoddwyd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu a, chyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau digon o gyfleoedd i blant chwarae yn eu hardaloedd. Gelwir hyn bellach yn 'Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'.

Mae'r Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol, sef '[Cymru – Gwlad lle mae cyfle i chwarae]' yn nodi'r hyn y mae angen i awdurdodau lleol ei ystyried wrth asesu a sicrhau digon o gyfleoedd chwarae. Yn unol â Diwallu Anghenion Amrywiol, dylai awdurdodau lleol anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac yn annog pob plentyn i chwarae a dod ynghyd, os yw'n dymuno gwneud hynny.

**Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae**

Sefydlwyd y [Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae] i fynd i'r afael â newyn yn ystod y gwyliau drwy roi bwyd / byrbrydau am ddim mewn cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau. Rydym yn darparu cyllid i awdurdodau lleol drwy grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan ar gyfer parhad y Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae, gan ddychwelyd i gyllido bwyd, yn ogystal â'r mynediad hollbwysig at gyfleoedd chwarae.

**Dyraniad Grant / Anabledd – Prosiect Symud Ymlaen Whizz-Kidz**

Nod y prosiect Hyfforddiant Sgiliau Cadair Olwyn Symud Ymlaen yw sicrhau bod pobl ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn yn cael y sgiliau i ddefnyddio eu cadair olwyn yn ddiogel ac yn hyderus drwy chwaraeon a rhaglenni sgiliau sy'n seiliedig ar symud mewn lleoliadau iechyd ac addysg, gan sicrhau eu bod yn gallu symud, ac yn gallu cymryd rhan.

Mae tîm Whizz Kidz wedi bod yn gweithio ar adeiladu rhwydweithiau gyda phartneriaid cyflenwi fel [Chwaraeon Anabledd Cymru] ac yn gweithio i sicrhau bod digon o hyfforddwyr medrus yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i weithio i wella bywydau plant anabl. Bydd pwysigrwydd cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer integreiddio cymdeithasol a datblygiad unigol plant anabl a sicrhau hawl plant anabl i gael eu clywed ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnynt, yn ystyriaeth allweddol yn ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.



# Iechyd a llesiant sylfaenol (erthyglau 6, 18 (3), 24, 26, 27 (1-3) a 33)

## Iechyd a gwasanaethau iechyd

### Gofal iechyd pediatrig

Yn 2022 fe wnaethom ddatblygu canllawiau ar reoli, trosglwyddo ac atebolrwydd gwasanaethau gofal iechyd i blant a phobl ifanc wrth iddynt symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Nod y canllawiau yw sicrhau bod pobl ifanc yn cael profiad gwell o bontio drwy wella'r ffordd y mae gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu.

Byddwn yn adolygu trefniadau'r byrddau iechyd ar gyfer pontio a throsglwyddo o wasanaethau pediatrig i wasanaethau oedolion i sicrhau ansawdd a chysondeb ar draws y GIG yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun cenedlaethol ar gyfer adfer gofal wedi'i gynllunio Trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros y GIG ym mis Ebrill 2022, lle'r oeddem yn cydnabod yn benodol yr angen i flaenoriaethu amseroedd aros plant (tudalen 23) "Sicrhau bod gwasanaethau plant yn cael eu blaenoriaethu"

Rydym wedi gweld bod yr adferiad wedi bod yn fwy ar gyfer amseroedd aros hir plant nag oedolion (gan gymharu dyddiad Ebrill 2022 â mis Ebrill 2024. Mae llwybrau plant (dan 18 oed) wedi gostwng o ychydig dros 5,000 ym mis Ebrill 2022, i ychydig dros 1,220 ym mis Ebrill 2024, sef gwelliant o dros 75%. Dros yr un cyfnod, mae amseroedd aros hir dros ddwy flynedd ar gyfer llwybrau oedolion (dros 18 oed) wedi gwella 68%. Mae gwahaniaeth ar draws byrddau iechyd gyda Betsi Cadwaladr yn cyfrif am 62% o'r holl lwybrau plant dros ddwy flynedd yn bennaf mewn orthodonteg, llawfeddygaeth y geg.

### Anghydraddoldebau iechyd

Byddwn yn parhau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol iechyd er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar sut gall y ffactorau ehangach fel gwaith, addysg a thai wella iechyd a thegwch.

Mae'r Rhaglen Plant Iach Cymru yn nodi pryd y bydd pob teulu sydd â phlant rhwng 0 a 7 oed yn dod i gysylltiad ag ymwelwyr iechyd. Mae'r cysylltiadau cyffredinol hyn yn cynnwys sgrinio, imiwneiddio a monitro, yn ogystal â chefnogi datblygiad plant. Drwy ddatblygu a darparu gwasanaethau gyda set graidd o gysylltiadau cyffredinol Cymru Gyfan, bydd byrddau iechyd yn lleihau'r posibilrwydd y bydd plant a theuluoedd yn colli allan ar fanteision rhaglen ymyrraeth gynnar ac iechyd y cyhoedd.

Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd data a chyflawnder Rhaglen Plant Iach Cymru. Dros amser, rydym yn disgwyl i'r rhaglen gyfrannu at leihau annhegwch drwy sicrhau y darperir gwasanaeth cyffredinol a thargedu gwell gwasanaethau at y rhai y mae angen cymorth arnynt.

Rydym yn cefnogi ymateb traws-sector ar benderfynyddion ehangach drwy'r Grŵp Cydlynu Adeiladu Cymru Iachach, sydd wedi edrych ar sut y gellir cyflwyno polisïau Llywodraeth Cymru ar brydau ysgol am

ddim a'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Maent hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso cynllun peilot a gwerthusiad cynyddu incwm ar gyfer pobl ifanc yng Nghwm Taf Morgannwg.

Mae ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys camau gweithredu rydym yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd sy'n wynebu pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae ein Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn cydnabod yr anghydraddoldebau iechyd a brofir gan bobl hŷn, ac mae'n cynnig amrywiaeth o gamau gweithredu sydd wedi'u targedu at wella canlyniadau iechyd pobl LDHTC+.

**Gwasanaethau iechyd sydd ar gael i blant sy'n ceisio lloches a phlant mudol**

Mae cymorth iechyd i geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n cyrraedd Cymru yn unol â Chanllawiau 2018 Llywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Iechyd ar Iechyd a Llesiant Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid.

Mae Straen Trawmatig Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw gwella iechyd a llesiant pobl o bob oed sy'n byw yng Nghymru sydd mewn perygl o ddatblygu neu sydd ag anhwylder straen wedi trawma neu anhwylder straen wedi trawma cymhleth. Mae Straen Trawmatig Cymru yn gweithio gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol, yn ogystal â chydweithwyr ar draws y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, i wella mynediad at therapïau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pobl sydd wedi profi digwyddiadau trawmatig.

Mae menter Straen Trawmatig Cymru yn cynnwys ffrwd waith benodol ar bobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru. Mae hyn wedi cael ei ddatblygu i wella mynediad at gymorth iechyd meddwl o ansawdd uchel ar gyfer pobl sydd wedi'u gorfodi i fudo ac sydd wedi profi digwyddiadau trawmatig. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau wedi cael eu cyfieithu a'u rhannu â rhanddeiliaid drwy wefan Straen Trawmatig Cymru i gefnogi iechyd meddwl, llesiant a sefydlogi cychwynnol ar gyfer pobl sy'n ceisio lloches yng Nghymru.

Mae Llinell Gymorth Iechyd Meddwl CALL hefyd ar gael i gefnogi'r rheini sy'n cyrraedd Cymru a'u teuluoedd. Mae gan CALL fynediad at Linell Iaith a gellir ei ddefnyddio pan fyddai'n well gan rywun gael cymorth mewn iaith ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae posteri sy'n rhannu gwybodaeth ar linell gymorth CALL wedi cael eu cyfieithu i sawl iaith.

Rydym wedi parhau i hyrwyddo pwysigrwydd mynediad at wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Mae Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (WITS) wedi datblygu modiwl Dysgu E-Ddysgu: Gweithio gyda chyfieithwyr ar y pryd a chyfieithwyr yn y sector cyhoeddus. Mae'r modiwl hwn ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda chyfieithwyr ar y pryd neu gyfieithwyr. Rydym yn hyrwyddo argaeledd yr hyfforddiant newydd ymhlith partneriaid.

Bydd y Fframwaith Integreiddio Mudol hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd chwarae rhan yn y gwaith o integreiddio Ymfudwyr mewn gwasanaethau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

**Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau hunaniaeth rhywedd i bobl ifanc**

Rydym yn comisiynu gwasanaethau hunaniaeth rhywedd ar gyfer pobl ifanc o GIG Lloegr ac mae GIG Cymru yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Dysfforia Rhywedd yn Lloegr. Mae gwaith y Rhaglen eisoes wedi cael ei siapio gan ganfyddiadau adroddiad interim Cass (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2022), ac adroddiad terfynol Cass (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024).

Mae'r Rhaglen Trawsnewid eisoes wedi gwneud cynnydd da yn dilyn yr Adolygiad Cass interim. Mae hyn yn cynnwys dau wasanaeth newydd i blant a phobl ifanc a agorodd ym mis Ebrill.

Bydd hyd at 8 canolfan ranbarthol yn cael eu comisiynu a bydd Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru yn gweithio gyda GIG Lloegr i ystyried canolfan ranbarthol yng Nghymru.

**Diffyg maeth, ansicrwydd bwyd, gordewdra a phlant sydd dros bwysau**

Mae'r Rhaglen Mesur Plant wedi dangos bod dros chwarter y plant yng Nghymru rhwng pedair a phump oed naill ai dros bwysau neu'n ordew.

Mae Cychwyn Iach a'r Cynllun Llaeth Meithrin yn helpu teuluoedd ifanc cymwys i brynu ffrwythau, llysiau, llaeth a llaeth fformiwla, yn ogystal â Fitaminau Cychwyn Iach am ddim. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y Cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru yn 78% ar hyn o bryd, ac mae'n parhau i dyfu'n gyson. Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant, rhwydweithio a deunyddiau cefnogi i weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar dalebau Cychwyn Iach.

Rydym yn cefnogi ymgyrch ysgol Veg Power i annog plant i fwyta mwy o lysiau. Yn 2024, bydd hyn yn cynnwys cymorth i greu a darparu adnoddau ymgyrchu dwyieithog ym mhob ysgol gynradd a gynhelir yng Nghymru.

Mae'r cynlluniau peilot ar gyfer plant a theuluoedd, sydd â'r brand PIPYN, wedi'u targedu at blant ifanc a'u teuluoedd. Mae tri chynllun peilot yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful ac Ynys Môn, ardaloedd a ddewiswyd oherwydd eu niferoedd uchel o blant dros bwysau a gordew. Gall teuluoedd â phlant ifanc gymryd rhan mewn digwyddiadau lleol a gynhelir gan eu tîm PIPYN sy'n rhoi cyfleoedd rhad ac am ddim a hwyliog i fod yn egnïol a dysgu am fwyta'n iach. Mae PIPYN hefyd yn darparu cymorth unigol wedi'i deilwra i deuluoedd i helpu plant ifanc i gael pwysau iach. Byddwn yn ariannu'r cynllun peilot PIPYN tan fis Mawrth 2025. Byddwn yn gwerthuso'r cynlluniau peilot i benderfynu a ddylid ehangu'r dull i ragor o leoliadau ledled Cymru.

Mae'r ymyriad yn seiliedig ar 10 Cam i Bwysau Iach Iechyd Cyhoeddus Cymru, sef Pob Plentyn Cymru, sy'n rhoi cyngor i rieni a gofalwyr i helpu eu plentyn i gyrraedd pwysau iach erbyn iddo ddechrau yn yr ysgol. Mae'r gweithgareddau teuluol yn digwydd o fewn dull system gyfan ehangach sy'n ceisio ymgysylltu a chymell rhanddeiliaid blynyddoedd cynnar mewn ymdrechion ar y cyd i leihau anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig â gordewdra ymysg plant.

Bydd y Rhaglen Amgylchedd Bwyd Iach yn cefnogi ein huchelgeisiau a nodir yn Pwysau Iach, Cymru Iach i leihau'r gorbwysedd a gordewdra yng Nghymru. Bydd y rhaglen dau gam yn ymdrin â hyrwyddiadau a chyfyngiadau lleoliad gyda cham diweddarach o bosibl yn cynnwys cyfyngiadau ar ddiodydd egni sy'n gysylltiedig ag oedran, labelu calorïau ar gyfer y sector y tu allan i'r cartref a chyfyngiadau sy'n ymwneud ag agosrwydd siopau tecawê i ysgolion.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu a gweithredu Cynnig Bywiog bob Dydd ar gyfer ysgolion sy'n cwmpasu'r diwrnod ysgol cyfan.

Mewn ymateb i'r pwysau cynyddol o ran costau byw ar deuluoedd a'n huchelgais i fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn mynd yn llwglyd yn yr ysgol, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd i bob plentyn erbyn mis Medi 2024. O fis Ionawr 2024 ymlaen, mae tua 149,000 o ddysgwyr yn gymwys ar gyfer y cynnig. Mae dros 15 miliwn o brydau ysgol am ddim ychwanegol wedi cael eu rhoi ers y lansiad ym mis Medi 2022.

Ni yw'r unig wald yn y DU sy'n cynnig cynllun brecwast am ddim i blant ym mhob ysgol gynradd, ac mae ein cynllun Llaeth Ysgol yn cynnig y lefel uchaf o gymhorthdal ar draws gwledydd y DU, gan roi dros 9 miliwn o brydau llaeth am ddim neu'n rhatach dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw statws mudo plentyn yn effeithio ar fynediad at y cynlluniau hyn, gan eu bod ar gael i bob plentyn oed cynradd.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd bwerau yn ôl disgresiwn i allu rhoi prydau bwyd heb godi tâl. Rydym yn disgwyl y bydd pob plentyn yn cael cynnig pryd o fwyd os bydd yn cyrraedd yr ysgol yn llwglyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu'r safonau bwyd ysgol presennol sy'n seiliedig ar fwyd a maethynnau er mwyn iddynt fod yn addas i'r diben ac adlewyrchu argymhellion deiet y Llywodraeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y cinio am ddim (yn ogystal â'r brecwast lle mae

ysgolion yn darparu cynllun brecwast am ddim Llywodraeth Cymru) y mae plant oed cynradd yn ei gael yn rhoi'r maeth gorau iddynt a'r dognau priodol i gefnogi iechyd a llesiant da. Bydd yn gwneud y gorau o'r cynnig maethol sydd ar gael i ddisgyblion oed uwchradd.

**Bwydo ar y Fron**

Mae Y 1000 Diwrnod Cyntaf yn rhaglen gwella iechyd dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cydnabu Prif Weinidog Cymru Vaughan Gething AS bwysigrwydd y 1000 Diwrnod Cyntaf a phenodwyd Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r rhaglen hon. Sefydlwyd y rhaglen mewn ymateb i dystiolaeth gref sy'n awgrymu bod y cyfnod yn ystod beichiogrwydd a hyd at ail ben-blwydd y plentyn yn cynnig y potensial mwyaf ar gyfer effaith o ran gwella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau. Un o nodau allweddol y rhaglen yw cefnogi'r system i ddeall a gweithredu ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae hyn yn caniatáu i weithwyr proffesiynol gefnogi rhieni i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant.

Rydym yn cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy'r Strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach i weithredu Cynllun Gweithredu Bwydo ar y Fron Cymru Gyfan. Bydd hyn yn sicrhau bod y teuluoedd hynny sy'n dymuno bwydo ar y fron yn cael yr wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt, yn ogystal â chefnogi ymdrechion i leihau anghydraddoldebau iechyd ehangach a sicrhau bod bwydo ar y fron yng Nghymru yn norm sy'n cael ei dderbyn yn ddiwylliannol.

**Iechyd Meddwl**

**Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi dynodi ei argymhellion ar gyfer iechyd meddwl fel maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu gan y Wladwriaeth sy'n Barti. Ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn, rydym wedi gwahodd rhanddeiliaid i roi adborth drwy'r ymgynghoriadau ar y strategaethau drafft ar Iechyd Meddwl a Llesiant ac Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed.**

Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl a mynd i'r afael ag amseroedd aros yn flaenoriaeth i Gymru. Mae Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn strategaeth drawslywodraethol, sy'n cydnabod pwysigrwydd penderfynyddion ehangach iechyd meddwl. Yn ein Cynllun Cyflawni, mae blaenoriaeth allweddol i wella iechyd meddwl a llesiant a lleihau anghydraddoldebau drwy ganolbwyntio ar gryfhau ffactorau amddiffynnol.

Rydym wedi neilltuo cyllid i gefnogi'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gofal mewn argyfwng, ac iechyd meddwl amenedigol.

Fe wnaethom lansio'r Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ym mis Tachwedd 2022. Mae'r cynllun yn cynnwys y GIG, awdurdodau lleol, a'r sector gwirfoddol. Mae'r cynllun yn cynnwys blaenoriaethau penodol ar gyfer llesiant staff, recriwtio, cadw staff a hyfforddiant.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd, yn ogystal â Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed newydd i Gymru. Fel rhan o'r broses honno, gofynnwyd i randdeiliaid bwyso a mesur Sylwadau Terfynol CCUHP ac ystyried a oedd y strategaethau drafft yn rhoi sylw iddynt.

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd yn nodi pedwar datganiad gweledigaeth, ac mae un ohonynt yn canolbwyntio'n benodol ar weithredu ar draws y Llywodraeth i ddiogelu iechyd meddwl a llesiant da. Mae'r strategaeth a'r pedwar datganiad gweledigaeth yn seiliedig ar nifer o egwyddorion craidd, sy'n cynnwys: defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau (parchu, diogelu a chyflawni hawliau unigolion yn y gofal a gânt); bod yn ystyriol o drawma (defnyddio'r Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma i helpu pawb yng Nghymru i ddeall sut gall trawma ac adfyd effeithio ar bobl a'u rôl o ran cefnogi'r rheini y mae trawma yn effeithio arnynt); a chanolbwyntio ar degwch mynediad, profiad a chanlyniadau heb wahaniaethu, a sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn briodol ac ar gael i bawb.

Trwy ddeall y rhwystrau sy'n wynebu pobl a rhoi systemau angenrheidiol ar waith, mae modd sicrhau tegwch o ran profiadau a chanlyniadau i bobl sy'n gofyn am gymorth. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen sicrhau bod cymorth a gwasanaethau'n briodol yn ddiwylliannol ac o ran oedran, yn ogystal â sicrhau eu bod yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg, pobl o leiafrifoedd ethnig, cymunedau LGBTQ+, pobl â cholled synhwyraidd, pobl niwrowahanol a phobl sy'n wynebu tlodi.

Bydd camau gweithredu yn y strategaeth yn cefnogi'r gwaith o ganolbwyntio ar hyrwyddo tegwch, gan gynnwys ymrwymiad i ddatblygu datganiadau ansawdd ar gyfer CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, sy'n gosod y safonau ar gyfer yr hyn y mae disgwyl i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol yng Nghymru ei gyflawni i sicrhau gwasanaethau iechyd meddwl o ansawdd da. Bydd y datganiadau ansawdd hyn yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn galluogi mynediad teg at wasanaethau i'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig (fel y disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010) a'r iaith sy'n cael ei ffafrio.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi Cynlluniau Cyflawni ategol ar gyfer y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed.

**Diwygio Deddf Iechyd Meddwl**

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno y dylai deddfwriaeth Llywodraeth y DU i ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 ymestyn i Gymru, gyda rhai eithriadau fel ynghylch Cynlluniau Gofal a Thriniaeth lle mae gennym fesurau ar waith eisoes. Fodd bynnag, yn ystod haf 2023, cadarnhaodd Llywodraeth y DU na fydd y ddeddfwriaeth hon yn cael ei chyflwyno. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi cyflwyno Bil Aelod ar Ddatblygu'r Bil Safonau Gofal Iechyd Meddwl (Cymru). Byddwn yn gweithio gyda'r Aelod i edrych ar sut y gall y ddeddfwriaeth hon gefnogi nodau'r Llywodraeth o ran gwella profiad a gofal pobl sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael.

**Darpariaeth i gleifion mewnol**

Mae byrddau iechyd yn parhau i adolygu pob agwedd ar gapasiti gwelyau iechyd meddwl ac adolygu pob lleoliad yn gyson yn seiliedig ar angen clinigol. Lle bo'n bosibl, ein nod yw sicrhau bod pobl yn cael eu gofal yn y gymuned leol yn agos at eu teulu a'u ffrindiau heb orfod mynd i'r ysbyty.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl arbenigol newydd, comisiynodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru y gwaith o fodelu galw a chapasiti cleifion mewnol ar gyfer darpariaeth cleifion mewnol. Bydd y strategaeth hon yn cael ei chyhoeddi yn 2024 i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

**Eiriolaeth**

Rydym yn cydnabod rôl hanfodol gwasanaethau eiriolaeth statudol i gefnogi pobl i ddeall eu hawliau ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch triniaeth a gofal.

Mae Rhan 4 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn gosoddyletswydd statudol ar fyrddau iechyd i ddarparu gwybodaeth am hawl ac argaeledd gwasanaethau eiriolaeth ac i gofnodi gwybodaeth am ddarpariaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (IMHA). Nod ein cyllideb iechyd meddwl wedi'i neilltuo yw sicrhau bod byrddau iechyd yn gallu ehangu gwasanaethau i ddiwallu anghenion iechyd meddwl, gan gynnwys darparu gwasanaethau eiriolaeth. O ran Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol, rydym wedi parhau i fuddsoddi mwy mewn cymorth iechyd meddwl.

Rydym yn monitro cydymffurfiad â'r ddyletswydd. Ar gyfer byrddau iechyd sydd wedi adrodd, mae data yn dangos eu bod yn bodloni'r safon bod pob unigolyn yn cael cyswllt ag Eiriolwr o fewn pum diwrnod gwaith i'w cais.

**Cyflyrau iechyd difrifol ac iechyd meddwl**

Mae'r contract craidd ar gyfer meddygon teulu yn mynnu eu bod yn cofnodi gwybodaeth am bobl sydd â salwch meddwl difrifol a bod ganddynt hanes o bwysedd gwaed uchel a chyflyrau / risgiau iechyd corfforol eraill.

Rydym yn disgwyl i bobl sydd â chyflwr iechyd corfforol cronig allu cael gafael ar gymorth seicolegol yn ôl lefel eu hangen a byddwn yn parhau i weithio gyda'r GIG i gefnogi pobl sydd â chyflwr iechyd corfforol i reoli eu cyflwr yn dda.

Byddwn yn cynnwys camau gweithredu i wella iechyd corfforol unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl fel rhan o'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd i Gymru.

**Gwasanaethau iechyd meddwl therapiwtig yn y gymuned**

Fel rhan o'n Cynlluniau Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, rydym wedi cynyddu'r cyllid i wella mynediad, ansawdd ac amrywiaeth o therapïau seicolegol sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddull ysgol gyfan o wreiddio llesiant emosiynol a meddyliol fel canllawiau statudol i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r fframwaith yn rhoi cyfarwyddyd i fynd i'r afael ag anghenion llesiant emosiynol a meddyliol yr holl blant a phobl ifanc, yn ogystal â staff yr ysgol fel rhan o'r gymuned ysgol gyfan. Mae'n rhoi cyfle i ysgolion, drwy ddull gwella parhaus, hyrwyddo llesiant meddyliol cadarnhaol, atal salwch meddwl a chymryd camau i gefnogi unigolion lle bo angen.

Mae'r dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol a'r fframwaith NYTH yn ganllawiau ategol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc ar draws lleoliadau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r fframwaith dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn darparu canllawiau statudol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc mewn sefydliadau addysgol, ac mae fframwaith NYTH yn ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

**Gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u teilwra**

Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cynnwys ffocws penodol ar gefnogi grwpiau agored i niwed a lleihau anghydraddoldebau. Yn unol â'r ymrwymiad yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, rydym yn parhau i weithio gyda'n Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleiafrifoedd Ethnig Iechyd Meddwl i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac i gefnogi mynediad gwell at wasanaethau.

Mae hyrwyddo cymhwysedd diwylliannol yn flaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Cyflenwi Iechyd Meddwl Cymru. Bydd hyrwyddo cymhwysedd diwylliannol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant newydd i Gymru – a bydd hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan Gynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Mae meysydd gwaith allweddol eraill yn cynnwys datblygu canllawiau (gan Gwelliant Cymru) i wella mynediad at ymyriadau seicolegol a'u darparu i bobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Mae'r Tasglu Hawliau Anabledd wedi bod yn ceisio gwreiddio dealltwriaeth o'r Model Cymdeithasol o Anabledd ledled Cymru a mynediad at wasanaethau fel rhan o'i waith. Mae'r gweithgor Plant a Phobl Ifanc yn ymdrechu i ganfod yr heriau y mae plant anabl yn eu hwynebu ym mhob agwedd ar eu bywydau. Bydd argymhellion y grŵp a gynhyrchir ar y cyd yn ceisio chwalu rhwystrau a gwella canlyniadau i blant anabl yng Nghymru.

Mae'r Tasglu wedi darparu hyfforddiant Model Cymdeithasol o Anabledd i Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru, er mwyn i leoliadau gofal cymdeithasol ac iechyd gael eu harolygu drwy lens y Model.

Gan gydnabod anghenion grwpiau penodol, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ariannu Straen Trawmatig Cymru sydd â'r nod o wella iechyd a llesiant pobl o bob oed sy'n byw yng Nghymru ac sydd mewn perygl o ddatblygu neu'n delio gydag anhwylder straen wedi trawma neu anhwylder straen wedi trawma cymhleth. Mae gan Straen Trawmatig Cymru ffrydiau gwaith penodol (sy'n cynnwys y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol) sy'n

canolbwyntio ar anghenion ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr, plant a phobl ifanc; ymosodiadau rhywiol, a phobl yn y system cyfiawnder troseddol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu rhagor o gyllid i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, gan ganolbwyntio'n benodol ar geiswyr lloches a ffoaduriaid, a phobl sy'n camddefnyddio sylweddau

**Gorgynrychiolaeth plant sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifol, plant ag awtistiaeth a phlant ag anableddau dysgu mewn lleoliadau gofal iechyd meddwl i gleifion mewnol**

Mae'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant ddrafft yn seiliedig ar nifer o egwyddorion ategol allweddol. Un o'r rhain yw tegwch mynediad, profiad a chanlyniadau heb wahaniaethu a sicrhau bod gwasanaethau a chefnogaeth yn hygyrch ac yn briodol i bawb. Mae hyn yn golygu deall y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu, a rhoi systemau angenrheidiol ar waith fel bod tegwch o ran profiadau a chanlyniadau pan fydd pobl yn cael cymorth. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i'r cymorth a'r gwasanaethau fod yn briodol yn ddiwylliannol ac yn briodol i oedran, ac yn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg, pobl o leiafrifoedd ethnig, cymunedau LHDTC+ a phobl â cholled synhwyraidd. Mae'r Strategaeth ddrafft yn tynnu sylw'n benodol at y ffaith y bydd angen i wasanaethau ddiwallu anghenion grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, fel pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, pobl sydd â phrofiad o ofal, pobl niwrowahanol a phobl sy'n profi tlodi a phobl sy'n ddigartref.

**Achosion sylfaenol iechyd meddwl gwael, anhwylderau bwyta a hunan-niweidio**

Mae sylw penodol ar y materion hyn yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant ddrafft newydd i Gymru a chefnogi asesiadau effaith, yr ymgynghorwyd arnynt.

Rydym yn ariannu BEAT i ddarparu Llinell Gymorth Cymru a gwasanaethau cefnogi cyfoedion ar gyfer anhwylderau bwyta. Yn ogystal â darparu mynediad a chyngor cynnar gwerthfawr, maent yn cefnogi llawer o'r rhai sy'n aros i gael eu gweld gan glinigwyr ac maent yn rhan bwysig ac annatod o'r gwasanaethau anhwylderau bwyta yma yng Nghymru.

Rydym yn disgwyl i bob bwrdd iechyd ddarparu cymorth arbenigol, amlddisgyblaethol i bobl ag anhwylderau bwyta. Gyda chyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, mae byrddau iechyd wedi addasu ac ehangu gwasanaethau ac wedi recriwtio staff ychwanegol i ymateb i'r cynnydd digynsail yn y galw. Dangosodd ein hadolygiad diweddaraf o wasanaethau fod pob bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd o ran gweithio tuag at gyflawni safonau NICE ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta, ymyrraeth gynnar ac i sicrhau nad oes neb yn aros mwy na 4 wythnos am asesiad.

Mae byrddau iechyd hefyd yn buddsoddi'n sylweddol yn y trydydd sector i ddarparu cymorth iechyd meddwl. I gryfhau'r ddarpariaeth hon yn 2021/22, fe wnaethom ddarparu cyllid ychwanegol i fyrddau iechyd ei gomisiynu'n uniongyrchol gyda'r trydydd sector. Mae'r swm hwn yn cael ei ddarparu i fyrddau iechyd yn rheolaidd ac mae wedi cael ei gynnwys yn eu dyraniad o 2023/24.

**Achosion sylfaenol ac atal**

Cafodd y fframwaith NYTH ei gyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc, i greu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar wasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gymryd golwg gyfannol ar benderfynyddion ehangach iechyd meddwl a llesiant. Mae hyn yn cynnwys ymyrryd yn gynnar ac atal yn ogystal â gwasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyfeirio plant a'u teuluoedd at y cymorth iawn, ar yr adeg iawn, yn y ffordd iawn drwy ddulliau 'dim drws anghywir' fel gwella llwybrau at gymorth, cynyddu mynediad cynnar at arbenigedd a chyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Mae ein fframwaith Dull Ysgol Gyfan yn hybu llesiant meddyliol cadarnhaol, yn atal salwch meddwl ac yn cymryd camau i gefnogi unigolion lle bo angen. Mae hyn yn cyd-fynd â fframwaith NYTH i ddarparu canllawiau ategol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant a phobl ifanc ar draws lleoliadau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

**Cymorth i Blant sydd â Phrofiad o Ofal**

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gronfa 5 mlynedd ar gyfer ein Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n canolbwyntio'n gryf ar atal ac ymyrryd yn gynnar drwy ddatblygu chwe model cenedlaethol o ofal integredig. Mae un o'r chwe model yn canolbwyntio ar Gefnogi Teuluoedd i aros gyda'i gilydd, a chymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal. Mae'n ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu gweithgareddau sy'n cyd-fynd â fframwaith NYTH ac o fewn cyd-destun strategol a rennir sy'n cynnwys blaenoriaethau gwasanaethau plant awdurdodau lleol ac yn gweithio ar draws y rheini.

Dylai'r 'Model Gofal' weithio'n gadarnhaol gyda theuluoedd i'w helpu i aros yn ddiogel gyda'i gilydd ac atal yr angen i blant fynd i ofal. Gall hyn gynnwys amgylchiadau lle mae gan blant anghenion iechyd, ymddygiad neu ofal cymhleth, lle dylai'r model ddarparu ymateb iechyd, gofal ac addysgol integredig.

O dan 'Hyrwyddo Iechyd a Llesiant Emosiynol Da' gofynnir i'r rhanbarthau fuddsoddi mewn gwasanaethau ar draws pob oed yn y boblogaeth gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n ategu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl acíwt fel gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed.

**Atal hunanladdiad a hunan-niweidio**

Y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed newydd i Gymru yw olynydd strategaeth deng mlynedd flaenorol Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Nghymru, sef Siarad â fi 2.

Mae'r strategaeth hon ar wahân ond yn gysylltiedig â'n Strategaeth Iechyd Meddwl newydd. Mae'n gysylltiedig oherwydd bod cael problem iechyd meddwl yn ffactor risg ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio. Fodd bynnag, mae strategaeth ar wahân ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru yn cydnabod nad yw'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n marw drwy hunanladdiad yn cael eu nodi fel rhai sydd â diagnosis o gyflwr iechyd meddwl.

Bwriad y strategaeth 10 mlynedd newydd yng Nghymru yw lleihau nifer a chyfraddau'r marwolaethau oherwydd hunanladdiad sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n cynnwys llwybr penodol sy'n canolbwyntio ar roi cymorth i bobl sy'n hunan-niweidio ac i wella'r cymorth i bobl sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad. Mae'r strategaeth hon wedi'i rhannu'n 6 amcan lefel uchel.

Mae'r amcan cyntaf yn canolbwyntio ar dystiolaeth a'r angen i ddeall yn well pam mae pobl yn niweidio eu hunain ac yn lladd eu hunain.

Yn 2022, fe wnaethom gyflwyno Gwyliadwriaeth Amheuaeth o Hunanladdiad Amser Real (RTSSS) yng Nghymru i roi gwybodaeth i helpu partneriaid i dargedu atal, sicrhau bod cymorth ar gael, ac i ymateb pan fo angen. Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar 11 Ionawr 2024, y gallwn ei rannu â chi.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd, nodwyd bod angen data, tystiolaeth a gwybodaeth fwy cadarn ynglŷn â hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru i lywio polisïau a gwasanaethau.

Mae Amcan dau yn canolbwyntio ar yr angen i ddod ag arweinwyr o bob rhan o'r llywodraeth a'r tu allan i'r Llywodraeth at ei gilydd i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n arwain at hunanladdiad a lleihau mynediad at ddulliau hunanladdiad.

Rydym wedi targedu cyllid tuag at sefydlu tîm atal hunanladdiad a hunan-niwed o fewn Gweithrediaeth y GIG. Gydag arweinwyr rhanbarthol penodol, rydym wedi gallu cryfhau trefniadau partneriaeth ledled Cymru i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i atal hunanladdiad a hunan-niweidio, a chynnig cymorth i'r rheini y mae hyn yn effeithio arnynt.

Rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth i edrych ar ffyrdd o fynd i'r afael â rhai o'r prif faterion sy'n gysylltiedig â thrallod emosiynol fel straen ariannol, iechyd meddwl gwael a chamddefnyddio sylweddau. Rydym hefyd yn cymryd camau i wella diogelwch ar-lein ac yn cyfyngu ar yr anogaeth a'r cymorth i hunan-niweidio drwy ddarparu deddfwriaeth a chyfleoedd polisi newydd. Mae hyn yn cynnwys sylw penodol ar wella diogelwch ar-lein i blant a phobl ifanc.

Mae ein trydydd amcan yn ymwneud â defnyddio dull wedi'i dargedu i gynnig cymorth i'r rheini sydd ei angen fwyaf ac yn y mannau lle maen nhw'n ymgysylltu. Gwyddom y bydd 8 y cant o bobl ifanc 14 i 19 oed yn hunan-niweidio ac mai dyma'r ail brif achos marwolaeth yn y boblogaeth 15 i 19 oed a bod rhai plant yn arbennig o agored i niwed gyda phlant ag Anhwylderau yn y sbectrwm awtistig (ASD) sy'n profi mwy na dwywaith y risg o hunanladdiad na phobl ifanc heb ASD a bod hunan-niweidio yn digwydd yn gyson mewn cymunedau difreintiedig. Mae ein Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sy'n cyd-fynd â'r strategaeth ddrafft yn cynnwys rhagor o dystiolaeth am y risgiau sy'n cysylltu plant a phobl ifanc â hunanladdiad a hunan-niweidio. Am y rheswm hwn, maent wedi cael eu cynnwys fel grŵp risg uchel sy'n golygu bod modd cymryd camau wedi'u targedu i'w cefnogi.

Mae amcan pedwar yn adeiladu ar y dull wedi'i dargedu o dan amcan tri, gan gydnabod bod gennym ni oll rôl i'w chwarae yn rhoi cymorth i'r rhai sydd ei angen.

Byddwn yn nodi cyfleoedd i wella'r cynnig cyffredinol o hyfforddiant a chymorth ac yn ddiweddar mae Gweithrediaeth GIG Cymru wedi datblygu e-fodiwl cyffredinol Ymwybyddiaeth o Hunanladdiad sydd ar gael ar y llwyfannau hyfforddi ar gyfer holl staff y GIG a'r sector arall yng Nghymru.

Mae ein pumed amcan yn cydnabod yr angen i ddileu stigma ynghylch hunanladdiad a hunan-niweidio, sy'n aml yn gallu bod yn rhwystr i bobl sy'n gofyn am gymorth. Yr uchelgais yw gwella ansawdd y gefnogaeth fel ei bod yn fwy tosturiol. Mae'r amcan hefyd yn cydnabod y gall profedigaeth ar ôl hunanladdiad fod yn arbennig o ddinistriol, ac mae'n hanfodol bod pobl yn gallu cael gafael ar gymorth.

Dyna pam ein bod wedi comisiynu Sefydliad Jac Lewis i ddarparu gwasanaeth cynghori a chydgysylltu arbenigol newydd i ymateb i'r rheini sydd wedi dod i gysylltiad â marwolaeth sydyn anesboniadwy, sydd wedi cael eu heffeithio gan hynny, neu sydd mewn profedigaeth oherwydd marwolaeth sydyn anesboniadwy a allai fod yn hunanladdiad posibl.

Bydd y Gwasanaeth Cyswllt a Chyngor Cenedlaethol hwn yn sicrhau bod cymorth cyson, amserol a rhagweithiol yn cael ei gynnig i bobl sy'n cael eu heffeithio gan farwolaethau sydyn sy'n anesboniadwy neu sy'n cael eu hamau o hunanladdiad.

Mae ein chweched amcan a'n nod olaf yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan ein cyfryngau i'w chwarae o ran lleihau stigma ac annog pobl i ofyn am help. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau cyfryngau i annog cyfathrebu, adrodd a defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol ynghylch hunan-niweidio, hunanladdiad ac ymddygiad hunanladdol.

## Iechyd y Glasoed

### Cynllunio Teulu ac erthyliad

Darperir gwasanaethau atal cenhedlu yng Nghymru yn rhad ac am ddim drwy'r GIG (meddygon teulu a chlinigau iechyd rhywiol). Ar gyfer merched iau, gallant gael cymorth ac atal cenhedlu brys drwy Fferyllfeydd Cymunedol a fydd yn asesu diogelwch ac yn cyfeirio at wasanaethau arbenigol. Gallant hefyd ddarparu dulliau atal cenhedlu 'pontio' a gwybodaeth. Mae cynlluniau Cerdyn Condom ledled Cymru hefyd yn rhoi gwybodaeth ac yn cyfeirio at wasanaethau arbenigol ar gyfer atal cenhedlu ac erthyliad ac yn darparu gwasanaethau ar gyfer merched rhwng 13 a 25 oed.

Cafodd y trefniadau dros dro a gyflwynwyd yn ystod pandemig Covid-19, a oedd yn galluogi menywod a merched i gymryd y ddwy bilsen ar gyfer Erthylu Meddygol Cynnar (EMA) hyd at 9 wythnos a 6 diwrnod o feichiogrwydd yn eu cartrefi eu hunain, yn dilyn ymgynghoriad dros y ffôn neu e-ymgynghori â chlinigydd, heb yr angen i fynd i ysbyty neu glinig yn gyntaf, eu gwneud yn barhaol yng Nghymru ym mis Chwefror 2022.

Mae canllawiau newydd wedi cael eu datblygu gan glinigwyr sy'n gweithio gyda Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, Cyfadran Gofal Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu a Chymdeithas Darparwyr Gofal Erthylu Prydain i alluogi'r GIG yng Nghymru i weithredu'r newid mor effeithiol â phosibl. Mae'r canllawiau'n cynnwys camau i sicrhau nad yw menywod sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu gorfodi na'u hecsbloetio yn unol â phrotocolau diogelu Cymru. Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio'r angen i roi cyngor a chymorth i fenywod ar atal cenhedlu ac iechyd atgenhedlol.

Yn 2020, cyhoeddodd y GIG Feysydd Blaenoriaeth Iechyd Rhywiol 2020-2024. Yn anffodus, roedd y cyhoeddiad yn cyd-daro â dyfodiad y pandemig, gan effeithio ar yr adnoddau oedd ar gael i'w darparu. Mae Bwrdd y Rhaglen Iechyd Rhywiol yn adolygu'r blaenoriaethau hynny ar hyn o bryd, sy'n cynnwys argymhelliad ar atal cenhedlu, ac i wella mynediad lleol ac amserol at erthyliadau ym mhob cyfnod beichiogrwydd. Bydd canlyniad yr adolygiad hwnnw'n cael ei rannu â'r Rhwydwaith Iechyd Menywod wrth iddynt ddatblygu Cynllun Iechyd Menywod y GIG.

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRH) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r dysgu fod yn briodol yn ddatblygiadol i bob plentyn. Rhaid iddo hefyd fod yn blwraliaethol: sy'n golygu bod yn rhaid i ysgolion roi gwybodaeth ffeithiol ac yn gynhwysol o LHDTC+ . Rhaid i unrhyw adnoddau y mae ysgolion yn eu defnyddio fod yn unol â'r gofynion cyfreithiol hyn. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau Statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh).

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ACRh gorfodol ar waith ym mhob ysgol gynradd ac i ddysgwyr ym mlynyddoedd 7 ac 8 ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru. Bydd y gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru'n llwyr hyd at flwyddyn 11 yn cael ei roi ar waith ym mis Medi 2026. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion, rhanddeiliaid allweddol a gweithwyr proffesiynol wrth i ni barhau i gefnogi'r gwaith o weithredu Cwricwlwm i Gymru gydag adnoddau a dysgu proffesiynol.

**Camddefnyddio sylweddau**

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant newydd yn ofyniad statudol yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r maes hwn yn y cwricwlwm wedi'i chynllunio i gefnogi dysgwyr i ddeall bod manteision gydol oes i iechyd corfforol, ac mae hyn yn cynnwys hybu iechyd ac ymddygiad sy'n niweidio iechyd. Yn y maes hwn, gall ysgolion gefnogi eu dysgwyr i ddeall effeithiau niweidiol amrywiaeth o sylweddau, gan gynnwys tybaco ac alcohol.

Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau – cyffuriau ac alcohol – yn seiliedig ar ddull gweithredu lleihau niwed sy'n cydnabod bod caethiwed yn fater iechyd a gofal yn hytrach nag un sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol yn unig. Rydym am sicrhau bod pobl yng Nghymru yn ymwybodol o beryglon ac effaith camddefnyddio sylweddau a'u bod yn gwybod ble y gallant gael gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth.

Rydym wedi diogelu a chynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau rheng flaen ac rydym wedi clustnodi cyllid ar gyfer plant a phobl ifanc drwy Gronfa Weithredu Camddefnyddio Sylweddau'r Byrddau Cynllunio Ardal. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gwasanaethau'n darparu ymyriadau ac atal cynnar fel bod niwed tymor hirach yn cael ei atal cyn iddo ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys atal dod i gysylltiad â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Cyn bo hir, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Fframwaith yn ddogfen ganllaw ac fe'i cynlluniwyd i hysbysu a chynorthwyo cynllunwyr iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol i gynllunio a darparu gwasanaethau triniaeth o ansawdd uchel, gan weithio gyda'r rhai sydd mewn perygl o gychwyn defnyddio cyffuriau a/neu alcohol yn hanesyddol neu ar hyn o bryd neu brofiad o hynny. Byddwn hefyd yn cyhoeddi fersiynau sy'n addas i blant o'r Fframwaith.

Mae cefnogi plant a phobl ifanc i gael plentyndod di-fwg yn rhan allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer Cymru ddi-fwg. Mae data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn dangos bod 4% o ddisgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru rhwng 11 ac 16 oed yn ysmygu o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd, gyda'r rhai o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig yn cael dwywaith cyfraddau ysmygu'r rhai o'r cefndiroedd lleiaf difreintiedig. Er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc, rydym yn rhedeg rhaglen JustB Smoke Free sy'n gweithredu mewn ardaloedd sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn atal pobl rhag ysmygu.

Yn ystod blwyddyn gyntaf Tuag at Gymru Ddi-fwg: Cynllun Cyflawni Rheoli Tybaco 2022-2024, fe wnaethom ganolbwyntio ymdrechion ar leihau ysmygu ymysg mamau a chefnogi plant a phobl ifanc. Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru raglen waith i asesu'r data sydd ar gael ar gyfer gwyliadwriaeth a monitro'r defnydd o dybaco yng Nghymru. Roedd yn adolygu'r ffynonellau data rheolaidd sydd ar gael ar gyfer gwyliadwriaeth a monitro er mwyn rhoi darlun clir o'r boblogaeth ysmygu bresennol yng Nghymru a chanfod bylchau data ac awgrymu atebion i'r camau gweithredu.

Mae'r cynnydd mewn fepio ymysg plant a phobl ifanc hefyd yn peri pryder mawr. Nid oes lle i'r cynhyrchion hyn yn nwylo plant a phobl ifanc, ond gwyddom eu bod yn cael eu targedu'n weithredol atynt. Y llynedd, sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Plant a Phobl Ifanc i ddeall maint y broblem yn llawn yng Nghymru. Yn ogystal â chasglu tystiolaeth a data ac ymchwilio i achosion posibl, ceisiodd y Grŵp sefydlu mesurau rheoli i leihau'r risg o niwed parhaus a datblygu camau gweithredu aml-asiantaeth yng Nghymru. Cyhoeddodd y Grŵp adroddiad Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau fepio ymhlith Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru ar 18 Ebrill a thynnodd sylw at yr angen i gefnogi pobl ifanc sy'n gaeth i nicotin mewn fêps. Dyma faes y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru eisoes yn edrych arno, gan gynnwys sut rydym yn addasu ein gwasanaethau i gefnogi pobl yn well, gan gynnwys pobl ifanc i roi'r gorau i'w dibyniaeth ar nicotin. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhellion yr adroddiad yn ofalus maes o law.

Mae fêps hefyd yn cyflwyno heriau unigryw i ysgolion. Fis Medi 2023, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Gwybodaeth a Chanllawiau ar Fepio i ddysgwyr oed uwchradd yng Nghymru'' i gefnogi ysgolion gyda'r mater hwn. Roedd y canllawiau hyn yn defnyddio arbenigedd gweithwyr proffesiynol o wasanaethau iechyd, addysg a rhoi'r gorau i ysmygu ac yn nodi deg cam gweithredu allweddol i ysgolion fynd i'r afael â fepio, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â pholisïau ac arferion, cyfathrebu a chymorth. Darparwyd canllawiau hefyd ar sut i ymgysylltu â phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein yn ogystal ag argymhellion ar gyfer camau gweithredu ac atgyfeiriadau priodol. Gan adeiladu ar y canllawiau hyn, mae adnoddau i gefnogi athrawon i ddeall materion ac effaith fepio ar ddysgwyr ac i ymgorffori'r ddealltwriaeth honno yn eu haddysgu wedi cael eu datblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn cael eu treialu ar hyn o bryd gyda'r disgwyliad y byddant ar gael cyn diwedd y flwyddyn ysgol. Mae'r adnoddau hyn i gyd wedi'u hanelu at gefnogi ysgolion i gymryd camau cyson ac effeithiol i fynd i'r afael â fepio ymysg y dysgwyr maen nhw'n eu cefnogi.

Rydym hefyd yn gweithredu ar fêps defnydd un-tro (tafladwy). Nid yn unig y mae'r cynhyrchion hyn yn cael effaith amgylcheddol sylweddol, ond deellir hefyd eu bod yn ffactor pwysig sydd wedi ysgogi'r cynnydd diweddar mewn fepio ymysg pobl ifanc. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig wedi cyhoeddi bwriad y Llywodraeth i wahardd y cynhyrchion hyn o 1 Ebrill 2025 ymlaen. Bydd y gwaharddiad yng Nghymru yn cyd-fynd â gwaharddiadau tebyg yn Lloegr a'r Alban a bydd yn rhoi'r amser angenrheidiol i fusnesau baratoi ar gyfer y newidiadau, gyda chymorth cyhoeddi canllawiau a deunyddiau cyfathrebu sy'n cael eu datblygu ar y cyd â grwpiau sy'n cynrychioli busnesau.

Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol Cymru argymhellion fel rhan o "Siapio ein Hiechyd: Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru 2023" y dylai ysgolion, ochr yn ochr â'r cwricwlwm newydd, gael gwybodaeth ddiduedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn rhydd o ddylanwad masnachol a fydd yn helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus am eu hiechyd a'u llesiant. Roedd hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio'r dulliau strategol cywir i fynd i'r afael â niwed alcohol ac yn gwneud argymhellion i gryfhau negeseuon ynghylch alcohol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth gywir a diduedd i gefnogi ymyriadau iechyd y boblogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi a gweithio'n agos gydag Alcohol Change UK i leihau niwed alcohol ac ym mis Mawrth 2024 fe wnaethom gytuno ar gyllid ychwanegol iddynt i hwyluso prosiect lleihau niwed alcohol, sydd eisoes yn dangos arwyddion cynnar o ehangu yn ne Cymru. Mae "Adfer Bwyd" yn mynd i'r afael â maeth gwael ac arwahanrwydd cymdeithasol i unigolion sydd â phroblemau alcohol tymor hir, gan gynnig ffyrdd ymarferol o leihau niwed corfforol a seicolegol, meithrin perthnasoedd, a gwella ansawdd bywyd.

## Iechyd yr amgylchedd ac effaith newid yn yr hinsawdd ar hawliau'r plentyn

### Lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd ac addasu iddi

Mae gan Gymru darged cyfreithiol rwymol i gyflawni'r nod o allyriadau sero net erbyn 2050 fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gyda chyfres o dargedau interim a chyllidebau carbon marwol i'n harwain ar hyd y ffordd, sydd wedi'i nodi mewn rheoliadau ategol. Mae hyn ochr yn ochr ag uchelgais i'r sector cyhoeddus yng Nghymru fod yn garbon sero net ar y cyd erbyn 2030 fel y nodir yn Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2. Cymru Sero Net yw ein cynllun presennol, sy'n nodi'r camau rydym yn eu cymryd dros y gyllideb garbon hon ar draws pob sector allyriadau (2021-2025).

Mae dull gweithredu cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllunio Addasu wedi'i nodi yn Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd. Mae'r cynllun hwn yn dangos ein bod yn deall ac yn cymryd yr effeithiau sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd o ddifrif, ac rydym yn cymryd camau i baratoi ar gyfer y newidiadau hyn ac i addasu iddynt.

Fis Hydref 2023, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut gellir defnyddio dull Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i sicrhau bod addasiadau i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn diwallu anghenion grwpiau ac ardaloedd penodol o'r boblogaeth, yn sicrhau'r manteision gorau posibl ar gyfer iechyd a llesiant, yn atal risgiau anfwriadol i iechyd, ac yn osgoi gwaethygu anghydraddoldebau iechyd. Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cydnabod babanod, plant a phobl ifanc fel grŵp agored i niwed ac yn nodi cyfleoedd i liniaru risgiau effaith newid yn yr hinsawdd ar y grŵp hwn.

Ar ben hynny, mae swyddogion iechyd wedi cynhyrchu cyngor iechyd gwres a thywydd oer ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cyngor hwn yn cynnwys gwybodaeth am sut dylai'r sectorau hyn baratoi a bod yn barod i weithredu mewn achosion o dywydd eithafol

sy'n gallu achosi niwed corfforol a meddyliol i bobl, yn enwedig grwpiau agored i niwed gan gynnwys babanod, plant a phobl ifanc.

Rydym yn datblygu dull gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer Strategaeth Addasiadau Genedlaethol nesaf Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn hydref 2024. Bydd y strategaeth yn cynnwys cyfres o gynlluniau cydnerthedd hinsawdd 'ar sail systemau' a fydd yn cynnwys nodau sy'n ymwneud ag amddiffyn pobl rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd; a sicrhau darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol hygyrch ac o ansawdd yn ystod tywydd eithafol.

Byddwn yn gosod ein pedwaredd cyllideb garbon mewn deddfwriaeth yn 2025, gan ystyried cyngor ac argymhelliad gan ein corff cynghori annibynnol i sicrhau ein bod yn cael ein harwain gan wyddoniaeth.

**Diogelu'r amgylchedd**

Mae llygredd aer a sŵn yn peri risgiau penodol i iechyd a llesiant plant, gan gynnwys mewn lleoliadau addysg ac o'u cwmpas. Cafodd Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol a daeth yn gyfraith yng Nghymru ym mis Chwefror 2024. Mae'n moderneiddio ac yn gwella deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd awyr yng Nghymru, gan adeiladu ar gyfreithiau ansawdd aer a sŵn presennol a chryfhau cysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'n sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gosod targedau ansawdd aer; yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu i hybu ymwybyddiaeth; ac yn cryfhau dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru i reoli ansawdd aer yn lleol yn eu hardaloedd, gan roi mwy o bwyslais ar gamau gweithredu i wella ansawdd aer.

Mae nifer o flaenoriaethau dros y 12 mis nesaf yn ymwneud â gweithredu'r Ddeddf. Sef:

- Datblygu cynllun cyflawni sy'n nodi sut byddwn yn hybu ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â llygredd aer yn ogystal â ffyrdd o'i leihau neu ei gyfyngu.
- Gwneud rheoliadau i bennu ystod cosbau ar gyfer y trosedd o redeg injan pan na fydd cerbyd yn symud. Bydd canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ac ymgyrch gyfathrebu ehangach yn cyd-fynd â'r rheoliadau hyn.
- Canllawiau i awdurdodau lleol ynglŷn â newidiadau deddfwriaethol i'r rheolaeth bresennol ar fwg a fydd, o'i chychwyn, yn symud y drefn o sancsiynau troseddol i sifil gan ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol ei gorfodi.
- Canllawiau i awdurdodau lleol mewn ynglŷn â newidiadau deddfwriaethol i'r trefniadau rheoli ansawdd aer lleol presennol a fydd, pan fyddant yn dechrau, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiad o ansawdd aer bob blwyddyn a phennu dyddiadau cydymffurfio pan fydd ardal rheoli ansawdd aer ar waith.

Rydym yn disgwyl cyflawni'r elfennau hyn erbyn gwanwyn 2025. Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu targedau ansawdd aer cenedlaethol.

Yn unol ag argymhellion adroddiad Frontiers 2022 Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod sain a gludir yn yr aer, ynghyd â sylweddau a gludir yn yr aer, yn cael effaith ar iechyd a llesiant pobl. Felly, mae'r Ddeddf yn manteisio ar y cyfle i gysoni'r sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer Cynllun Sŵn a Seinwedd Cymru â'n Cynllun Aer Glân / strategaeth ansawdd aer genedlaethol, drwy ei sefydlu yn y gyfraith fel y strategaeth genedlaethol ar seinweddau. Hyd y gwyddom, Cymru yw'r wlad gyntaf i wreiddio seinweddau mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Dros y 6 blynedd diwethaf, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio gyda chlinigwyr a labordai yng Nghymru i ddatblygu system hysbysu gadarn ar gyfer plant sydd â lefelau uwch o blwm yn y gwaed. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedyn yn gweithio'n uniongyrchol gyda thîm meddygol y claf, gan roi gwybodaeth glir a dealladwy iddo ef a'i glaf am blwm a'i gefnogi i nodi ffynonellau posibl o ddod i gysylltiad â phlwm. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd system hysbysu a chamau gweithredu tebyg ar gyfer oedolion, sy'n cael effaith bwysig ar iechyd plant drwy leihau'r cysylltiad ehangach â phlwm yn y cartref neu pryd y gellir dod â llygredd plwm adref ar ôl dod i gysylltiad galwedigaethol.

**Cyfranogiad ac ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc**

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Eco-Sgolion a Maint Cymru sy'n gweithio gydag ysgolion a phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd a phwysigrwydd gwarchod y byd naturiol. Mae'r rhaglenni byd go iawn hyn yn grymuso dysgwyr i wneud newidiadau amgylcheddol cadarnhaol i'w hysgol a'r gymuned ehangach ar yr un pryd â chynnig cyfleoedd i ddweud eu dweud a bod yn rhan o'r ateb hinsawdd.

Mae'r rhaglenni hyn wedi ymgysylltu â channoedd o filoedd o blant a phobl ifanc, gan eu grymuso i sbarduno newid, i wella eu hymwybyddiaeth amgylcheddol, i gymryd camau gweithredu ac i ddysgu am y newid yn yr hinsawdd a phwysigrwydd coedwigoedd a diogelu ein hecosystemau. Cynhelir Cynadleddau Ieuenctid Blynyddol ar newid yn yr hinsawdd, gan ddod â phlant a phobl ifanc at ei gilydd i gwrdd yn uniongyrchol ag aelodau Llywodraeth Cymru a Gweinidogion i ddweud eu dweud a dysgu mwy am y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Roedd lleisiau plant a phobl ifanc yn bwysig iawn wrth ddatblygu Cynllun Cymru Sero Net. Roeddent yn darparu sylwadau manwl ac yn dangos pŵer gweithredu ar y cyd, ac maent yn parhau i ysbrydoli eraill i wneud mwy.

Mae dysgu am yr hinsawdd a natur hefyd yn orfodol ar draws y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig ym Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant, y Dyniaethau a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Rhaid i'r addysgu gynnwys ffocws penodol ar yr hinsawdd, a sut mae'r rhain yn cefnogi dysgwyr i gyflawni Pedwar diben y cwricwlwm newydd.

Rydym yn bwriadu cynnal Cynadleddau Ieuenctid Blynyddol ar newid yn yr hinsawdd, gan ddod â phlant a phobl ifanc at ei gilydd i gwrdd yn uniongyrchol ag aelodau Llywodraeth Cymru a Gweinidogion i ddweud eu dweud a dysgu mwy am y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

**Cydweithredu rhyngwladol**

Cymru oedd un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i gyhoeddi Argyfwng Hinsawdd. Mae gennym hanes hir o weithio ar lefel ryngwladol ac roeddem yn un o sylfaenwyr yr Under2Coalition, sef y rhwydwaith byd-eang mwyaf o wladwriaethau a rhanbarthau sydd wedi ymrwymo i gyflawni allyriadau sero net erbyn 2050. Heddiw, mae'r glymblaid bellach yn dwyn ynghyd dros 270 o lywodraethau sy'n cynrychioli 50% o'r economi fyd-eang. Mae Cymru yn aelod gweithgar ac ar y grŵp llywio.

Yn COP26, daeth Llywodraeth Cymru yn aelod craidd sylfaenol o'r Beyond Oil and Gas Alliance. Mae hon yn gynghrair ryngwladol o lywodraethau a rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda'i gilydd i hwyluso'r broses o roi'r gorau i gynhyrchu olew a nwy. Mae'r Gynghrair yn cydnabod bod yn rhaid i'r broses o roi'r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil gael ei rheoli a'i chyflawni'n deg, ond rhaid inni fynd i'r afael â gwraidd y newid yn yr hinsawdd.

Ynghyd â lleihau allyriadau, byddwn yn cymryd camau i ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd yr ydym eisoes yn eu gweld a'r rhai yr ydym yn disgwyl eu gweld yn y dyfodol. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl sut y bydd yr hinsawdd yn effeithio ar ein hiechyd yn y dyfodol a sut y gallwn ddiogelu ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Safon Byw

**Strategaeth Tlodi Plant**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant newydd sy'n nodi pum amcan trawslywodraethol a phum blaenoriaeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant. Roedd yr amcanion a'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth gan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi, gan gynnwys 1402 o blant a phobl ifanc, gan gynnwys plant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig. Mae 19 o ymrwymiadau sy'n cyd-fynd yn y strategaeth, gan gynnwys yr ymrwymiad i fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant ar gyfer cyflawni ein Rhaglen Lywodraethu,

yn unol â CCUHP, a mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb fel materion sy'n llywio polisïau trawsbynciol.

Amcan 1 y strategaeth yw lleihau costau a chynyddu incwm teuluoedd i'r eithaf a Blaenoriaeth 1 yw hawl (rhoi arian ym mhocedi pobl). Mae ymrwymiadau sy'n cydweddu i:

- Sefydlu system fudd-daliadau yng Nghymru sy'n seiliedig ar Siarter Budd-daliadau Cymru sy'n cael ei chyflwyno gyda thosturi ac sy'n cyflymu'r gwaith gyda'n partneriaid i basbortio a symleiddio'r broses o wneud cais am Fudd-daliadau yng Nghymru er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch.
- Gweithio gyda phartneriaid i arfogi pawb sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd i wneud i bob cyswllt gyfrif, fel bod pobl yn cael gwybodaeth a chyngor wyneb yn wyneb am gael cymorth i hawlio eu hawliau ariannol llawn.
- Cyflymu ein gwaith gydag Estyn a phartneriaid gwella ysgolion (awdurdodau lleol, Consortia) i sicrhau bod addysg yn brofiad niwtral o ran cost i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Bydd amcanion y strategaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Cymru lle gall plant a phobl ifanc gael mynediad at eu hawliau, bod â llesiant da, a chyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). Mae'r dyddiad nesaf ar gyfer adrodd ar gynnydd yn erbyn yr amcanion hyn yn 2025. Mae Fframwaith Monitro'n cael ei ddatblygu sy'n darparu dangosyddion a mesurau o ddata ar lefel y boblogaeth, bydd adroddiad cynnydd polisi yn cael ei gwblhau, a byddwn yn casglu tystiolaeth gan blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi.

O dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae gennym ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd ar gynnydd o ran cyflawni ein hamcanion tlodi plant. Cafodd yr Adroddiad Cynnydd diwethaf ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022, bydd yr un nesaf yn cael ei gyhoeddi yn 2025.

Mae fframwaith monitro sy'n seiliedig ar amrywiaeth o fesurau tlodi perthnasol yn cael ei ddatblygu a fydd, ochr yn ochr ag asesiad o'r cynnydd o ran cyflawni ein hymrwymiadau polisi a thystiolaeth gan blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi, yn ein helpu i adlewyrchu'n gywir effaith ein dull gweithredu ar gyfer y set gymhleth hon o broblemau.

**Digartrefedd**

Mae Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i greu Cymru lle mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i atal digartrefedd a, lle na ellir ei atal, sicrhau bod y profiad o ddigartrefedd yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd.

Byddwn yn cyflwyno Bil i fynd i'r afael â'r cynigion yn ein Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru gyda'r nod o fod o fudd i bobl o bob oed, drwy gryfhau mesurau sy'n annog gwasanaethau i ymyrryd yn gynnar i fynd i'r afael â'r risg o ddigartrefedd ac i'w hatal. Mae hefyd yn cynnig dyletswyddau ehangach ar y gwasanaeth cyhoeddus ehangach sy'n canolbwyntio ar anghenion y sawl sy'n gofyn am gymorth, yn effro i'r trawma y gallai fod wedi'i brofi ac yn seiliedig arno. Bydd ymyriadau cynnar yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt yn gynharach a, phan fo'n bosibl, nad ydynt yn cyrraedd y cam argyfwng.

Mae Ailgartrefu cyflym yn seiliedig ar ddull systematig o ddeall pa fath o dai sydd eu hangen, sut bydd y tai hynny'n cael eu hariannu, eu datblygu a'u dyrannu i bobl sy'n cael eu hunain yn ddigartref. Mae'r dull hwn, pan gaiff ei ddefnyddio'n briodol, yn golygu y bydd yr angen am sawl math o lety dros dro yn lleihau a dim ond am gyfnod byrrach y bydd ei angen.

Mae atal digartrefedd ymysg pobl ifanc a mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol wedi'i wreiddio yn y fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022. Mae pob awdurdod lleol wedi penodi Cydlynydd Digartrefedd Ieuenctid i helpu i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac i ymyrryd yn gynharach.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y Grant Cymorth Ieuenctid ac yn cefnogi awdurdodau lleol i adeiladu ar eu systemau adnabod cynnar i sicrhau bod pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael eu hadnabod a'u cefnogi.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Trosiannol yn ceisio creu capasiti ar gyfer llety. Drwy Rhaglen hon, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o gaffael eiddo, ailfodelu adeiladau presennol, troi adeiladau'n llety o ansawdd da, a'r defnydd arloesol o ddulliau adeiladu modern a llety modiwlaidd ar safleoedd 'diddefnydd'.

I gefnogi'r gwaith o ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol ychwanegol, rydym wedi dyrannu cyllid sylweddol i'r Grant Tai Cymdeithasol dros bedair blynedd gyntaf tymor y Senedd hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod byw'n dda mewn cartref o safon yn dod ag amrywiaeth eang o fanteision i iechyd, dysgu a ffyniant, gan gefnogi agenda ehangach y llywodraeth ar gyfer gwella canlyniadau iechyd a llesiant a chyrhaeddiad addysgol yn ogystal ag ar dlodi a datgarboneiddio. Dim ond y Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer tai sy'n bodloni'r safonau gofynnol a nodir yn Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddyfarnu. Mae'r safon yn nodi'r safonau ansawdd swyddogaethol sylfaenol ar gyfer tai fforddiadwy anghenion cyffredinol newydd ac wedi'u hadsefydlu. Mae Llywodraeth Cymru yn annog darparwyr tai a'u hymgynghorwyr i anelu at safonau y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol a nodir yma ac i fabwysiadu darlun cyfannol o ansawdd, gan gydnabod y mantais y bydd cartrefi o ansawdd uchel sy'n ddiwylliannol addas yn ei gael ar lesiant corfforol a meddyliol i bawb.

Yng Nghymru, rydym yn parhau i weithio'n galed i atal pobl rhag cael eu troi allan o'u cartrefi a dod yn ddigartref. Mae'r argyfwng costau byw ynghyd â chostau ynni uchel wedi golygu bod llawer o denantiaid tai cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Yn 2022 fel rhan o setliad rhent cymdeithasol 2023-2024, sicrhaodd y cyn Weinidog Newid Hinsawdd gyfres o ymrwymiadau gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru na fydd unrhyw droi allan oherwydd caledi ariannol cyn belled â bod tenantiaid yn ymgysylltu â'u landlordiaid. Mae'n ofynnol hefyd i landlordiaid cymdeithasol roi cymorth a chefnogaeth wedi'u targedu i denantiaid sy'n wynebu caledi ariannol i gael gafael ar gymorth ychwanegol. Cytunwyd â landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru y bydd yr ymrwymiadau hyn yn parhau i 2024-2025 fel rhan o'r cytundeb setliad rhent ehangach ar gyfer y flwyddyn honno.

Y Grant Cymorth Tai yw'r prif grant atal digartrefedd a ddarperir i awdurdodau lleol. Pwrpas y grant yw atal digartrefedd a helpu pobl i feddu ar y gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i gael a/neu gynnal cartref sefydlog ac addas.

**Plant mewn sefyllfaoedd difreintiedig**

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn cynnwys ymrwymiad i herio gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb fel nad yw nodweddion gwarchodedig yn ei gwneud yn anoddach i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd wneud yn dda. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi y bydd angen i bob un o'r Cynlluniau Gweithredu isod ystyried y croestoriadedd rhwng tlodi a gwahaniaethu:

Ar yr un pryd, bydd angen i bob un o'r Cynlluniau Gweithredu isod ystyried y croestoriadedd rhwng tlodi a gwahaniaethu:

- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau: cynllun gweithredu
- Gweithredu ar anabledd: y fframwaith hawl i fyw'n annibynnol a'r cynllun gweithredu
- Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys nod o ddarparu llety diogel sy'n briodol yn ddiwylliannol i Sipsiwn a Theithwyr. O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Asesiadau o Lety Sipsiwn-Teithwyr. Yn yr asesiad hwn, maent yn adrodd ar yr angen am leiniau Sipsiwn a Theithwyr ychwanegol yn eu hardal, yn rhai preswyl parhaol a rhai dros dro. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo. Mae gan Lywodraeth Cymru gyllid grant cyfalaf, y gellir ei ddefnyddio i ariannu

safleoedd preswyl neu safleoedd tramwy. Gall y rhain ariannu prosiectau i adnewyddu llety presennol, adeiladu lleiniau newydd a gwella cynaliadwyedd safleoedd i breswylwyr.

Rydym yn adolygu'r polisi cyllido presennol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i asesu ei effeithiolrwydd, gyda golwg ar dreialu ffyrdd ychwanegol neu newydd o ariannu darpariaeth safleoedd, gan gynnwys cymorth i safleoedd preifat; ac ailddrafftio'r Canllawiau Safleoedd i sicrhau bod anghenion dylunio a lleoliad cymunedau yn cael eu hadlewyrchu'n well yn y ddogfen hon. Wrth adolygu canllawiau'r safle, byddwn yn cynnwys profiad uniongyrchol aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Rydym yn comisiynu cynllun hyfforddi cenedlaethol ar gyfer timau opsiynau tai awdurdodau lleol Cymru, a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, i wella'r dull a ddefnyddir a'r cymorth a gynigir i'r aelodau o'r gymuned sy'n ceisio cymorth ar gyfer digartrefedd a materion llety drwy greu "hyrwyddwyr" neu "arweinwyr" Sipsiwn a Theithwyr ym mhob awdurdod lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu nifer o fentrau i geisio sicrhau bod plant sy'n perthyn i deuluoedd ffoaduriaid neu ymfudwyr yn gallu cael llety o ansawdd da a bod awdurdodau lleol yn cael eu hyfforddi a'u bod yn cael arweiniad i ddeall pryd a sut gallant ddarparu cymorth i'r rheini sydd heb fynediad at arian cyhoeddus.

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn rhoi cymorth ariannol brys i atal amddifadedd lle nad yw mathau eraill o gymorth ar gael i fewnfudwyr. Rydym yn annog ysgolion i sicrhau bod plant o deuluoedd sydd heb fynediad at arian cyhoeddus yn cael Prydau Ysgol am Ddim, lle bo angen. Mae Llywodraeth Cymru yn galw am welliannau i lety lloches i ofyn bod teuluoedd yn cael eu cadw mewn llety o ansawdd da, nad ydynt yn cael eu gorfodi i rannu ag unigolion nad ydynt yn perthyn, a bod diffygion yn cael eu cywiro'n gyflym. Mae gan bob ceisiwr lloches fynediad at y rhyngrwyd am ddim mewn llety lloches a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Nod ein gwasanaeth Symud Ymlaen i Ffoaduriaid yw atal digartrefedd lle mae Llywodraeth y DU yn gofyn i ffoaduriaid sydd newydd gael llety i geiswyr lloches o fewn 28 diwrnod.

**Addysg**

Mewn addysg Cenhadaeth ein Cenedl Llywodraeth Cymru Cenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru yw cyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, a chefnogi pob dysgwr. Mae gan y Grant Datblygu Disgyblion ran allweddol i'w chwarae o ran cyflawni hyn.

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn helpu ysgolion yn uniongyrchol i liniaru effaith tlodi ar blant drwy ddarparu cyllid ychwanegol i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel a phlant sydd â phrofiad o ofal.



# Addysg, hamdden a gweithgareddau diwylliannol (erthyglau 28-31)

## Addysg

### Addysg Hawliau Plant

Mae adran 64 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn nodi dyletswydd i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn ac ar hawliau pobl anabl.

Mae hawliau dynol (dysgu am hawliau a dysgu drwy hawliau) ac Amrywiaeth yn themâu trawsbynciol yn y Cwricwlwm i Gymru.

Rydym wedi datblygu cyfres o adnoddau dysgu proffesiynol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a CCUHPA, ac i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Bydd hyn yn cael effaith hirdymor a chynaliadwy ar ymwybyddiaeth plant o'u hawliau. Mae'r ddau fodiwl cyntaf wedi cael eu cyhoeddi, gyda thrydydd yn tynnu sylw at yr arferion gorau ac adnoddau ymarferol ar gyfer gwreiddio agwedd egwyddorol at hawliau dynol plant mewn addysg, a fydd ar gael yn hydref 2024.

### Cydraddoldeb mewn cyflawniad addysgol

Cenhadaeth ein Cenedl Llywodraeth Cymru yw cyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, a chefnogi pob dysgwr.

Bydd chwe amcan y genhadaeth yn sicrhau bod pob dysgwr, beth bynnag fo'i gefndir, yn cael ei helpu i fod yn ddinesydd iach, ymroddgar, mentrus a moesegol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Mae mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad wedi bod yn flaenoriaeth i addysg yng Nghymru bob amser. Rydym wedi mabwysiadu dull systematig ar draws addysg. Mae Safonau a Dyheadau Uchel i Bawb yn nodi map o'r camau y byddwn yn eu cymryd. Mae Grŵp Llywio'r Polisi Mynd i'r Afael ag Effaith Tlodi ar Gyrhaeddiad yn cwrdd bob chwarter, gan ganolbwyntio ar y camau gweithredu a nodwyd a dull cyd-awduro trawsbynciol ehangach ar gyfer datblygu polisi yn y maes hwn.

### Cwricwlwm i Gymru

Mae system wirioneddol ragorol a theg yn un lle mae pob dysgwr a dinesydd yn elwa ar addysg eang a chytbwys. Mae'r Cwricwlwm i Gymru, sydd ar waith ers mis Medi 2022, yn gosod safonau uchel i bawb, gan gyfuno gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau.

Pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yw'r dyheadau cyffredin ar gyfer pob person ifanc. Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn cael eu helpu i ddatblygu yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol a galluog
- cyfranwyr mentrus a chreadigol
- dinasyddion moesegol a gwybodus
- unigolion iach a hyderus

Mae canllawiau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn helpu ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain ac yn cynnwys adrannau penodol sy'n cefnogi'r gwaith o gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwla sy'n gynhwysol

i bob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar gwricwlwm sydd ar gael i bawb ac sy'n galluogi dysgu.

Mae dull gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer cynnydd yn allweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyflawni ei botensial. Mae'r cod Cynnydd yn cydnabod y canlynol:

- Bydd dysgwyr yn cynyddu ar eu cyflymder eu hunain
- Dylai cyflymder y cynnydd gael ei werthuso gan y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY.

Er y gall fod cysyniadau trothwy sy'n cynrychioli newid sylweddol yn nealltwriaeth dysgwr, nid yw'r rhain yn gysylltiedig ag oedrannau penodol ac ni fyddant yn digwydd ar yr un pryd mewn gwahanol feysydd ar gyfer dysgwyr unigol.

**Mynd i'r afael ag effaith tlodi**

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn helpu ysgolion yn uniongyrchol i liniaru effaith tlodi ar blant drwy ddarparu cyllid ychwanegol i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel a phlant sydd â phrofiad o ofal. Mae hefyd yn cefnogi amcanion Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru.

Mae'r Grant Hanfodion Ysgol wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o aelwydydd incwm isel ledled Cymru, gan helpu i leihau'r pryder ynghylch prynu gwisg ysgol ac offer, a galluogi plant i fynd i'r ysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar yr un lefel â'u cyfoedion.

Mae'r canllawiau ar wisg ysgol wedi'u hanelu at gyrff llywodraethu ysgolion a phenaethiaid. Rhaid i ysgolion ystyried y canllawiau hyn wrth ystyried eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Ymysg pethau eraill, mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar gost a fforddiadwyedd.

**Ysgolion Bro**

Mae Ysgolion Bro yn chwarae rôl amlwg yn mynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol ar gyrhaeddiad addysgol. Mae dysgu ac addysgu o ansawdd uchel yn cael effaith fawr ar ganlyniadau dysgwyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ond mae amgylchedd y cartref a'r gymuned ehangach hefyd yn cael dylanwad sylweddol. Gan gydweithio ar draws yr ysgol, y cartref a'r gymuned, gallwn roi cymorth mwy effeithiol i'n plant a'n pobl ifanc.

Ar gyfer 2023-24, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi i gynyddu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogir gan ysgolion. Rhan allweddol o'u rôl yw canolbwyntio ar wella presenoldeb, cyrhaeddiad a llesiant disgyblion. Rydym hefyd yn parhau i ariannu treial o reolwyr Ysgolion Bro, a fydd yn gweithio ar ddatblygu gwell perthynas rhwng ysgolion a'r gymuned.

Ar ben hynny, rydym yn darparu cyllid cyfalaf, gan barhau i helpu ysgolion i addasu eu hadeiladau er mwyn hwyluso defnydd cymunedol.

Ochr yn ochr â'r cyllid, rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar sut i ddatblygu Ysgolion Bro, canllawiau atodol ar Ymgysylltu â Theuluoedd ac Ymgysylltu â'r Gymuned, ac astudiaethau achos. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau atodol ar ddatblygu ymgysylltiad aml-asiantaeth mewn Ysgolion Bro. Bydd hyn yn helpu ysgolion i ddatblygu partneriaethau effeithiol gyda gwasanaethau arbenigol i ddiwallu anghenion dysgwyr a'u teuluoedd.

Rydym hefyd wedi sefydlu nifer o rwydweithiau i drafod â rhanddeiliaid allweddol, sy'n cynnwys: arweinwyr awdurdodau lleol, ysgolion, Rheolwyr Ysgolion Bro a Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, a hynny i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau a helpu i'w rhoi ar waith.

**Cymunedau Ethnig Leiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi camau gweithredu ac amcanion clir ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion plant, a'r gweithlu addysg, i greu system addysg sy'n wirioneddol wrth-hiliol yng Nghymru erbyn 2030. Mae'r camau gweithredu penodol yn y Cynllun yn cynnwys:

- gwella profiadau dysgwyr ac athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion.
- hybu a sicrhau llesiant dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
- lleihau bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn, gwahaniaethu a hiliaeth a brofir gan ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru drwy'r Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Leiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ariannu gweithgareddau addysgol allweddol a gwasanaethau cymorth i ddysgwyr o gymunedau ethnig leiafrifol sy'n wynebu rhwystrau i addysg. Gellir hefyd defnyddio'r cyllid i roi cymorth i blant sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Dathlu a chyfranogi: canllawiau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Cafodd y canllawiau newydd eu datblygu gyda mewnbwn gan ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ysgolion, awdurdodau lleol, Gwasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a Gwasanaethau Addysg i Deithwyr, llunwyr polisïau a chynrychiolwyr cymunedol. Eu nod yw helpu athrawon, ymarferwyr ac uwch arweinwyr i sicrhau bod dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael mynediad at addysg, yn datblygu eu talentau a'u sgiliau'n llawn, ac yn cyflawni eu llawn botensial.

Gan adeiladu ar y canllawiau 'Dathlu a chyfranogi', byddwn yn siarad â rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion ac awdurdodau lleol, i weld pa adnoddau ychwanegol y gellir eu datblygu i helpu ysgolion ac ymarferwyr i wella'r ymgysylltiad a'r cymorth i ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

**Plant anabl**

Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. Mae Atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i lunio strategaeth hygyrchedd. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrff sy'n gyfrifol am ysgolion i lunio cynlluniau hygyrchedd.

Nid yw cynhwysiant mewn ysgolion prif ffrwd yn ddigon ynddo'i hun i sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl mewn ysgolion. Mae gan ddisgyblion anabl yr hawl i gael addysg heb wahaniaethu annheg.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi dyletswydd ar y corff sy'n gyfrifol am ysgol i wneud addasiadau rhesymol i atal gwahaniaethu (gweler adran 85(6) ac Atodlen 13). Bydd y cam rhesymol, neu'r camau rhesymol, yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos unigol. Mae Codau Ymarfer y Ddeddf Cydraddoldeb a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi nifer o enghreifftiau y gellir eu hystyried yn addasiadau rhesymol i osgoi gwahaniaethu ar sail anabledd.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gynnwys a chynorthwyo disgyblion yn 2016, sy'n nodi rhagor o wybodaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol am eu cyfrifoldebau.

**Gofalwyr Ifanc**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall cyfrifoldebau gofalu person ifanc effeithio ar ei brofiad yn yr ysgol a'r coleg, gan gynnwys ei lesiant a'i brydlondeb, ei bresenoldeb a'i gyrhaeddiad.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cynnwys ymrwymiadau i wella'r gwaith o ganfod, helpu a chynorthwyo gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yng Nghymru. Cafodd rhagor o fanylion eu datblygu yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofalwyr a gyhoeddwyd ddiwedd 2021.

Mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a phob un o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru, fe wnaethom gyd-gynhyrchu'r cerdyn adnabod cenedlaethol i Ofalwyr Ifanc. Mae'r cerdyn yn helpu gofalwyr ifanc i gael mynediad at eu hawliau cyfreithiol, yn ogystal â chael cymorth gan athrawon, fferyllwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol. Byddwn yn adolygu'r cynllun i ddeall arferion da a'r rhwystrau o ran ei gyflwyno. Bydd ail-lansiad disgwyliedig yn cynnwys gofynion cyfathrebu/codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

Gofynnom i Estyn gynnal adolygiad thematig o'r ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion a oedd wedi nodi arferion effeithiol mewn ysgolion. Rydym hefyd wedi rhoi cyllid i Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ddatblygu adnoddau i roi cymorth i ysgolion a gofalwyr ifanc.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod ADY yn ffurfio'r system ADY yng Nghymru. Mae wedi'i chynllunio i helpu i sicrhau bod dysgwyr rhwng 0 a 25 oed yn cymryd rhan lawn mewn addysg brif ffrwd ac yn cyflawni eu llawn botensial. Bydd proses pedair blynedd o roi'r Ddeddf a'r Cod ar waith yn raddol yn dod i ben yn 2025. Creodd y Ddeddf rolau statudol. Mae gan bob ysgol brif ffrwd Gydlynydd ADY dynodedig, sef y pwynt cyswllt cyntaf yn yr ysgol ar gyfer cyngor ac arweiniad.

Mae deunyddiau codi ymwybyddiaeth a llwybr dysgu proffesiynol ADY wedi cael eu rhoi ar waith. Bydd y rhain yn helpu i ddatblygu sgiliau'r gweithlu addysg i ddefnyddio'r system newydd a diwallu anghenion dysgwyr ag ADY.

Ers 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol i gefnogi gweithrediad o ran ADY.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda darparwyr, rhieni, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill i fonitro gweithrediad y system ADY newydd. Dechreuodd gwerthusiad allanol pedair blynedd o weithrediad ADY ym mis Ionawr 2023.

**Presenoldeb**

Yn 2024-25 rydym wedi darparu cyllid i gynyddu capasiti presennol Swyddogion Lles Addysg ar draws y 22 Awdurdod Lleol i wella'r cymorth a ddarperir i ysgolion a dysgwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant ag absenoldeb parhaus. Defnyddir y cyllid i dalu costau swyddogion lles ychwanegol er mwyn galluogi'r gwasanaeth i ddarparu cymorth cynharach, cyn i faterion waethygu, yn ogystal â darparu cymorth mwy dwys i ddysgwyr ag absenoldeb uchel.

Ar ôl ymgynghori, rydym wedi cyhoeddi canllawiau newydd i ysgolion ar bresenoldeb, Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi, sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr.

Sefydlwyd Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2023 gydag aelodaeth draws-sector i roi cyngor i'r Gweinidog ar yr heriau o ran presenoldeb mewn ysgolion ar hyn o bryd. Mae mudiadau sy'n cynrychioli buddiannau plant yn aelodau o'r tasglu.

Mae'r Tasglu'n darparu tystiolaeth ac yn nodi'r materion sy'n rhwystro presenoldeb rheolaidd plant yn yr ysgol, ac yn gweithio gyda ni i ddatblygu atebion i gael gwared ar rwystrau a chynyddu presenoldeb.

Mae'r Tasglu'n darparu cyfeiriad strategol, yn pennu blaenoriaethau ac yn nodi camau gweithredu diriaethol drwy ffrydiau gwaith penodol o ymgysylltu ieuenctid; defnyddio data ac ystadegau i lywio presenoldeb; datblygu rhaglen gyfathrebu wedi'i thargedu ar sail gwybodaeth, a Chlwstwr Dysgu a Rhwydweithio â Chymheiriaid manwl.

Mae'r Tasglu'n awyddus i ddefnyddio ac adeiladu ar yr enghreifftiau rhagorol sydd eisoes yn cael eu gweld a'u gweithredu mewn ysgolion ledled Cymru, drwy rannu'r arferion gorau a chefnogi'r rhwydwaith ar gyfer ymyriadau cynnar. Byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd ymchwil i gael gwell dealltwriaeth o dueddiadau absenoldeb ac yn datblygu prosiectau i wella presenoldeb. Yn dilyn y gwaith hwn, byddwn yn diweddaru'r Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan i gynorthwyo'r gweithlu addysg.

**Gwahardd**

Rydym yn cyhoeddi data bob blwyddyn ar waharddiadau parhaol a chyfnod penodol, ac mae hyn yn cynnwys data wedi'i ddadgyfuno yn ôl tarddiad ethnig. Gellir paru'r data hwn ag ystod eang o ddata arall sy'n ymwneud â phlentyn, gan gynnwys canlyniadau addysgol, sy'n sail i bolisi sy'n ymwneud â gwaharddiadau.

Er nad yw'n gyffredin gwahardd plant oedran ysgol gynradd, nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfyngu ar benaethiaid nac athrawon sy'n gyfrifol am Unedau Cyfeirio Disgyblion rhag gwahardd disgyblion oedran ysgol gynradd.

Ar hyn o bryd rydym yn diwygio ein canllawiau ar wahardd mewn dau gam. Mae'r cam cyntaf, sydd wedi cael ei gyhoeddi, yn canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig ac yn defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ac sy'n ystyriol o drawma. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Bydd yr ail gam yn cynnwys diwygiadau mwy sylfaenol. Un o'r meysydd sy'n cael eu hystyried yw cyfyngu ar bwerau penaethiaid/athrawon sy'n gyfrifol am Unedau Cyfeirio Disgyblion i wahardd plant oedran ysgol gynradd a chryfhau'r canllawiau ymhellach mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Byddwn yn ymgynghori ar y fersiwn hwn o'r canllawiau yn ystod 2025.

Mae 'gwaharddiadau anffurfiol' yn anghyfreithlon yng Nghymru. Mae gwaharddiad anghyfreithlon, answyddogol neu anffurfiol yn cyfeirio at:

- anfon dysgwyr adref am resymau disgyblu, ond peidio â dilyn y gweithdrefnau sy'n ofynnol ar gyfer gwaharddiad ffurfiol.
- anfon dysgwyr adref, naill ai am gyfnodau byr neu gyfnodau hirach, penagored a all arwain weithiau at y dysgwr yn peidio â dychwelyd i'r ysgol o gwbl.

Mae'r canllawiau ar wahardd yn rhoi cyngor ar opsiynau eraill heblaw gwahardd disgybl. Ar ben hynny, rydym wedi comisiynu canllawiau ar fentrau sy'n effeithiol o ran helpu ysgolion, disgyblion a'u rhieni i osgoi gwaharddiad. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu canllawiau/gwybodaeth am arferion da ar gyfer ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn nodi pryd y gellir tynnu disgybl oddi ar gofrestr. Mae tynnu disgybl y tu allan i'r darpariaethau a nodir yn y rheoliadau yn anghyfreithlon. Rydym wedi cymryd nifer o gamau i sicrhau nad yw ysgolion yn tynnu plentyn oddi ar y gofrestr yn anghyfreithlon nac yn rhoi pwysau ar riant i dynnu plentyn oddi ar y gofrestr. Mae hyn yn cynnwys:

- Gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig, tymor byr o arferion cofrestru disgyblion (a oedd yn cynnwys nifer y cyffredinrwydd ac effaith tynnu oddi ar y gofrestr ('off-rolling').
- Rhoi prosesau cadarn ar waith ar gyfer gwirio data er mwyn lleihau gwallau yn y data y mae ysgolion yn ei ddarparu ynghylch cofrestru disgyblion.

Mae'r canllawiau ar wahardd yn nodi'n glir nad yw'n briodol dylanwadu ar rieni neu eu hannog i dynnu eu plentyn o'r ysgol 'yn wirfoddol' fel ffordd o ddelio ag ymddygiad anodd neu heriol.

Mae Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 yn darparu ar gyfer adolygu apêl plant ac, yn achos gwaharddiadau parhaol, apêl yn erbyn eu gwaharddiad mewn panel apêl annibynnol, a rhoi cymorth iddynt wneud hynny. Mae gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn darparu cyngor a chymorth arbenigol i blant sydd wedi'u gwahardd.

**Ataliaeth ac Arwahaniad**

Byddwn yn datblygu canllawiau i helpu lleoliadau addysg i weithredu fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol Llywodraeth Cymru. Bydd y canllawiau'n cefnogi'r gwaith o weithredu mewn lleoliadau addysg gynradd ac uwchradd yn ogystal ag Unedau Cyfeirio Disgyblion; byddwn hefyd yn sicrhau bod dogfennau canllawiau cysylltiedig eraill yn cyd-fynd â chynnwys y fframwaith ac yn cynnwys cyfeiriadau priodol pan fyddant yn cael eu hadolygu a'u diweddaru. Bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â'n cylch adolygu ar gyfer canllawiau i leoliadau addysg.

Rydym yn gweithio gyda'n cyd-weithwyr yng Nghenhedloedd eraill y DU i adolygu ein fframwaith atal ac arwahanu er mwyn sicrhau cysondeb, a hefyd i adolygu effaith bosibl canllawiau statudol ar gyfer y maes hwn.

**Gwrth-fwlio**

Mae ein canllawiau gwrth-fwlio statudol, Hawliau, Parch, Cydraddoldeb yn mynnu bod lleoliadau addysg yn ystyried bwlio a hiliaeth sy'n gysylltiedig â rhagfarn mewn strategaeth atal sy'n ystyried anghenion dysgwyr â nodweddion gwarchodedig.

O dan y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol mae cam gweithredu i gryfhau 'Hawliau, parch, cydraddoldeb', canllawiau gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion.

Byddwn yn diweddaru ein cyfres o adnoddau cyfarwyddyd, gan gynnwys dogfennau ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol. Bydd y diweddariad hwn yn cryfhau'r canllawiau ar ddulliau o atal ac ymateb i fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn.

**Cefnogi Dysgwyr Traws – canllawiau i ysgolion**

Mae Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru yn cynnwys amrywiaeth o ymrwymiadau i sicrhau addysg gynhwysol LHDTC+, gan gynnwys ymrwymiad i gyhoeddi canllawiau cenedlaethol i gefnogi plant a phobl ifanc traws mewn addysg. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gydag arweinwyr ysgolion, ymarferwyr, dysgwyr ac amrywiaeth o randdeiliaid ehangach ar ddatblygu canllawiau.

Drwy'r rhaglen Cymru Ifanc, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal sesiynau cyfranogi gyda dros 200 o blant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o ysgolion a sesiynau addysg ledled Cymru. Bydd gwybodaeth am y gwaith maes hwn a'r negeseuon allweddol sy'n cael eu rhannu gan bobl ifanc yn cael eu cyhoeddi pan fydd y canllawiau drafft yn cael eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad. Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, bydd adnoddau penodol ar-lein i helpu pobl ifanc i gymryd rhan, a chyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn sesiynau gwaith maes yn benodol ar gyfer dysgwyr.

**Deunyddiau addysg**

Mae datganiadau gorfodol y Cwricwlwm i Gymru o'r hyn sy'n bwysig yn cynnwys dysgu am hanes a chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i wneud addysgu am hanes a phrofiadau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn orfodol yng nghwricwlwm yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys dysgu am amrywiaeth cymunedau, yn enwedig straeon pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, yng nghanllawiau newydd y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r Cwricwlwm yn cynnwys chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae pob Ardal yn cynnwys elfennau gorfodol a elwir yn 'Ddatganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig'.

Mae un o 'Ddatganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' gorfodol y Dyniaethau yn cyfeirio'n benodol at sicrhau bod dysgwyr yn gallu "*datblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, lluosogol ac amrywiol cymunedau ddoe a heddiw. Mae'r straeon hyn yn amrywiol, yn cwmpasu gwahanol gymunedau, yn ogystal â straeon pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn enwedig.*"

Mae Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) yn hanfodol i helpu ymarferwyr i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru ac i wireddu uchelgeisiau'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae DARPL yn cael ei arwain gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd, gyda chynghrair o bartneriaid sydd â phrofiad bywyd a phroffesiynol, gan gynnwys Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru, I'm Representing a'r Black Curriculum ymysg eraill.

Cafodd DARPL ei lansio yn 2022 ac mae'n darparu hyb adnoddau a dysgu proffesiynol. Mae cyfoeth o adnoddau i helpu'r rhai sy'n gweithio ym maes addysg a gofal plant i ddatblygu arferion gwrth-hiliol, gan gynnwys gweminarau byw; deunyddiau anghydamserol, blogiau a phecynnau cymorth, ac mae'r cymunedau ymarfer ar gael yn rhwydd drwy gampws rhithwir DARPL.

Mae DARPL yn ysbrydoli ac yn galluogi gweithwyr proffesiynol ym maes addysg a gofal plant i gyfoethogi a datblygu plant a phobl ifanc fel dinasyddion egwyddorol a gwybodus sy'n ymwybodol o ddiwylliant.

## Gorffwys, hamdden a gweithgareddau diwylliannol a artistig

### Polisi chwarae

Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i asesu a, chyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau digon o gyfleoedd i blant chwarae yn eu hardaloedd. Gelwir hyn bellach yn 'Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'.

Mae'r Canllawiau Statudol i awdurdodau lleol, sef 'Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae' yn nodi'r hyn y mae angen i awdurdodau lleol ei ystyried wrth asesu a sicrhau digon o gyfleoedd chwarae. Yn unol â Diwallu Anghenion Amrywiol, dylai awdurdodau lleol anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac yn annog pob plentyn i chwarae a dod ynghyd, os yw'n dymuno gwneud hynny. Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru canllawiau i awdurdodau lleol, templedi, a'r pecyn cymorth ar gyfer Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae eleni.

Ym mis Hydref 2023, roeddem wedi cyhoeddi ymateb i Adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, sy'n nodi'r camau tymor byr, tymor canolig a thymor hir y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid drwy'r grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan ar gyfer parhad y Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae, gan ailddechrau ariannu bwyd, yn ogystal â'r mynediad hollbwysig at gyfleoedd chwarae.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ariannu a chefnogi lansiad ffilm Chwarae Cymru "dyma pam mae chwarae mor bwysig" sy'n dathlu ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd chwarae.

Mae Llywodraeth Cymru a'r sector gwaith chwarae yng Nghymru o blaid chwarae cynhwysol, lle gall plant abl ac anabl chwarae gyda'i gilydd. Cefnogir hyn gan y Fforwm Polisi Chwarae Plant a Fforwm Diogelwch Chwarae'r DU, a ryddhaodd Ddatganiad Sefyllfa ar y cyd i gefnogi cyfleoedd chwarae cynhwysol.

Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion i egluro cyfrifoldebau iechyd a diogelwch, a materion sy'n berthnasol i iechyd, diogelwch a lles disgyblion. Bydd y canllawiau diwygiedig yn cael eu rhannu gyda'r cyrff llywodraethu perthnasol.

### Trafnidiaeth

Yn 2022, cyflwynodd Trafnidiaeth Cymru (TrC) Siarter Plant a Phobl Ifanc; mae hwn yn amlinellu'r camau pwysig sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ac i ddangos sut gellir ymgorffori trafnidiaeth gyhoeddus yn eu hymddygiad o ddydd i ddydd.

Cynhaliodd TrC Senedd Ieuenctid Cymru ym mis Mai y llynedd, fel rhan o'i ffocws ar drafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer misoedd Ebrill-Gorffennaf 2023. Roedd 80 o aelodau o 10 ysgol yn bresennol. Fe wnaethon nhw fapio'r problemau a'r cyfleoedd. Roedd y digwyddiad hefyd yn nodi dechrau gwaith tymor hirach TrC, gan gynnwys sefydlu Grŵp Cynghori Plant a Phobl Ifanc, i sicrhau ymgysylltiad â'r cenedlaethau nesaf o ddefnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus.

Un o brif nodau Llwybr Newydd, Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yw lleihau cost teithio cynaliadwy i bawb yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn hwyluso mynediad at gyfleoedd hamdden, chwarae, diwylliannol ac addysgol.

Mae hyn yn seiliedig ar ein cynlluniau ar gyfer deddfwriaeth bysiau newydd, fel y nodir yn y papur gwyn: Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn, a fydd yn rhoi terfyn ar y broses o ddadreoleiddio gwasanaethau bysiau yng Nghymru, ac yn dod â nhw dan reolaeth gyhoeddus. Er nad yw hyn yn newid economeg sylfaenol heriol rhedeg bysiau, bydd yn caniatáu i benderfyniadau ynghylch strwythurau prisiau, rhwydweithiau ac amserlenni gael eu gwneud er budd y cyhoedd, a byddant yn amodol ar rwymedigaethau cydraddoldeb a hawliau dynol y sector cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod anghenion teithio pobl ledled Cymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn hwyluso mynediad at gyfleoedd hamdden, chwarae, diwylliannol ac addysgol yn cael eu hystyried.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, ynghyd â TrC, i fwrw ymlaen â darn o waith i redeg ymgyrch wedi'i thargedu a datblygu adnoddau perthnasol a hygyrch i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r holl gymorth trafnidiaeth gyhoeddus y gallant ei gael, gan gynnwys:

- Mae plant hyd at 5 oed yn teithio am ddim ar wasanaethau bysiau ledled Cymru ac yna o 5 oed a hyd at 16 oed, yn ôl disgresiwn pob gweithredwr, naill ai am hanner pris neu ddwy ran o dair o'r pris arferol i oedolion
- Mae cynllun teithio rhatach Llywodraeth Cymru, Fy Ngherdyn Teithio, ar gael i bob person ifanc rhwng 16 a 21 oed. Mae'r cynllun hwn yn rhoi tua 30% oddi ar bris tocyn bws safonol i oedolion ar wasanaethau bysiau lleol ledled Cymru.
- Mae amryw o docynnau bws am bris rhatach ar gael gan y gwahanol gwmnïau bysiau ledled Cymru hefyd.
- Gall plant dan 11 oed deithio am ddim ar wasanaethau trenau sy'n cael eu rhedeg gan TrC a gall pobl ifanc dan 16 oed deithio am ddim ar wasanaethau TrC y tu allan i oriau brig pan fydd oedolyn sy'n talu am docyn yn dod gyda nhw.
- Ar ben hynny, mae'r cerdyn rheilffordd 16-17 Saver hefyd ar gael i'w ddefnyddio ar bob gwasanaeth trên ledled Cymru a Lloegr. Mae'n cynnig 50% oddi ar y rhan fwyaf o docynnau trên bob dydd o'r flwyddyn heb gyfyngiadau amser a dim pris isaf, am gost flynyddol o £30.

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gydweithio â phlant a phobl ifanc i ddatblygu unrhyw ymyriadau a chynlluniau yn y dyfodol. Fel rhan o'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi edrych ar nifer o opsiynau i wella'r cynnig i bobl ifanc. Rydym yn parhau i weithio gyda gweithredwyr bysiau, awdurdodau lleol a TrC i chwilio am gyfleoedd i wneud teithio ar fysiau a threnau yn symlach, yn fwy fforddiadwy ac yn fwy hygyrch i bobl iau.

O ran teithio gan ddysgwyr, mae hwn yn faes cymhleth, trawsbynciol. Cyhoeddwyd adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr yn 2022 a chyhoeddwyd Adroddiad Argymhellion pellach ym mis Mawrth 2024. Mae'r Adroddiad Argymhellion yn amlinellu llwybr syml, ymarferol i wella'r ddarpariaeth teithio i ddysgwyr yng Nghymru, gan gynnwys diweddariad cynhwysfawr i'r canllawiau statudol. Bydd y diweddariad hwn yn helaethu ac yn cyd-fynd â datblygiadau deddfwriaethol dros y degawd diwethaf yng Nghymru, gan sicrhau bod yr holl bartneriaid cyflawni yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau ar draws amrywiaeth o feysydd polisi gan gynnwys ADY, y Gymraeg, yn ogystal â gwreiddio dull gweithredu Hawliau Plant.

Rydym yn ystyried opsiynau i ddatblygu ein cynllun peilot Tocyn Croeso ar gyfer teithio am ddim ar fysiau i helpu plant o deuluoedd sy'n ceisio lloches i gael mynediad at drafnidiaeth wedi'i hariannu. Byddai cynllun o'r fath yn cefnogi integreiddio gwell a gwireddu hawliau plant yn well.



# Mesurau Diogelu Arbennig (erthyglau 22, 30, 32-33, 35-36, 37 (b)-(d) a 38-40)

## Plant mudol, plant sy'n ffoaduriaid, a phlant sy'n ceisio lloches

**Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi dynodi ei argymhellion ar gyfer plant mudol, plant sy'n ffoaduriaid, a phlant sy'n ceisio lloches fel maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu gan y Wladwriaeth sy'n Barti. Ar gyfer pob maes blaenoriaeth dynodedig, rydym wedi hwyluso trafodaethau traws-sector ar ein dull gweithredu yng Nghymru, sydd wedi cyfrannu at ein hymateb.**

### Cenedl Noddfa

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw mewnfudo a lloches. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau dros integreiddio mudwyr a sicrhau mynediad teg at wasanaethau, o dan y Rheolau Mewnfudo.

Mae ein gwaith i roi cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn dilyn egwyddorion sydd wedi ennill eu plwyf ac sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Gweithredu Cenedl Noddfa, gan gynnwys mabwysiadu dull hawliau dynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae Sylwadau Terfynol 2023 yn cyfeirio at y sylwadau cyffredinol ar y cyd, Rhif 3 a Rhif 4, y Pwyllgor ar Ddiogelu Hawliau'r Holl Weithwyr Mudol ac Aelodau eu Teuluoedd, yn ogystal â Rhif 22 a Rhif 23 y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn yng nghyd-destun mudo rhyngwladol. Mae'r Pwyllgor yn annog y Wladwriaeth sy'n Barti i roi sylw i wyth argymhelliad mewn perthynas â'r plant hyn.

Mae rhan (a) yn ceisio diwygio'r Ddeddf Mudo Anghyfreithlon. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon wedi'i datganoli i Gymru, fodd bynnag, pan fydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth a pholisïau newydd, rydym yn ystyried lles pennaf plant ac yn eirioli dros newidiadau yn unol â hynny.

Yn ystod y gwaith o ddatblygu Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022 a Deddf Mudo Anghyfreithlon 2023, roedd Gweinidogion Cymru wedi argymell gwrthod rhoi cydsyniad i Senedd y DU basio deddfwriaeth oherwydd roeddem yn credu bod y cynigion yn mynd yn groes i les pennaf plant. Argymhellodd Llywodraeth Cymru y dylid tynnu'r dynodiad statws ffoadur Grŵp 2 (argymhelliad rhan (b)). Fodd bynnag, dim ond Llywodraeth y DU sy'n gallu gweithredu'r newid hwn. Roeddem yn falch o weld Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â gweithredu'r statws hwn.

Un o brif ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu 2021 - 2026 Llywodraeth Cymru yw parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae'r cyllid a ddarperir i TGP Cymru i gefnogi'r plant hyn fel rhan o Wasanaeth Noddfa Cymru yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Bydd yr holl awdurdodau lleol sy'n derbyn yng Nghymru yn parhau i hybu, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, sefydlu cysylltiadau teuluol ar gyfer plant yn eu gofal sydd ar eu pen eu hunain ac sy'n ceisio lloches. Byddwn yn ystyried y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i blant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain yng Nghymru, ac yn archwilio sut y gallai gwasanaeth gwarcheidiaeth weithio yng Nghymru, yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu system o'r fath, a sut y gallai gynorthwyo plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain yng Nghymru.

Byddwn yn edrych ar ddiweddaru'r canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod asesiadau oedran yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n seiliedig ar hawliau plant.

Byddwn yn parhau i dynnu sylw Llywodraeth y DU at y newidiadau sydd eu hangen i'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar gyfer pobl ifanc sydd am gael eu lleoli yn agos at aelodau o'r teulu.

**Gwybodaeth a chyngor cyfreithiol sy'n briodol i oedran ynghylch eu hawliau, gweithdrefnau lloches a'r gofynion o ran dogfennau**

Rhan (c) o argymhelliad y Pwyllgor oedd sicrhau bod plant yn cael gwybodaeth a chyngor cyfreithiol sy'n briodol i'w hoedran. Rydym yn cydnabod yr angen am wybodaeth gywir a hygyrch am y broses lloches, a'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc wrth geisio lloches, yn enwedig os nad oes ganddynt riant neu warcheidwad.

Rydym yn darparu amrywiaeth o gyngor ac arweiniad i ymarferwyr i roi cymorth i'r plant a'r bobl ifanc hyn, ac i gefnogi gallu'r plant a'r bobl ifanc eu hunain i gael mynediad at eu hawliau.

Fe wnaethom gomisiynu Canolfan Gyfreithiol y Plant i ddiweddaru canllawiau sy'n addas i blant a datblygu fideo sy'n amlinellu hawliau plant a phobl ifanc wrth geisio lloches yng Nghymru. Mae'r rhain ar gael mewn 14 o wahanol ieithoedd.

I ategu'r canllawiau, darparodd Canolfan Gyfreithiol y Plant hyfforddiant am ddim wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.

Wrth greu'r canllawiau, ymgynghorodd Canolfan Gyfreithiol y Plant yn eang â gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant yng Nghymru, y Rhwydwaith Maethu, a gyda mudiadau sy'n rhoi cymorth i blant sy'n ceisio lloches yng Nghymru i sicrhau bod y wybodaeth yn y canllawiau yn berthnasol i'r bobl ifanc ac yn hawdd ei deall. Er mwyn cynhyrchu'r fideos cyfarwyddyd, fe wnaeth Canolfan Gyfreithiol y Plant gydweithio â cheiswyr lloches ifanc a chyfieithwyr drwy TGP Cymru.

Mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru hefyd yn cael cymorth drwy'r Rhaglen Hawliau Lloches a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer Rhaglen Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Ifanc TGP Cymru. Mae hon yn bartneriaeth o sefydliadau ledled Cymru sy'n darparu cyngor a chymorth arbenigol i bobl sy'n ceisio lloches wrth iddynt lywio drwy system loches y DU.

Cyllidodd Llywodraeth Cymru gyfres o grwpiau ffocws a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Mudo Strategol Cymru ac Achub y Plant gyda phlant sy'n ceisio lloches am eu profiadau o fywyd yng Nghymru. Rydym hefyd yn clywed gan Grŵp Cyfranogiad plant sy'n ceisio lloches TGP Cymru.

**Mynediad cyfartal at wasanaethau**

Rhan (d) o Argymhelliad y Pwyllgor oedd cryfhau mesurau i sicrhau bod pob plentyn sy'n ceisio lloches, sy'n ffoaduriaid ac yn fewnfudwyr yn cael mynediad cyfartal a phrydlon at wasanaethau integreiddio. Mae'r argymhelliad hwn yn cyd-fynd yn agos â'n gweledigaeth Gwlad Noddfa. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fabwysiadu agwedd 'plentyn yn y lle cyntaf, ac yn fudwr wedyn' at roi cymorth i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches,

ac rydym yn disgwyl i bartneriaid yng Nghymru fabwysiadu'r un agwedd. Maent yn derbyn statws derbyn gofal yng Nghymru ac yn elwa ar amrywiaeth o wasanaethau a hawliau, a dyletswyddau rhianta corfforaethol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn gweithredu er lles pennaf y plant y maent yn eu gwasanaethu ac yn rhoi sylw dyledus i hawliau'r plant hynny. Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya, gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae Cymru'n trin y plant hyn fel rhai sydd â'r un hawliau â phlant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u geni yng Nghymru a'r DU; mae hyn yn cynnwys mynediad at wasanaethau iechyd ac addysg.

Pan fydd plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn gadael gofal, mae ganddynt hawl i gael cymorth gan Gynghorydd Personol nes eu bod yn 25 oed (ar yr amod eu bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth). Mae ganddynt hawl hefyd i gael eiriolwr, hawl arall a roddir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth).

Mae argymhelliad rhan (e) yn gofyn i Wladwriaethau sy'n Barti roi terfyn ar ddefnyddio gweithdrefnau ymwthiol ac annibynadwy ar gyfer pennu oedran. Yn anffodus, ni all Llywodraeth Cymru bennu sut y gwneir penderfyniadau o'r fath at ddibenion mewnfudo. Fodd bynnag, rydym yn cynhyrchu canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion gofal a chymorth plant yn cael eu diwallu. Mae Pecyn Cymorth asesu oedran plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y dylai pobl ifanc gael eu trin fel plant yn y lle cyntaf, ac yn fudwyr wedyn ac y dylid defnyddio'r egwyddor mantais yr amheuaeth. Mae hyn yn golygu y dylai awdurdodau lleol dderbyn pobl ifanc fel plant (dan 18 oed), oni bai fod eu hymddangosiad neu eu hymddygiad cyffredinol yn awgrymu'n gryf iawn eu bod dros 25 oed.

Byddwn yn edrych ar ddiweddaru'r canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau bod asesiadau oedran yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n seiliedig ar hawliau plant.

Mae argymhelliad rhan (f) yn ymwneud â rheoli mewnfudo, sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Byddwn yn parhau i eirioli dros ddull gweithredu tosturiol syn seiliedig ar hawliau plant ar gyfer y materion hyn.

**Aduno teuluoedd sy'n cynnwys plant ar eu pen eu hunain**

Mae argymhelliad rhan (h) yn ymwneud â'r system ar gyfer Aduno Teuluoedd yn y DU. Mae llwybrau aduno teuluoedd ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn fater wedi'i gadw'n ôl ac yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r Groes Goch Brydeinig i ddarparu ei Wasanaeth Integreiddio Aduno Teuluoedd yng Nghymru. Mae hyn yn ceisio aduno teuluoedd sydd wedi gwahanu lle mae gan un aelod 'Ganiatâd i Aros' a'i fod yn byw yng Nghymru. Mae hwn yn brosiect pwysig i sicrhau y gellir aduno plant ar eu pen eu hunain gyda'u rhieni.

Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU adolygu'r Cynllun Aduno Teuluoedd er mwyn manteisio i'r eithaf ar ei ddefnydd fel llwybr diogel a chyfreithlon i'r DU, gan adeiladu ar wersi o'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin. Mae Aduno Teuluoedd yn cefnogi hawliau plant i gael eu haduno â'u rhieni ac yn cefnogi llesiant yr uned deuluol.

Mae'r rhan fwyaf o blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn cael eu hatgyfeirio i Gymru drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar sail rota. Mae gan rai pobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio drwy'r Cynllun aelodau o'r teulu mewn rhannau eraill o'r wlad. Fodd bynnag, gan nad yw'r rhain yn deulu agos (hy brodyr a chwiorydd neu rieni), gall y Swyddfa Gartref atgyfeirio i gynghorau Cymru, gan roi'r cyfrifoldeb ar yr awdurdod sy'n derbyn i sefydlu cysylltiadau teuluol a lleoli'r person ifanc yn agos i, neu gydag aelod o'r teulu, os credir bod hynny'n briodol. Mae awdurdodau lleol yn hybu'r broses o sefydlu cysylltiadau teuluol pan fo hynny'n briodol a'u bod yn gallu gwneud hynny.

Gan weithio ochr yn ochr â Phartneriaeth Mudo Strategol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, rydym wedi tynnu sylw Llywodraeth y DU at y ffaith y dylai'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ystyried a oes unrhyw aelodau o'r teulu eisoes yn byw yn y DU er mwyn gallu lleoli'r person ifanc gerllaw, er enghraifft.

Byddwn yn archwilio a oes angen canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch cymorth ar gyfer aduno teuluoedd yn y wlad wreiddiol.

**Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches – Cynllun Gwarcheidiaeth**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall cyrraedd ar eu pen eu hunain mewn gwlad dramor gael effaith ddinistriol a pharhaol ar fywyd plant a phobl ifanc. Mae'n hollbwysig bod plant ar eu pen eu hunain sy'n cyrraedd Cymru yn cael mynediad at y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i'w helpu i addasu i'w bywyd newydd yma.

Mae argymhelliad rhan (g) yn gofyn i Wladwriaethau sy'n Barti ddatblygu system statudol gyson o warcheidiaeth annibynnol ar gyfer pob plentyn sydd ar ei ben ei hun. Yng Nghymru, mae gennym wasanaeth Gwarcheidwaeth Annibynnol ar gyfer Plant wedi'u Masnachu, sy'n gweithredu'n genedlaethol ers 2017. Mae'r gwasanaeth hwn o dan gontract gan y Swyddfa Gartref ond cynrychiolir Llywodraeth Cymru ar fwrdd llywio'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth hwn, sy'n cael ei redeg gan Barnardo's, yn rhoi cymorth i blant wedi'u masnachu. Ond yn ddiweddar rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, ac felly mae mwy o angen am y gwasanaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i edrych ar y cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd i blant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain yng Nghymru, ac yn ystod tymor y Senedd hon bydd yn archwilio sut gallai gwasanaeth gwarcheidiaeth weithio, yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu system o'r fath, a'r croestoriad â'n gwasanaethau statudol fel cynghorwyr personol a darparu eiriolaeth.

**Masnachu**

Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw masnachu mewn plant. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid aml-asiantaeth i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn plant. Mae hyn yn cynnwys llunio Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu plant a all fod wedi'u masnachu.

lywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda phartneriaid amlasiantaeth, gan gynnwys cydweithrediad parhaus drwy Fforwm Gwrthgaethwasiaeth Cymru a'i weithgorau thematig.

**Gweinyddu Cyfiawnder i Blant**

**Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi dynodi ei argymhellion ar gyfer gweinyddu cyfiawnder i blant fel maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu gan y Wladwriaeth sy'n Barti. Ar gyfer pob maes blaenoriaeth dynodedig, rydym wedi hwyluso trafodaethau traws-sector ar ein dull gweithredu yng Nghymru, sydd wedi cyfrannu at ein hymateb.**

**Cyfiawnder Ieuenctid**

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gyfiawnder, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid, ond mae gwasanaethau datganoledig yng Nghymru yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o roi cymorth i blant a allai fod mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder.

Mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, gan ddefnyddio dull hawliau 'rhoi plant yn gyntaf'. Mae hyn yn golygu gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn hytrach na'r gwasanaeth, gan ddiwallu anghenion unigol plant yn y system gyfiawnder neu blant sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn cyhoeddi Fframwaith Atal yn 2024. Bydd y fframwaith yn rhoi darlun cyfannol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o'r hyn sy'n gweithio i atal plant rhag dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol a sut mae gweithgarwch o wahanol sectorau yn dod at ei gilydd i gefnogi hyn. Dyma'r tro cyntaf i ni ddarparu'r darlun cynhwysfawr hwn o atal ar draws y system.

Mae'r fframwaith yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â phartneriaid datganoledig a rhai heb eu datganoli i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig. Mae'n adlewyrchu'r cyd-destun strategol a gweithredol yng Nghymru, a sefyllfa unigryw cyfiawnder ieuenctid a sut mae'n gorgyffwrdd â systemau a gwasanaethau cyfiawnder sy'n ymwneud â lles plant.

Mae'r Glasbrint yn canolbwyntio'n benodol ar fabwysiadu dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma drwy gydol gwahanol gamau'r system cyfiawnder ieuenctid, o atal ac ymyrryd yn gynnar i adsefydlu o'r ddalfa, gan gydnabod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ymateb iddynt.

Mae Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru yn cynnwys y gronfa Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu. Mae'r cyllid hwn yn cynnig cymorth ataliol a dargyfeiriol i blant sydd mewn perygl o ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid ac i blant sy'n rhan ohoni eisoes.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau cysondeb o ran terminoleg ar draws y system gyfiawnder.

Byddwn yn sicrhau bod strwythurau a llywodraethu priodol ar waith i gefnogi'r gyd-ddealltwriaeth gyda gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

Mewn perthynas â'r Prosiect Cartrefi Bach, a datblygu unedau preswyl rhanbarthol llai, mae gwaith wedi cael ei ail-fframio i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn y maes hwn. Mae ein gwaith bellach yn canolbwyntio ar Hillside i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i weithredu ar lefel uchel, gan sicrhau bod arferion sy'n ystyriol o drawma ar waith a bod anghenion y bobl ifanc sy'n byw yn Hillside yn cael eu diwallu. Yn ogystal â hyn, rydym yn gweithio tuag at nod tymor hirach i leihau nifer y bobl ifanc y mae angen Llety Diogel arnynt drwy weithio i wella'r cymorth preswyl rhanbarthol sydd ar gael i bobl ifanc ag anghenion cymhleth, gan ganolbwyntio ar leddfu, gwella Cymorth Ar Ffiniau Gofal a chymorth Ymyriadau Cynnar. Mae hyn yn cael ei gwmpasu yn y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant

Byddwn yn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed a'i ystyried wrth ddatblygu ffrydiau gwaith a pholisïau yn y dyfodol.

**Data**

Rydym wedi cyhoeddi dangosfwrdd rhyngweithiol Cyfiawnder Ieuenctid, gan dynnu ystadegau o ddatganiad ystadegol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'u cyflwyno gyda ffocws Cymreig. Rydym yn ystyried ffynonellau eraill sy'n addas i'w cynnwys mewn diweddariadau i'r dangosfwrdd hwn yn y dyfodol, gan barhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i wella argaeledd data Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru.

**Datganoli Cyfiawnder Ieuenctid**

Ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cynnydd, Sicrhau Cyfiawnder i Gymru, a oedd yn nodi ein blaenoriaethau o ran datganoli cyfiawnder ieuenctid. Yn aml iawn, bydd gan blant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid hefyd berthynas â nifer o wasanaethau datganoledig, gan gynnwys gorgyffwrdd sylweddol â'r boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal. Mae canolbwyntio ar roi plant yn gyntaf hefyd yn cyd-fynd ag ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r angen i dorri cylchoedd sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae gweithredu'r system cyfiawnder ieuenctid yn gofyn am gydweithio agos, gyda chyfrifoldebau am wasanaethau i roi cymorth i blant sydd naill ai'n rhan o'r system gyfiawnder neu sydd mewn perygl o ymuno â'r system gyfiawnder wedi'u rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu bod sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn gofyn am gydweithio ar draws asiantaethau sydd wedi'u cadw'n ôl a'r rhai sydd wedi'u datganoli, yn ogystal â'r trydydd sector. Mae'r cydweithio hwn yn cael ei wneud yn fwy cymhleth yn y bôn gan y trefniadau cyfansoddiadol presennol, yn enwedig lle mae angen cytundeb dwy lywodraeth sydd wedi'u hethol ar wahanol fandadau ar gyfer gwahanol ardaloedd daearyddol.

Gallai datganoli gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid wneud y system yn fwy cydlynol a thryloyw, a byddai'n ein galluogi i wreiddio'r arferion gorau ymhellach ledled Cymru a datblygu dull gweithredu mwy cyson yng Nghymru gyfan.

Byddwn yn parhau i weithio gydag academyddion a'r rhai ag arbenigedd gweithredol i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut gallai datganoli gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid weithio'n ymarferol.



# Protocolau Dewisol i'r Confensiwn

## Protocol Dewisol ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant

**Masnachu a chaethwasiaeth fodern**

Child trafficking is a reserved matter. Mae masnachu mewn plant yn fater wedi'i gadw'n ôl. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid aml-asiantaeth i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn plant. Mae hyn yn cynnwys llunio Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu plant a all fod wedi'u masnachu. Rydym hefyd yn cydweithio drwy Fforwm Gwrthgaethwasiaeth Cymru a'i weithgorau thematig.

**Diogelwch Ar-lein (Cadernid Digidol mewn Addysg)**

Mae'n hollbwysig addysgu plant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd ymddygiad parchus ac ystyriol ar-lein ac all-lein. Drwy ein Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cadernid Digidol, ein bwriad yw cydweithio ar draws y llywodraeth, y byd academaidd a'r diwydiant i fynd i'r afael ag ymddygiad atgas a cham-drin ar-lein.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y DU ar yr agenda niwed ar-lein, sy'n ceisio sefydlu trefn reoleiddio newydd i fynd i'r afael â chynnwys anghyfreithlon a niweidiol ar-lein. Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i ddysgu mwy am faterion sy'n dod i'r amlwg, ac i ddatblygu gwell dealltwriaeth o effaith a dylanwad deallusrwydd artiffisial. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i ymgysylltu ag Ofcom, rheoleiddiwr y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, wrth lunio canllawiau sy'n dod i'r amlwg i gefnogi'r Ddeddf.

Mae'r adran Cadw'n ddiogel ar-lein ar Hwb yn cynnwys cyngor, canllawiau ac adnoddau addysgu ar amrywiaeth o faterion ar-lein i gefnogi ysgolion yng Nghymru. Mae'r adran Cadw'n ddiogel ar-lein hefyd yn rhoi cyngor a chymorth i ddysgwyr a'u teuluoedd i'w helpu i lywio drwy'r byd ar-lein. Mae'n cynnwys gwybodaeth am faterion sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, ar gyfer ymarferwyr addysg, dysgwyr a theuluoedd.

Llywodraeth Cymru yw'r corff llywodraeth cyntaf i ddod yn aelod o'r Internet Watch Foundation (IWF). Rydym yn parhau i weithio gyda'r IWF i ddeall y bygythiad sy'n dod i'r amlwg gan Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (GenAI) er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ar-lein. Mae canllawiau ac adnoddau i roi gwybod i bobl ifanc am y risgiau sy'n gysylltiedig â rhannu delweddau noeth neu hanner noeth, ac at bwy y dylent droi am gymorth mewn achosion o'r fath, ar gael. Mae'r canllawiau hyn yn pwysleisio bod rhannu delweddau noeth neu hanner noeth o bobl dan 18 oed gydag oedolion neu gan oedolion yn gyfystyr â cham-drin plant yn rhywiol, ac y dylid rhoi gwybod i'r heddlu fel mater o frys.